YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
38/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
04/06/2020

# Gwerthusiad o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-80038-620-4

Gwerthusiad o’r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

Nia Bryer / Ymchwil OB3
Heledd Bebb / Ymchwil OB3
Einir Burrows / Dateb
Gemal Mekki / Hatch Regeneris

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Bryer, N., Bebb, H., Burrows, E., and Mekki, G. (2020). *Gwerthusiad o’r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 38/2020.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-timau-ymgysylltu-rhanbarthol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Charlotte Guinee
Welsh European Funding Office
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Tel: 0300 025 0734
Email: charlotte.guinee@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr o'r Tablau a'r Ffigurau .......... 2
Rhestr Termau .......... 3
1. Cyflwyniad .......... 4
2. Methodoleg .......... 6
3. Trosolwg o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol .......... 9
4. Damcaniaeth Newid .......... 19
5. Mewnbwn a gweithgareddau .......... 28
6. Allbynnau a chanlyniadau .......... 53
7. Gweithrediadau'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn y dyfodol .......... 62
8. Adolygiad o ddulliau ymgysylltu rhanbarthol ledled y DU .......... 66
9. Casgliadau ac argymhellion .......... 75

**Rhestr o'r Tablau a'r Ffigurau**

Tabl 3.1: Cyllid ESI ar gyfer y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn ôl rhaglen weithredol ...... 13
Tabl 6.1: Dangosyddion targed y Timau Ymgysylltu a'r cyflawniadau hyd yma ................... 54

Ffigur 4.1: Model Rhesymeg Gwreiddiol y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer Timau Ymgysylltu Rhanbarthol ........................................................................................................... 20
Ffigur 9.1: Model Rhesymeg Diwygiedig y Ddamcaniaeth Newid, sy'n adlewyrchu dull presennol Timau Ymgysylltu Rhanbarthol ........................................................................ 79

**Rhestr Termau**

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| ALl | Awdurdod Lleol |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| DC | Dwyrain Cymru |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| EMFF | Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop |
| ERDF | Cronfa Datblygu Ranbarthol Ewrop |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESI | Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd |
| GCaC | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| SAB | Sefydliad Addysg Bellach |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Hatch Regeneris a Dateb, gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Ebrill 2019 i gynnal gwerthusiad o’r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol (Timau Ymgysylltu).

1.2 Nodau’r gwerthusiad oedd:

- asesu’r cynnydd a wnaed gan y Timau Ymgysylltu tuag at eu hamcan cyffredinol, sef cynyddu i’r eithaf fanteision rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) i bob rhanbarth yng Nghymru
- darparu argymhellion ar gyfer gweithgareddau’r Timau Ymgysylltu ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglenni a
- darparu argymhellion ar gyfer dulliau ymgysylltu rhanbarthol a buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.

1.3 Roedd yn ofynnol i’r gwerthusiad ystyried deg amcan ymchwil, a gaiff eu crynhoi fel a ganlyn:

- adolygu a yw’r model cyfredol ar gyfer Damcaniaeth Newid y Timau Ymgysylltu yn adlewyrchu gwaith y Timau ac a yw eu gwaith yn datblygu yn ôl y disgwyl
- asesu a yw’r tybiaethau penodol ac ymhlyg sy’n sail i’r Ddamcaniaeth Newid wedi profi i fod yn wir
- mynd ati ymhellach i ddatblygu ac ymestyn y Ddamcaniaeth Newid i adlewyrchu cynlluniau busnes y Timau Ymgysylltu
- adnabod effeithiau anfwriadol gweithgareddau’r Timau Ymgysylltu, gan amlygu meysydd lle ceir dyblygu a gwerth ychwanegol
- asesu sut y mae’r Timau Ymgysylltu a WEFO wedi cydweithio
- asesu sut y mae’r Timau Ymgysylltu wedi gweithio gydag ymgeiswyr am gyllid o gronfeydd ESI a buddiolwyr arweiniol, a’u dealltwriaeth o rôl y Timau Ymgysylltu
- adolygu sut y mae’r Timau Ymgysylltu wedi gweithio i gefnogi partneriaethau rhanbarthol, a’u dealltwriaeth o rôl y Timau Ymgysylltu
- adolygu sut y mae’r Timau Ymgysylltu wedi gweithio gyda sefydliadau eraill yn eu rhanbarth, a’u dealltwriaeth o rôl y Timau Ymgysylltu
- adnabod unrhyw wersi a ddysgwyd o ymgysylltu rhanbarthol â rhaglenni ESI o bob rhan o’r DU

- adnabod unrhyw amrywiadau yn ôl rhanbarth, cronfa, blaenoriaethau neu ffactorau eraill a beth sy'n gyfrifol am hyn.

1.4 Cydnabuwyd ei bod yn rhy gynnar i'r gwerthusiad allu asesu'n llawn a oedd y Timau Ymgysylltu wedi cyflawni eu hamcan cyffredinol ond y dylai asesu serch hynny a yw'r gweithgareddau priodol yn digwydd a'r strwythurau a pherthnasoedd cywir ar waith i alluogi'r amcan hwn i gael ei gyflawni.

1.5 Roedd y fethodoleg a fabwysiadwyd yn cynnwys cam dechreuol a chwmpasu, adolygiad desg o ddogfennaeth Timau Ymgysylltu, gwaith maes gyda chynrychiolwyr o'r Timau Ymgysylltu, WEFO, gweithrediadau a ariennir gan yr UE a sefydliadau eraill sy'n rhanddeiliaid.

1.6 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn naw pennod fel a ganlyn:

- pennod un: cyflwyniad i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: trosolwg o'r Timau Ymgysylltu
- pennod pedwar: ystyried geirwiredd y ddamcaniaeth newid
- pennod pump: ystyried mewnbynnau'r Timau Ymgysylltu a'u gweithgareddau hyd yma
- pennod chwech: trafod perfformiad o ran allbynnau a chanlyniadau
- pennod saith: archwilio gweithgareddau Timau Ymgysylltu yn y dyfodol
- pennod wyth: ystyried dulliau gweithredu a fabwysiadwyd ledled y DU yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon
- pennod naw: ein casgliadau a'n hargymhellion.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae’r bennod hon yn nodi’r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cwblhau’r gwerthusiad ac yn nodi rhai ystyriaethau methodolegol allweddol.

**Dull**

2.2 Roedd y gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Awst 2019, yn cynnwys yr elfennau canlynol o waith:

- Cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion WEFO, cyfweliadau cwmpasu gyda chynrychiolydd o bob un o’r pedwar Tîm Ymgysylltu a pharatoi dull methodolegol wedi’i fireinio a chynllun prosiect.
- Ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennaeth berthnasol, ar lefel polisi a rhaglenni ac ar lefel weithredol, a gyflenwyd gan WEFO a’r Timau Ymgysylltu unigol.
- Adolygu dulliau cyflawni rhaglenni cronfeydd ESI ledled Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys ymgynghoriadau ag arweinwyr polisi o bob un o'r gwledydd cartref hyn.
- Hwyluso gweithdy Damcaniaeth Newid gyda swyddogion y Timau Ymgysylltu i adolygu’r tybiaethau, bwriadau a chanlyniadau a bennwyd o fewn model presennol y Ddamcaniaeth Newid.
- Paratoi pedwar tywysydd trafodaeth ansoddol i gyfweld â chynrychiolwyr o’r Timau Ymgysylltu, WEFO, buddiolwyr arweiniol cronfeydd ESI a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Paratoi a chynnal arolwg dwyieithog ar y we, wedi’i ddosbarthu gan WEFO a’r Timau Ymgysylltu gan ddefnyddio’r cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost at eu cysylltiadau.
- Derbyn, gwirio a chodio 49 o ymatebion i’r arolwg ar y we. Fe wnaeth pob un ond dau o’r ymatebwyr gwblhau’r arolwg yn Saesneg. Roedd proffil yr ymatebwyr fel a ganlyn:
    - Roedd 10 o’r ymatebwyr yn dod o Sefydliadau Addysg Uwch (SAU), 10 o sefydliadau’r trydydd sector, wyth o awdurdod lleol, wyth yn gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, pump o Sefydliadau Addysg Bellach (SAB), pump o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, dau yn cynrychioli partneriaethau rhanbarthol ac un yn cynrychioli sefydliad yn y sector preifat.

- Roedd dros dri chwarter (38 o ymatebwyr) yn gysylltiedig â cheisiadau neu weithrediadau a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd: o'r rhain, roedd pob un ond tri (35 o ymatebwyr) yn gysylltiedig â gweithrediadau yng Nghorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCaC) ac roedd 27 o ymatebwyr yn gysylltiedig â gweithrediadau Dwyrain Cymru (DC). Roedd 25 o ymatebwyr yn gysylltiedig â gweithrediadau GCaC a DC.

- Mynediad i gronfa ddata o fuddiolwyr arweiniol cyfredol cronfeydd ESI a dethol sampl o 25 o weithrediadau (yn ogystal â phedwar buddiolwr wrth gefn) i gysylltu â hwy ar gyfer cyfweliad. Roedd y sampl a ddetholwyd yn cynnig cydbwysedd o ran cwmpas daearyddol (Gweithrediadau GCaC/DC a'r rhai sy'n gweithredu ar lefel Cymru gyfan a lefel leol/ranbarthol), rhaglenni a ariennir gan gronfeydd ESI (ERDF ac ESF) a'r priod flaenoriaethau o fewn y rhain, yn ogystal â sectorau (h.y. y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat).
- Cyfweld â 25 o fuddiolwyr arweiniol cronfeydd ESI[1]. O'r rhain:
  - Roedd 17 yn ardal GCaC ac wyth yn ardal DC.
  - Roedd 15 yn cael eu cyllido drwy raglenni ERDF a 10 yn cael eu cyllido drwy raglenni ESF.
  - Roedd naw yn cael eu cyllido drwy Flaenoriaeth 1, saith o fewn Blaenoriaeth 2, pump o fewn Blaenoriaeth 3 a phedwar o fewn Blaenoriaeth 4.
  - Roedd wyth yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru, saith yn cael eu harwain gan SAU/SAB neu gorff addysgol arall, roedd pedwar yn cael eu harwain gan awdurdod lleol, pedwar yn cael eu harwain gan y trydydd sector a dau yn cael eu harwain gan y sector preifat.
  - Roedd deg yn rhan o brosiectau ledled Cymru gyfan a 15 yn cynrychioli prosiectau â ffocws rhanbarthol. O'r prosiectau rhanbarthol roedd dau yn cwmpasu ardal DC gyfan ac un yn cwmpasu ardal gyfan GCaC. Roedd yr 13 o brosiectau sy'n weddill yn gweithredu ar draws daearyddiaeth Timau Ymgysylltu gogledd Cymru (saith), canolbarth Cymru (pump), Bae Abertawe (saith) a'r de-ddwyrain (pump).

[1] A'r rheiny'n cynnwys 24 o'r sampl wreiddiol ac un o'r rhestr wrth gefn.

- Cyflawni pecyn o waith maes gyda phob Tîm Ymgysylltu gan gynnwys cyfweliadau gydag 16 o swyddogion Timau Ymgysylltu a chynrychiolwyr allweddol eraill o’r awdurdodau lleol lletyol.
- Mynychu un cyfarfod grŵp ymgynghorol Tîm Ymgysylltu ac arsylwi dau ddigwyddiad Timau Ymgysylltu[2].
- Cyfweld â 10 o swyddogion WEFO.
- Cyfweld ag 11 o unigolion[3] o sefydliadau sy’n rhanddeiliaid allweddol[4]
- Dadansoddi canfyddiadau’r gwaith maes a pharatoi’r adroddiad hwn.

[2] Cafodd trydydd digwyddiad rhwydwaith yr oedd y tîm ymchwil yn bwriadu ei arsylwi ei ganslo oherwydd y nifer fawr o ymddiheuriadau a gafwyd ar gyfer y digwyddiad.
[3] Roedd un o’r unigolion hyn hefyd yn cyfrannu yn rhinwedd ei swydd fel un o swyddogion y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol, ac mae wedi’i gynnwys o fewn y ddau.
[4] Cysylltwyd ag un sefydliad arall sy’n rhanddeiliad ond gwrthododd gyfrannu.

## 3. Trosolwg o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi cyflwyniad i'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, gan gynnwys eu sefydlu, eu diben a'u strwythur.

**Cyflwyniad**

3.2 Roedd pedair Rhaglen Weithredol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) a oedd yn bodoli ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014 – 2020 yng Nghymru yn nodi sut y byddai Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn cael eu defnyddio ledled Cymru i gefnogi nodau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Twf Call, Cynaliadwy a Chynhwysol (EU2020).

3.3 Mae pob strategaeth yn nodi bwriad y byddai Cymru'n mynd ar drywydd 'mwy penodol ac integredig fel rhan o gylch rhaglenni 2014-20' a fyddai'n helpu i feithrin gwell 'cydweithrediad a chydgysylltiad rhwng cronfeydd'[5].

3.4 Roedd blaenoriaeth Cymorth Technegol wedi'i chynnwys ym mhob un o'r pedair Rhaglen Weithredol:

- Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Echel Blaenoriaeth 4
- Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Echel Blaenoriaeth 5
- Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Dwyrain Cymru: Echel Blaenoriaeth 4
- Rhaglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Dwyrain Cymru[6]: Echel Blaenoriaeth 5.

3.5 O fewn pob Echel Blaenoriaeth Cymorth Technegol, nodwyd Amcan Penodol (Amcan Penodol 3) â diben cyffredin: 'gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill ynghyd â rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, a'u gwneud yn fwy ategol.'[7]. Roedd disgwyl y byddai camau gweithredu'n cael eu hintegreiddio ar draws y rhaglenni ERDF ac ESF ar gyfer ardaloedd rhaglenni GCaC a DC.

---

[5] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Rhagfyr 2014) 2014-2020 Rhaglen Weithredol ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd t.17

[6] 2014-2020 ESF Dwyrain Cymru rhaglen weithredol

[7] Ibid, t.154

3.6 Yn benodol, mae dogfennau'r Rhaglenni Gweithredol yn nodi eu bod yn disgwyl i gamau gweithredu a ariennir o fewn pob Amcan Penodol gefnogi gweithgareddau **partneriaeth a rhwydweithio** a fyddai:

- yn annog ac yn hwyluso prosiectau a dulliau cydweithredol
- yn helpu i alinio rhaglenni a arweinir gan y Comisiwn Ewropeaidd, a ariennir gan gronfeydd ESI ac sy'n seiliedig ar sectorau
- yn gwella capasiti ar gyfer cydgysylltu ar draws rhaglenni ac integreiddio cronfeydd ESI â gwariant a rhaglenni cenedlaethol, ac
- yn cryfhau mecanweithiau cydlynu a chydgysylltu gyda phartneriaethau ac yn hybu trefniadau gweithio mewn partneriaeth.[8]

3.7 Mae dogfennau'r Rhaglenni Gweithredol hefyd yn nodi y byddai gweithgareddau **gwybodaeth a chyhoeddusrwydd** yn cael eu cyllido fel rhan o Gymorth Technegol, gan gynnwys y rhai a fyddai:

- yn lledaenu gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys drwy seminarau, gweithdai a digwyddiadau rhwydweithio
- yn lledaenu ac yn hyrwyddo effeithiau integreiddio gwell â'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd a rhaglenni sectorau ehangach.[9]

3.8 Ar gyfer cyfnod rhaglenni 2014-2020, roedd y Comisiwn Ewropeaidd yn disgwyl i awdurdodau rheoli fabwysiadu dangosyddion allbynnau Cymorth Technegol am y tro cyntaf. Mae dogfennau'r Rhaglenni Gweithredol yn nodi'r dangosyddion hyn[10]:

- Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd*
- Contract Fframwaith ar gyfer Arbenigedd yn ei le ar gyfer cyflawni gweithrediadau
- Nifer y gweithrediadau sy'n cael asesiad ffurfiol ar gyfer y modd y maent yn integreiddio themâu trawsbynciol
- Nifer yr adroddiadau ymchwil a gyhoeddwyd
- Nifer y gweithrediadau y rhoddwyd cyngor Monitro a Gwerthuso iddynt
- Nifer y digwyddiadau lledaenu*
- Nifer y digwyddiadau a drefnwyd gan WEFO*

[8] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Rhagfyr 2014) 2014-2020 Rhaglen Weithredol ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fel a nodir yn t.155-156
[9] Ibid, t.157
[10] Mae dangosyddion â * ar eu pwys yn cwmpasu rhaglenni gweithredol ESF ac ERDF.

- Nifer y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd*
- Nifer y lansiadau proffil uchel
- Nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd*
- Canran yr ymholiadau a ddatryswyd o fewn 5 diwrnod gwaith
- Nifer yr ymweliadau archwilio.

3.9 Ar ben hynny, mae dogfennau'r Rhaglenni Gweithredol hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd partneriaeth a chydweithio i gyflawni rhaglenni a ariennir. Roedd disgwyl y byddai cyfranogwyr cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cyfrannu at flaenoriaethu cyllid yn ofodol ar draws Blaenoriaeth 4 yn y rhaglen ERDF: 'mae'r lefel gymharol fach o gronfeydd sydd ar gael a'r lefel uchel o ddiddordeb a ragwelir o dan yr Amcan Strategol hwn yn golygu mai dim ond nifer gyfyngedig o gynlluniau a flaenoriaethir yn ofodol y gellir eu cefnogi. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, actorion Cymunedol, a sefydliadau sector preifat lleol / rhanbarthol yn cydweithio er mwyn nodi a blaenoriaethu buddsoddiadau'[11].

**Cefndir y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol**

3.10 Datblygwyd y cysyniad Timau Ymgysylltu Rhanbarthol gan WEFO i helpu i wella'r ffordd y byddai cyllid ESI yn cael ei ddefnyddio a'i reoli ar draws rhaglenni gweithredol 2014-2020. Yn arbennig, roedd disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gyfrannu tuag at fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith mwy eglur ar gyfer blaenoriaethu economaidd drwy sicrhau aliniad rhanbarthol a chydlyniad rhwng gweithrediadau[12].

3.11 Roedd disgwyl iddynt adeiladu ar ddulliau Cymorth Technegol blaenorol megis y rhai a fabwysiadwyd gan Bartneriaethau Lleol yn rhaglenni gweithredol cronfeydd ESI 2000-2006 a Thimau Ewropeaidd Gofodol yn rhaglenni 2007-2013, er bod disgwyl y byddai'r cylch gwaith a fyddai'n cael ei roi i'r Timau Ymgysylltu yn wahanol i raglenni blaenorol.

3.12 Yn ystod 2000-2006, sefydlwyd Partneriaethau Lleol yn ardal pob Awdurdod Lleol a thrwy Swyddogion Ewropeaidd a oedd yn cael eu cyflogi gan Awdurdodau Lleol, roeddent yn rhoi cyngor a chymorth i sefydliadau ymgeisio am gyllid ESI. Dyrannwyd cyllideb i bob Partneriaeth Leol hefyd ar gyfer rhai mesurau yn y rhaglenni ac roedd gan y rhain rôl o ran cymeradwyo prosiectau.

---

[11] Rhaglen Weithredol ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Llywodraeth Cymru t.130
[12] Papur Briffio ar Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol (Hydref 2016) Dogfen fewnol gan WEFO.

3.13 Yn ystod cyfnod 2007-2013, mabwysiadwyd dull mwy rhanbarthol a sefydlwyd Timau Ewropeaidd Gofodol gyda'r amcan o helpu i sicrhau bod dull mwy cydgysylltiedig a strategol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer cynllunio a chyflawni prosiectau. Roedd Timau Ewropeaidd Gofodol yn rhoi cyngor a chymorth ac yn hwyluso partneriaethau. Roedd eu cylch gwaith yn cynnwys cynorthwyo prosiectau yn ystod y broses o'u datblygu, eu cyflawni a'u cau, yn ogystal â darparu ymweliadau ôl-ofal a chynorthwyo gyda pharatoadau ar gyfer archwiliadau. Cafodd Timau Ewropeaidd Gofodol eu strwythuro yn ôl rhanbarthau Cymru a nodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru a'u staffio gan swyddogion Awdurdod Lleol o'r holl Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth. Adran yr Economi yn Llywodraeth Cymru oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am eu rheoli. Yn dilyn argymhellion a gynigiwyd gan werthusiad o'r Timau Ewropeaidd Gofodol, cawsant eu hailfrandio fel Timau Ewropeaidd Arbenigol, cafodd eu strwythurau rheoli eu symleiddio a chafodd rôl yr adran yn Llywodraeth Cymru ei lleihau.

3.14 Erbyn cyfnod rhaglenni 2014-2020 roedd datblygiadau pellach tuag at ranbartholi wedi digwydd ledled Cymru. Roedd strwythurau partneriaeth rhanbarthol megis Byrddau Dinas-ranbarthau a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cael eu ffurfio ac eraill, megis y bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Bargeinion Rhanbarth-ddinasoedd, wrthi'n dod i'r amlwg. Hefyd, argymhellodd adolygiad Guildford[13] o weithredu rhaglenni cronfeydd ESI y dylai 'mecanweithiau cynllunio rhanbarthol a thematig hygred' gael eu sefydlu i adnabod y galw a 'rhoi cymorth ar gyfer mecanweithiau cyflawni ar ôl cymeradwyo'. Roedd yr adolygiad yn cydnabod bod strwythurau o'r fath eisoes yn cael eu datblygu ledled Cymru ar y pryd.

3.15 O ganlyniad i'r datblygiadau hyn, cynigiodd WEFO gefnogi pedwar tîm ymgysylltu rhanbarthol gyda'r amcan o sicrhau'r effaith strategol fwyaf gan gyllid ESI o fewn eu priod ranbarthau.

3.16 Cyhoeddwyd galwad am gynigion cyllido gan WEFO a chyflwynodd y pedwar rhanbarth canlynol gynlluniau busnes manwl i'w hystyried:

- y de-ddwyrain yn cael ei arwain gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cwmpasu 10 ardal awdurdod lleol

[13] Guidldford, G. (2013). Buddsoddi mewn Twf a Swyddi: Adolygiad Annibynnol o'r Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014 - 2020.

- Bae Abertawe yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ar ran Dinas-ranbarth Bae Abertawe ac yn cwmpasu pedair ardal awdurdod lleol
- canolbarth Cymru yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac yn cwmpasu dwy ardal awdurdod lleol
- gogledd Cymru yn cael ei arwain gan Gyngor Sir Conwy ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac yn cwmpasu chwe ardal awdurdod lleol.

3.17 Cafodd cyllid ei gymeradwyo'n ffurfiol ar gyfer yr holl Dimau Ymgysylltu yn 2016, er bod Tîm Ymgysylltu interim yn weithredol yn y de-ddwyrain o fis Medi 2015 ymlaen.

3.18 Mae'r Timau Ymgysylltu wedi cael eu cyllido drwy bob un o bedwar gweithrediad rhaglenni cronfeydd ESI. Ar y cyfan, mae 14 o weithrediadau Cymorth Technegol yn cyllido gwaith pedwar Tîm Ymgysylltu: ariennir tri Thîm drwy bob un o bedair rhaglen cronfeydd ESI tra bod y pedwerydd (Bae Abertawe) yn cael ei gyllido gan ddwy raglen cronfeydd ESI (h.y. rhaglenni ESF GCaC ac ERDF GCaC).

3.19 Dyrannwyd cyllid o £2.55 miliwn i weithgareddau'r Timau Ymgysylltu, hyd at 31 Mawrth 2021 i ddechrau gydag estyniad wedyn tan 31 Mehefin 2023, gyda'r disgwyliad bod y Timau Ymgysylltu yn defnyddio'u tanwariant i gyllido'r estyniad hwn. Rhoddodd WEFO gytundebau cyllido i bob Tîm Ymgysylltu, un i GCaC ac un arall i DC fel y bo'n briodol.

3.20 Caiff lefel cyllid ESI y trefnwyd ei fod ar gael i bob Tîm Ymgysylltu ei nodi yn Nhabl 3.1. Mae'n dangos bod lefel y cyllid yn amrywio o un rhanbarth i'r llall. Dyfarnwyd dyraniad uwch i Dîm Abertawe na'r tri rhanbarth arall, a hwnnw'n rhoi cyfrif am bron i draean o'r gyllideb gyfan. Mae arian o gronfeydd ESI yn rhoi cyfrif am ychydig o dan 75 y cant o gyllid y Timau Ymgysylltu. Roedd disgwyl i awdurdodau lleol gyd-gyllido'r 25 y cant a oedd yn weddill.

**Tabl 3.1: Cyllid ESI ar gyfer y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn ôl rhaglen weithredol**

| Rhaglen/Tîm Ymgysylltu £ | Gogledd | Canolbarth | Bae Abertawe | Y De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| ERDF GCaC | 347,567 | 257,099 | 469,237 | 293,118 | 1,367,021 |
| ERDF DC | 47,701 | 29,402 | | 40,024 | 117,127 |
| ESF GCaC | 250,810 | 170,446 | 339,785 | 212,258 | 973,299 |
| ESF DC | 35,542 | 29,402 | | 28,924 | 93,868 |
| **Cyfanswm** | **681,620** | **486,349** | **809,022** | **574,324** | **2,551,315** |

Ffynhonnell: WEFO (Hydref 2016)

### Nodau ac Amcanion y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

3.21 Sefydlwyd y Timau Ymgysylltu i gyfrannu tuag at 'fodel cyflawni mwy strategol gyda fframwaith mwy eglur ar gyfer blaenoriaethu economaidd trwy sicrhau aliniad rhanbarthol a chydlyniad rhwng gweithrediadau'[14]. Eu prif nod yw cynyddu i'r eithaf fanteision buddsoddiadau ESI i'w priod ranbarthau.

3.22 Mae cynlluniau busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol yn cydnabod nad oedd lefel y cymorth a ddarparwyd yn flaenorol gan y Timau Ymgysylltu yn angenrheidiol mwyach yn ystod cyfnod rhaglenni 2014-2020, gan fod digon o brofiad ymhlith deiliaid grantiau o ymgeisio am ddarpariaethau a ariennir gan gronfeydd ESI a chyflawni'r darpariaethau hynny. Mae cynlluniau busnes yn cyflwyno'r achos bod y maes â'r angen mwyaf yn ymwneud â hwyluso a hyrwyddo cysylltiadau rhwng partneriaid a gweithrediadau posibl. Mae cynlluniau busnes hefyd yn cydnabod y byddai rhaglenni 2014-20 yn canolbwyntio ar brosiectau mwy strategol a mwy o ran maint ac y byddai hyn yn dylanwadu ar natur y cymorth technegol a oedd yn ofynnol.

3.23 Mae adolygiad o ddogfennaeth yn dangos bod WEFO yn rhagweld y byddai'r Timau Ymgysylltu yn:

- cyflawni gwaith prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol: i gydgysylltu a hwyluso'r broses o brawf-fesur gweithrediadau arfaethedig o safbwynt rhanbarthol er mwyn darparu golwg ranbarthol ar gyfer WEFO ar gydweddiad strategol rhanbarthol yr holl weithrediadau arfaethedig â strategaethau perthnasol ac ymyriadau a gweithgareddau ehangach. Er mwyn cyflawni hyn byddai disgwyl i'r Timau Ymgysylltu asesu gweithrediadau arfaethedig yn erbyn meini prawf penodedig
- sicrhau bod gweithrediadau cenedlaethol arfaethedig yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at weithgarwch a galw lleol a rhanbarthol presennol
- sicrhau ymgysylltiad tryloyw ar draws sectorau ledled y rhanbarth
- mapio gweithrediadau arfaethedig i ganfod unrhyw ddyblygu a bylchau posibl
- gweithio gyda WEFO ar unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a hwyluso gwaith i ddatblygu gweithrediadau lle ceir cyfleoedd i lenwi'r bylchau hynny
- gweithio gyda buddiolwyr, partneriaid a WEFO i ganfod ble y mae gan weithrediadau arfaethedig y potensial ar gyfer gweithio integredig ar draws cronfeydd ESI a chronfeydd eraill

[14] Papur Briffio ar Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol (Hydref 2016) Dogfen fewnol gan WEFO.

- cefnogi adolygiad rheolaidd WEFO o'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd
- gweithio gyda WEFO yn ystod cam ymbaratoi gweithrediadau i sicrhau y byddai trefniadau cyflawni a gweithredu priodol a dichonadwy yn eu lle ar gyfer mynd ati'n rhanbarthol i gyflawni gweithrediadau cenedlaethol neu raglen-gyfan
- cydgysylltu a hwyluso ymgysylltiad â'r holl sectorau a phartneriaid yn eu rhanbarthau gan gynnwys gweithrediadau Cymorth Technegol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i gyfnewid cudd-wybodaeth a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwaith cyflawni a gynlluniwyd ac sy'n dod i'r amlwg yn y rhanbarth
- cydweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i rannu arbenigedd a lledaenu gwybodaeth ac arferion da
- darparu adroddiadau chwarterol ar gyfer WEFO (yn flynyddol i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni) a'r Partneriaethau Rhanbarthol am y modd yr oedd cydweithrediad rhwng gweithrediadau rhanbarthol (a gweithrediadau cenedlaethol ag elfennau o gyflawni rhanbarthol) yn cael ei hyrwyddo a'i sicrhau, ac ar dargedau ar themâu trawsbynciol
- darparu adroddiad blynyddol ar gyfer WEFO ar gyfleoedd economaidd o arwyddocâd rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ac a allai ysgogi'r galw yn y rhanbarth, ynghyd ag adroddiad bob 6 mis ar raglenni buddsoddi ac asedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ag iddynt arwyddocâd rhanbarthol[15].

3.24 Roedd disgwyl y byddai gwaith y Timau Ymgysylltu yn cyfrannu tuag at bum dangosydd allbwn Cymorth Technegol, sef:

- nifer y digwyddiadau hyfforddi
- nifer y digwyddiadau lledaenu
- nifer y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd
- nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd
- nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn (CALl) y mae eu cyflogau'n cael eu cyd-gyllido gan Gymorth Technegol.

[15] Papur Briffio ar Dimau Ymgysylltu Rhanbarthol (Hydref 2016) Dogfen fewnol gan WEFO.

**Cynlluniau busnes y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol**

3.25 Mae adolygiad o gynlluniau busnes a gyflwynwyd gan y Timau Ymgysylltu yn awgrymu bod eu gweithgareddau arfaethedig yn gyson â'r rhai a nodwyd gan WEFO. Yn arbennig, mae cynlluniau busnes yn pwysleisio'r rôl bwysig a fyddai gan y Timau Ymgysylltu o ran prawf-fesur gweithgarwch arfaethedig o safbwynt rhanbarthol drwy gydgysylltu gweithgarwch ac adnabod dyblygu a/neu fylchau posibl mewn darpariaeth. Maent hefyd yn pwysleisio na ddylai'r Timau Ymgysylltu roi arweiniad a chymorth datblygu uniongyrchol i weithrediadau gan mai cyfrifoldeb WEFO yw hyn[16].

3.26 Mae cynlluniau busnes yn nodi'r angen i'r Timau Ymgysylltu gysylltu rhaglenni ESI â'r strwythurau a gweithgareddau rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg' gan gynnwys strwythurau presennol megis y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Byrddau Prifddinas-ranbarth a strwythurau newydd arfaethedig megis Bargeinion Dinas-ranbarthau. Mae cynlluniau busnes yn cydnabod y byddai strwythurau partneriaethau'n debygol o newid ac esblygu yn ystod oes Timau Ymgysylltu ac y byddai'n ofynnol iddynt ymateb yn briodol.

3.27 Mae cynlluniau busnes gan amlaf yn pwysleisio'r angen i Dimau Ymgysylltu fod â throsolwg o'r holl gronfeydd Ewropeaidd gan gynnwys ERDF, ESF, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) a hefyd ceisio integreiddio ffrydiau cyllido eraill megis rhaglenni Horizon 2020, Rhyngranbarthol, Trawswladol, Trawsffiniol a LIFE+ fel rhan o ddulliau rhanbarthol.

3.28 Thema allweddol y rhoddir sylw iddi mewn cynlluniau busnes yw'r cydweddiad strategol rhwng gweithrediad Timau Ymgysylltu a'r Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd. Mae cynllun busnes un Tîm Ymgysylltu yn nodi'r angen i'r Tîm gael trosolwg o'r holl ddatblygiadau yn y saith thema cyfle economaidd a nodir yn y Fframwaith. Ceir ffocws hefyd ar sicrhau bod strategaethau rhanbarthol yn cael eu cyflawni.

[16] Cynllun Busnes Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol y De-ddwyrain 2014 – 2020 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Fersiwn 0.7 24 Mawrth 2016) t.13

3.29 Mae thema arall a godwyd o fewn cynlluniau busnes yn ymwneud â’r angen i’r Timau Ymgysylltu gydweithio’n agos a rhannu arfer gorau gyda’r timau rhanbarthol eraill. Mae cynlluniau busnes gan amlaf yn amlygu pwysigrwydd partneriaeth a rhwydweithio i waith y Timau.

3.30 O ran gweithgareddau, mae cynlluniau busnes gan amlaf yn awgrymu y byddai’r Timau Ymgysylltu yn:

- hwyluso cydweithio rhwng sefydliadau i ddatblygu a chyflwyno prosiectau cydweithredol
- datblygu cysylltiadau a chydweithrediad go iawn
- cynorthwyo WEFO i ddileu unrhyw rwystrau yn y broses o ddatblygu neu gyflawni gweithrediadau yn y rhanbarth
- prawf-fesur gweithrediadau arfaethedig o safbwynt rhanbarthol, gan sicrhau eu cydweddiad strategol ar lefelau polisi a rhanbarthol
- rhoi cymorth i flaenoriaethu gweithrediadau pan ofynnir
- cyhoeddi storïau newyddion cadarnhaol
- darparu adroddiadau ar gynnydd
- coladu data ar allbynnau ar gyfer Themâu Trawsbynciol
- monitro gweithgarwch monitro a gwerthuso a gyhoeddir, gan gynnwys gwersi o werthusiadau o ymyriadau
- lledaenu gwybodaeth a chyfleoedd ledled y rhanbarth
- casglu a lledaenu cudd-wybodaeth
- codi ymwybyddiaeth o weithgarwch ERDF ac ESF
- monitro allbynnau a chanlyniadau gweithrediadau i ledaenu llwyddiant ac effaith cronfeydd Ewropeaidd yn y rhanbarth.

3.31 Mae cynlluniau busnes a gyflwynwyd gan y Timau Ymgysylltu yn nodi sut yr oeddent yn disgwyl cyfrannu tuag at dair Thema Drawsbynciol rhaglenni 2014-2020, sef cyfle cyfartal a phrif ffrydio’r rhywiau; datblygu cynaliadwy, a threchu tlodi ac allgau cymdeithasol. Roedd y syniadau hyn yn cynnwys:

- penodi hyrwyddwr Themâu Trawsbynciol yn y timau rhanbarthol
- cynhyrchu’r holl ddeunydd marchnata a storïau newyddion yn ddwyieithog ac amlygu astudiaethau achos sy’n hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd o’r Gymraeg
- cydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg a ddisgwylir gan awdurdodau lleol

- lledaenu gwybodaeth drwy ddulliau electronig ble bynnag y bo'n bosibl a defnyddio fideo-gynadledda i leihau teithio ac ôl troed carbon
- trefnu bod gwybodaeth ar y we a storïau newyddion ar gael mewn ystod o fformatau hygyrch
- hyrwyddo astudiaethau achos arfer da, e.e. y rhai sy'n defnyddio technoleg i gefnogi pobl mewn ardaloedd gwledig, entrepreneuriaeth menywod a datrysiadau trafnidiaeth cynaliadwy
- hwyluso'r broses o ddatblygu a chyflawni gweithrediadau sydd wedi'u bwriadu i drechu tlodi ac allgau cymdeithasol drwy greu swyddi a chyfleoedd cyflogaeth
- rhoi ystyriaeth i Themâu Trawsbynciol wrth brawf-fesur gweithrediadau arfaethedig o safbwynt rhanbarthol
- rhoi ystyriaeth i'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u hygorffori yn ffordd o weithio'r Timau Ymgysylltu Rhanbathol.

# 4. Damcaniaeth Newid

### Cyflwyniad

4.1 Mae’r bennod hon yn ystyried a yw’r Ddamcaniaeth Newid drosfwaol a ddatblygwyd gan lunwyr polisïau ar gyfer Timau Ymgysylltu wedi datblygu yn ôl y disgwyl. Mae’n ystyried barn rhanddeiliaid a gweithrediadau a ariennir ynglŷn â’r rhesymeg sylfaenol dros sefydlu Timau Ymgysylltu, p’un a yw eu dealltwriaeth am nodau ac amcanion y Timau Ymgysylltu yn gyson â’r Ddamcaniaeth Newid, ac a yw’r tybiaethau sy’n tanategu’r Ddamcaniaeth Newid wedi profi i fod yn wir.

4.2 Mae Ffigur 4.1 yn nodi’r model rhesymeg gwreiddiol a sefydlwyd gan lunwyr polisïau ar gyfer y Timau Ymgysylltu yn dilyn cymeradwyo eu cynlluniau busnes ac yn cyflwyno’r hyn yr oedd disgwyl i’r Timau Ymgysylltu ei gyflawni a sut. Yn arbennig, mae’n nodi’r canlyniadau y bwriedid eu cyflawni (canlyniadau canolradd a chyffredinol) a’r gweithgareddau a fyddai’n creu’r canlyniadau hynny. Mae’n disgrifio’r mewnbynnau y bwriedid eu sefydlu er mwyn cyflawni newid ac yn nodi’r rhesymeg a’r egwyddorion allweddol sy’n tanategu’r ymyriad. Er cyflawnrwydd, mae hefyd yn nodi’r dangosyddion allbwn a fabwysiadwyd yng nghytundebau cyllido’r Timau Ymgysylltu.

## Ffigur 4.1: Model Rhesymeg Gwreiddiol y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

### *Rhesymeg a chyd-destun*

Esblygiad rôl ALlau / Rhanbarthau yn y rhaglenni

- 2000-2006: Partneriaethau lleol i ardal pob ALl gyda rôl o ran dethol prosiectau
- 2007-2013: Timau Ewropeaidd Gofodol (Arbenigol yn ddiweddarach) yn gweithredu ar lefel ranbarthol yn rhoi cymorth technegol ac yn cyflawni rôl strategol. Dim rôl o ran dethol prosiectau
- 2014-2020: Timau Ymgysylltu Rhanbarthol â rôl strategol ond dim cymorth technegol i weithrediadau. Mwy o rôl o ran strategaethau / partneriaethau rhanbarthol. Rhywfaint o rôl o ran dethol gweithrediadau.

Tybiaethau:

- Heb y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, byddai'r rhaglen yn sicrhau manteision ledled Cymru ond mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol wedi'u bwriadu i gynyddu'r manteision i'r eithaf ym mhob rhanbarth.

### *Mewnbwn*

Trosolwg o flaenoriaethau a gweithgareddau rhanbarthol

Mapio gweithgareddau (yr UE ac fel arall) ledled y rhanbarth

Data / cudd-wybodaeth 'galed'

Cudd-wybodaeth 'feddal'

### *Mewnbynnau a Gweithgaredd*

Prawf-fesur o Safbwynt Rhanbarthol

- Cynghori WEFO ynghylch cydweddiad strategol fel rhan o ddethol gweithrediadau
- Gweithredu ar ran partneriaethau rhanbarthol a chyfleu datblygiadau rhanbarthol i WEFO a buddiolwyr arweiniol
- Cynghori ymgeiswyr a buddiolwyr arweiniol a gymeradwywyd ar faterion rhanbarthol sy'n berthnasol i'r gweithrediad
- Datrys problemau
- Canfod a yw gweithgareddau dros Gymru gyfan wir yn cyflawni dros Gymru gyfan

Hwyluso rhwydweithio i:

- Adnabod a rhannu arfer da
- Datrys problemau
- Creu cysylltiadau

Cyfathrebu ynghylch:

- Gyfleoedd i fod yn rhan o'r rhaglen
- Cyfleoedd i fod yn rhan o weithrediadau dros Gymru gyfan
- Llwyddiant y Cronfeydd ESI yn rhanbarthol
- Negeseuon allweddol eraill

### *Allbynnau (Targedau)*

Nifer y digwyddiadau hyfforddi

Nifer y digwyddiadau lledaenu

Nifer y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd

Nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd.

Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a gyd-ariannwyd â Chymorth Technegol

### *Canlyniadau Canolradd*

Nifer ddigonol o weithrediadau rhanbarthol neu weithrediadau dros Gymru gyfan â chwmpas da ar draws y rhanbarth

Gweithrediadau yn y rhanbarth yn gyson â strategaethau rhanbarthol

Gweithrediadau yn y rhanbarth yn ategu gweithrediadau eraill ac ymyriadau nas ariennir gan yr UE a gyflawnir yn y rhanbarth

Gweithrediadau yn y rhanbarth yn peidio â dyblygu ei gilydd nac ymyriadau eraill yn y rhanbarth

Sefydliadau rhanbarthol perthnasol yn gysylltiedig â gweithrediadau a gyflawnir yn y rhanbarth

Nifer dda o bobl / busnesau'n manteisio ar weithrediadau yn y rhanbarth

### *Canlyniad cyffredinol*

Cynyddu i'r eithaf fanteision rhaglenni'r Cronfeydd ESI i'r rhanbarth

### Y rhesymeg a’r egwyddorion allweddol

4.3 Roedd y rhai a gyfrannodd at y gwerthusiad yn cydnabod yn eang bod y Timau Ymgysylltu wedi adeiladu ar y dulliau hanesyddol a fabwysiadwyd gan ddefnyddio cyllid Cymorth Technegol yn nwy raglen weithredol flaenorol cronfeydd ESI, ond eu bod wedi’u dylunio gan WEFO i weithredu ar lefel fwy strategol nag ymyriadau blaenorol. Roedd y Timau Ymgysylltu wedi’u bwriadu i gyflawni ystod gulach o swyddogaethau na’r Timau Ewropeaidd Arbenigol a’u rhagflaenodd. Nid oedd Timau Ewropeaidd Arbenigol wedi’u bwriadu i gefnogi na chynghori ymgeiswyr am gyllid ESI, i fod yn rhan o ddethol prosiectau nac i ddyblygu gwaith Swyddogion Datblygu Prosiectau WEFO. Yn gyson â chanllawiau’r Comisiwn Ewropeaidd ar Gymorth Technegol, roeddent hefyd wedi’u bwriadu i ganolbwyntio ar raglenni ERDF ac ESF yn hytrach na rhaglenni gweithredol eraill cronfeydd ESI, megis y Rhaglen Datblygu Gwledig.

4.4 Un o’r ysgogiadau tanategol ar gyfer y Timau Ymgysylltu oedd yr angen i gefnogi agenda bolisi rhanbartholi gynyddol ledled Cymru. Mae model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid yn nodi’r angen i Dimau Ymgysylltu adlewyrchu ac ystyried agendâu partneriaethau rhanbarthol a strategaethau rhanbarthol. Roedd y rhai a gyfrannodd at y gwerthusiad yn cefnogi’r dull hwn, gan eu bod o’r farn bod hyn yn gyson â’r argymhellion a gynigiwyd gan Adolygiad Guildford. Roedd hefyd yn wir bod nifer o awdurdodau lleol wedi lleihau adnoddau eu tîm cyllid Ewropeaidd wrth i raglenni cyllid 2007-2013 ddod i ben ac felly bod diffyg capasiti ganddynt i gyflawni’r rôl hon yn lleol.

4.5 Ysgogiad pwysig arall wrth ddylunio’r Timau Ymgysylltu oedd yr angen i fynd i’r afael â materion mewn rhaglenni blaenorol a oedd yn ymwneud â dyblygu ar draws darpariaethau a ariennir gan gronfeydd ESI. Roedd llunwyr polisïau’n cydnabod yr angen i’r Timau Ymgysylltu ymgysylltu â gweithrediadau Cymru gyfan i sicrhau y byddai darpariaeth yn cael ei chyflwyno o fewn eu rhanbarthau ac yn cael ei chysoni â blaenoriaethau rhanbarthol lle y bo’n bosibl.

4.6 Roedd y rhai a gyfwelwyd mewn awdurdodau lleol yn feirniadol bod nifer o swyddogaethau wedi cael eu tynnu oddi wrth y Timau Ymgysylltu, o’i gymharu â dulliau a’u rhagflaenodd, ac roeddent yn meddwl y dylai fod gan y Timau Ymgysylltu gylch gwaith ehangach a mwy dylanwadol na’r un a oedd yn cael ei gynnig. Mynegodd nifer o gyfranwyr eu ‘rhwystredigaeth’ fod cyfyngiadau ar rôl y Timau

Ymgysylltu, yn yr ystyr nad oedd ganddynt unrhyw gylch gwaith i ddethol prosiectau na chynghori, ac nad oedd ganddynt y statws na'r awdurdod a oedd yn ofynnol i fod yn wirioneddol effeithiol o ganlyniad i hynny. Dadleuodd swyddogion y Timau Ymgysylltu y byddent wedi dymuno cael 'mwy o ddannedd' gan eu bod yn teimlo bod eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar ewyllys da a dyhead i gydweithio ymhlith y gweithrediadau a ariennir.

4.7 Yn yr un modd, roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd mewn awdurdodau lleol yn ymwybodol bod cyfyngu rôl y Timau Ymgysylltu i raglenni ERDF ac ESF yn golygu na fyddai ymgysylltiad â darpariaethau a ariennir drwy raglenni eraill, megis y Rhaglen Datblygu Gwledig, a gwaith i brawf-fesur y darpariaethau hynny, yn digwydd.

4.8 Nid oedd dyhead cryf ymhlith cyfranwyr i weld modelau rhesymeg Damcaniaeth Newid unigol yn cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r pedwar Tîm Ymgysylltu, er bod eu gweithgareddau'n amrywio o un i'r llall.

**Nodau ac amcanion**

4.9 Roedd cyfranwyr o'r farn mai nod trosfwaol y Timau Ymgysylltu oedd **cynyddu i'r eithaf effaith cyllid o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ar eu priod ranbarthau**. Mae hyn yn gyson â'r canlyniad cyffredinol a nodir ym model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid yn Ffigur 3.1.

4.10 Amlygwyd dau amcan allweddol gan gyfranwyr yn ystod y gwerthusiad ar gyfer y Timau Ymgysylltu, sef:

- **prawf-fesur** gweithrediadau arfaethedig a fyddai'n cael eu cyllido o gronfeydd ESI **o safbwynt rhanbarthol** i sicrhau eu bod yn diwallu angen lleol ac osgoi dyblygu mewn darpariaethau arfaethedig
- **cysoni ymyriadau** i sicrhau bod gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI yn gyson â'i gilydd, ac yn gyson ag ymyriadau eraill nad ydynt yn cael eu cyllido o gronfeydd ESI a pholisi parhaus gan Lywodraeth Cymru.

4.11 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, nododd cyfranwyr ystod eang o **swyddogaethau** y dylai'r Timau Ymgysylltu ymwneud â hwy, gan gynnwys:

- adolygu a gwneud sylwadau ar geisiadau a ariennir gan gronfeydd ESI yn erbyn meini prawf penodol i sicrhau bod gweithrediadau a ariennir yn strategol o ran

natur, nad ydynt yn dyblygu darpariaeth arall a'u bod yn gydnaws â darpariaeth bresennol (yn ddarpariaeth a ariennir a nas ariennir gan gronfeydd ESI)

- annog pobl i fanteisio ar gyllid ESI yn y rhanbarth drwy hyrwyddo cyfleoedd cyllido i ddarpar noddwyr
- codi ymwybyddiaeth o weithrediadau a ariennir gan gronfeydd ESI sydd ar gael yn y rhanbarth ymhlith sefydliadau eraill sy'n rhanddeiliaid
- hwyluso trefniadau cydweithio rhwng buddiolwyr arweiniol a chyda darpariaethau eraill yn y rhanbarth i osgoi dyblygu a sicrhau cysondeb
- ymgysylltu â buddiolwyr arweiniol yn barhaus i sicrhau bod ymyriadau'n gyson ag anghenion a pholisi rhanbarthol drwy gydol ei gyfnod cyflawni.

4.12 Yn benodol, fe wnaeth gweithrediadau a ariennir grynhoi rôl y Timau Ymgysylltu fel 'cyfathrebwyr' neu 'gydgysylltwyr' ar lefel ranbarthol. Roedd y Timau Ymgysylltu yn cael eu disgrifio'n gyson fel mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu a dod â phobl a gweithrediadau ynghyd.

4.13 Roedd dealltwriaeth gyffredinol na fyddai'r Timau Ymgysylltu yn rhan o unrhyw broses cymeradwyo prosiectau nac yn cyflawni unrhyw swyddogaethau penderfynu mewn perthynas â dyfarnu cyllid o gronfeydd EIS. Fodd bynnag, mae'r Timau Ymgysylltu wedi bod yn rhan o gydgysylltu mewnbwn gan randdeiliaid i flaenoriaethu ceisiadau a gyflwynir ar draws Blaenoriaeth 4 ERDF, gan fod hwn yn un o'r gofynion a bennwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

4.14 Roedd y rhai a gyfrannodd yn meddwl bod model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid o bosibl yn methu â chyfleu:

- natur annibynnol y Timau Ymgysylltu yn yr ystyr bod disgwyliad y byddai'r staff, er eu bod yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol, yn gweithio er budd y rhanbarth yn hytrach na'r awdurdod lleol
- y cydweithio rhwng y Timau Ymgysylltu fel gweithgaredd ynddo'i hun, o ystyried y cyflawniadau a oedd wedi deillio o'r gwaith hwn.

**Pennu canlyniadau**

4.15 Fe wnaeth llunwyr polisi ddethol pump o ddangosyddion Cymorth Technegol y cronfeydd EIS a oedd ar gael fel dangosyddion ar gyfer y Timau Ymgysylltu ac, er bod y rhain yn cael eu hystyried yn briodol gan mwyaf fel dangosyddion allbynnau,

nid oeddent yn cael eu hystyried yn arbennig o ystyrlon i asesu'r gwahaniaeth a wneir gan Dimau Ymgysylltu.

4.16 Roedd cyfranwyr yn ei chael hi'n anodd adnabod mesurau y gellid eu mabwysiadu i asesu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant Timau Ymgysylltu i gyrraedd eu nod cyffredinol, sef cynyddu i'r eithaf effaith cyllid o'r cronfeydd EIS i'r rhanbarth. Y prif reswm dros hyn oedd mai rôl hwylusydd oedd un y Timau Ymgysylltu yn hytrach na rôl darparwr uniongyrchol a byddai unrhyw asesiad o'u heffaith, felly, yn oddrychol.

4.17 Er eu bod yn cydnabod cyfyngiadau mesurau posibl o effaith, awgrymodd y cyfranwyr y gallai'r dangosyddion canlynol fod yn briodol fel rhai i'w mabwysiadu o fewn y Ddamcaniaeth Newid i adlewyrchu'r gwahaniaeth a wneir gan y Timau Ymgysylltu:

- gweithrediadau'r cronfeydd EIS yn bodloni ac yn mynd i'r afael ag anghenion a strategaethau rhanbarthol
- lefelau ymwybyddiaeth gweithrediadau'r cronfeydd EIS a'u rhyngweithio â'i gilydd a chydag ymyriadau rhanbarthol eraill
- gweithrediadau'r cronfeydd EIS yn cydweithio â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd yn ogystal â chydweithio ag ymyriadau rhanbarthol eraill ac yn eu hategu
- gweithrediadau'r cronfeydd EIS yn peidio â dyblygu ei gilydd nac ymyriadau eraill yn y rhanbarth.

4.18 At ei gilydd, mae'r dangosyddion hyn a awgrymwyd gan y cyfranwyr yn cyfateb fwy neu lai i'r rhai a nodwyd yn y Ddamcaniaeth Newid. Efallai mai'r ddau eithriad oedd:

- nifer ddigonol o weithrediadau rhanbarthol neu weithrediadau ar lefel Cymru gyfan â chwmpas da ar draws y rhanbarth: ar y cyfan ychydig iawn o gyfranwyr a oedd yn meddwl bod y canlyniad canolradd hwn yn fesur priodol o lwyddiant y Timau Ymgysylltu gan fod y Timau wedi'u dylunio i gael dim dylanwad ar y broses cymeradwyo cyllid
- niferoedd da o bobl a busnesau yn y rhanbarth yn manteisio ar weithrediadau; y farn oedd mai dim ond cyfraniad bach iawn y gellid disgwyl i'r Timau Ymgysylltu ei wneud at y canlyniad canolradd hwn, os o gwbl, o ystyried nad oedd ganddynt rôl i hyrwyddo gweithrediadau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Yn hytrach, awgrymwyd y gallai canlyniad arall ymwneud â gweithrediadau'n meddu ar wybodaeth dda am wasanaethau eraill sydd ar gael yn y rhanbarth fel eu bod yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr at y math mwyaf addas o wasanaeth ar gyfer eu

hanghenion, o ystyried ffocws y Timau Ymgysylltu ar roi anogaeth ar gyfer cysylltiadau a chydweithio rhwng gweithrediadau.

**Rhagdybiaethau sylfaenol**

4.19 Yn ystod y gwaith maes, casglwyd nifer o ragdybiaethau allweddol a oedd yn sail i'r model Damcaniaeth Newid. Rhagdybiwyd:

- mai staff rhanbarthol â gwybodaeth, cysylltiadau ac arbenigedd priodol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r swyddogaeth prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol. Yn gysylltiedig â'r rhagdybiaeth hon mae'r ffaith y dylai adnoddau'r Timau Ymgysylltu fod yn eu lle cyn bod ceisiadau am gyllid ESI yn cael eu cyflwyno a chael eu cynnal wedi hynny ar lefel briodol drwy gydol y cyfnod cyllido
- y dylai canllawiau WEFO ar gyfer ymgeiswyr am arian o gronfeydd ESI ddatgan yn eglur bod yn rhaid i'w cynnig gael ei brawf-fesur o safbwynt rhanbarthol a bod rhaid mynd i'r afael yn briodol ag unrhyw faterion a ganfyddir o fewn y cais. Rhagdybir hefyd y byddai adborth a gasglwyd gan y Timau Ymgysylltu yn cael ei ystyried cyn dyfarnu cyllid ESI i ymgeiswyr
- bod angen llai o gymorth ar sefydliadau a gyllidir yn ystod cyfnod y rhaglen o ystyried y cyfoeth o brofiad o ymgeisio am gyllid o gronfeydd ESI ymhlith sefydliadau sy'n ddarpar ymgeiswyr. Lle mae angen cymorth o'r fath, rhagdybiwyd mai WEFO fyddai'n cyflawni rôl cefnogi a chynghori darpar ymgeiswyr
- bod gan y Timau Ymgysylltu fynediad at ddata a chudd-wybodaeth perthnasol i'w galluogi i adnabod anghenion rhanbarthol ac i ba raddau y mae gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI yn diwallu'r anghenion hyn. Er mwyn cyflawni hyn, mae disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gynnal eu hymarfer casglu data eu hunain yn barhaus a defnyddio data WEFO ar berfformiad ac allbynnau gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI sy'n cwmpasu eu rhanbarth
- y byddai gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI yn ddigon cryf eu cymhelliant i ymgysylltu â'r Timau Ymgysylltu. Gellid cyflawni hyn drwy eu cytundebau cyllido gyda WEFO (yn yr ystyr bod rhaid iddynt wneud hynny fel un o amodau eu grant) a/neu gallent weld gwerth gwneud hynny er budd eu gweithrediad a buddiolwyr. Byddai disgwyl i'r Timau Ymgysylltu roi adnoddau ar waith i ymgysylltu'n frwd a chynnal perthnasoedd â'r gweithrediadau hyn

- y bydd hwyluso cysylltiadau a rhwydweithio rhwng gweithrediadau'n dylanwadu ar y ffordd y mae gweithrediadau'n cael eu cyflawni ac yn gweithio gyda'i gilydd. Disgwylir y bydd rôl y Timau Ymgysylltu o ran dod â phrosiectau ynghyd i greu cysylltiadau, rhannu gwybodaeth a chychwyn mentrau cydweithio'n gwella cyfatebolrwydd y ddarpariaeth. Rhagdybir na fyddai'r rhwydweithio hwn yn cael ei hwyluso yn niffyg Timau Ymgysylltu ac na fyddai cydweithio rhwng gweithrediadau'n digwydd i'r fath raddau fel arall.

**Ffactorau allanol**

4.20 Adnabuwyd nifer o ffactorau allanol yr oedd cyfranwyr yn meddwl y gallent effeithio ar lwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y Timau Ymgysylltu i gyflawni eu canlyniadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Brexit:** mae hyn wedi arwain at lawer o ansicrwydd ynghylch cyllid ESI ac roedd y cyfranwyr yn meddwl ei fod eisoes wedi dechrau effeithio ar waith y Timau Ymgysylltu yn yr ystyr bod rhaid dyrannu amser staff i rannu gwybodaeth a chynnig cyngor ynghylch datblygiadau'n ymwneud â Brexit. Dadleuodd y cyfranwyr hefyd y gallai Brexit fod wedi cael dylanwad ar nifer ac amseriad y ceisiadau am gyllid ESI o ystyried yr ansicrwydd ynghylch amodau y gallai gwarant Trysorlys y DU eu gosod ar gyllid cartref yn y dyfodol ar ôl i gronfeydd ESI ddod i ben. Awgrymwyd bod nifer o geisiadau wedi cael eu gwneud yn gynharach nag y byddent wedi cael eu gwneud fel arall mewn ymgais i neilltuo cyllid o gronfeydd ESI ac o ganlyniad nad yw rhai o'r rhain wedi cael eu datblygu'n llawn o bosibl.
- **Esblygiad strwythurau rhanbarthol**: mae'r Timau Ymgysylltu wedi gweithredu ac wedi gorfod addasu i strwythurau rhanbarthol newidiol gan gynnwys datblygiad Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf a strategaeth ranbartholi Llywodraeth Cymru, er bod yr amseriad o ran gweithredu'r rhain wedi amrywio o un rhanbarth i'r llall.
- **Strwythur a chwmpas y Timau Ymgysylltu**: mae pob Tîm yn wahanol o ran cwmpas daearyddol (gan amrywio o ddwy i 10 ardal awdurdod lleol), eu hadnoddau (cyllid yn ogystal â chapasiti staff), model cyflawni a threfniadau rheoli a allai effeithio ar eu llwyddiant unigol, ac felly eu llwyddiant ar y cyd, o ran cyflawni amcanion cyffredinol WEFO.

- **Amseriad**: daeth y Timau Ymgysylltu yn weithredol yn hwyrach nag a ragwelwyd oherwydd yr amser a gymerodd awdurdodau lleol arweiniol i gytuno ar eu cynlluniau busnes, cadarnhau trefniadau cyllido ac amharodrwydd awdurdodau lleol i recriwtio cyn bod cyllid wedi cael ei gadarnhau. O ganlyniad, nid oedd y Timau Ymgysylltu ar waith i brawf-fesur ceisiadau cychwynnol o safbwynt rhanbarthol, yn anad dim gweithrediadau 'asgwrn cefn' Cymru gyfan dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

## 5. Mewnbwn a gweithgareddau

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y mewnbynnau a'r gweithgareddau a ddisgwylid gan y Timau Ymgysylltu fel y nodir ym model y Ddamcaniaeth Newid ac i ba raddau y mae'r rhain wedi bod yn eu lle ac wedi digwydd. O ran mewnbynnau, rhoddir ystyriaeth i'r modelau a'r adnoddau a roddwyd yn eu lle, y gudd-wybodaeth galed a meddal a gasglwyd, y camau a gymerwyd i adnabod blaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol a hefyd mapio ac ymgysylltu â gweithgareddau ledled y rhanbarth. Wedyn mae'r bennod hon yn ystyried y tri phrif weithgaredd gan y Timau Ymgysylltu a nodir ym model y Ddamcaniaeth Newid, sef prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol, hwyluso rhwydweithio a chyfathrebu.

### Mewnbwn

*Modelau ac adnoddau Timau Ymgysylltu*

5.2 Roedd y cyfranwyr yn meddwl mai un o gryfderau'r dull a ddefnyddiwyd oedd gallu'r Timau Ymgysylltu yn y rhan fwyaf o achosion i weithredu 'hyd braich' oddi wrth awdurdodau lleol ac yn 'annibynnol' arnynt, gan felly fabwysiadu safbwynt rhanbarthol yn hytrach na lleol tuag at gyllid EIS. Roedd y cyfranwyr yn meddwl bod hyn yn groes i'r dull a fabwysiadwyd gan y Timau Ewropeaidd Arbennig, a oedd yn cael eu hystyried gan amlaf yn weithrediadau sydd 'ym mherchnogaeth' awdurdodau lleol er eu bod yn cael eu cyllido'n rhannol gan elfen Cymorth Technegol cronfeydd ESI. Roedd y cyfranwyr yn cyfeirio'n rheolaidd at y Timau Ymgysylltu fel endidau trawsranbarthol, a oedd yn anelu at weithio er budd y rhanbarth yn ei gyfanrwydd.

5.3 Mae'r adnoddau a roddwyd ar waith ar gyfer pob un o'r pedwar Tîm Ymgysylltu fel a ganlyn:

- Caiff Tîm Ymgysylltu Gogledd Cymru ei letya gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a, phan gafodd ei sefydlu gyntaf, roedd yn cynnwys rheolwr, dau swyddog ac un cydgysylltydd rhan-amser. Mae rheolwr y Tîm yn atebol i Bennaeth Busnes a Menter Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac, yn rhinwedd ei aelodaeth o'r pwyllgor gweithredol, i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Caiff Tîm Ymgysylltu Canolbarth Cymru ei letya gan Gyngor Sir Ceredigion ac mae'n cynnwys rheolwr a swyddog Tîm. Mae rheolwr y Tîm wedi bod yn atebol

yn bennaf i'r Arweinydd Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio yng Nghyngor Sir Ceredigion. Yn wahanol i ranbarthau eraill, mae'r Tîm Ymgysylltu hefyd yn hwyluso Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru[17], partneriaeth ranbarthol rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol gyda'r nod o ddatblygu a thyfu economi ranbarthol Canolbarth Cymru

- Caiff Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe ei letya gan Gyngor Sir Caerfyrddin a chaiff ei staffio gan reolwr Tîm llawn-amser, dau swyddog rhan-amser a rheolwr rhan-amser (sydd hefyd yn cyflawni rôl Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth a De Orllewin Cymru). Mae'r deiliad swydd hwn yn atebol i Reolwr Datblygu Economaidd yr awdurdod sydd yn ei dro yn atebol i'r Pennaeth Adfywio yng Nghyngor Sir Caerfyrddin
- Caiff Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain ei letya gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n cynnwys rheolwr Tîm rhan-amser a thri swyddog rhan-amser. Mae rheolwr y Tîm yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cymunedau (sydd wedi cael ei benodi'n Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) sydd yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwyr yr Amgylchedd De Ddwyrain Cymru ac i Fwrdd y Fargen Ddinesig.

5.4 Roedd y Timau Ymgysylltu a'u hawdurdodau lletyol yn meddwl bod yr adnoddau staffio a ddyrannwyd wedi bod yn fach, ond bod hyn wedi bod yn gyson â chyfrifoldebau llai yr oedd disgwyl iddynt eu hysgwyddo o'i gymharu â threfniadau blaenorol. Cydnabuwyd fod lefel y cyllid cyfatebol a oedd ar gael yn ogystal â graddfeydd gwerthuso swyddi awdurdodau lleol ar gyfer y swyddi dan sylw wedi cyfyngu ar adnoddau staffio. Gydag ôl-ddoethineb, roedd yr awdurdodau lletyol yn meddwl eu bod wedi tanamcangyfrif y capasiti a oedd yn ofynnol i gyflawni eu dyletswyddau fel Timau Ymgysylltu, yn enwedig mewn rhanbarthau sy'n gwasanaethu nifer fawr o ardaloedd awdurdodau lleol. Mynegwyd barn gymysg wrth drafod a oedd penodi staff â chyfrifoldebau deuol (i gyflawni swyddogaethau'r Tîm Ymgysylltu a dyletswyddau eraill yr awdurdod lleol) wedi bod yn effeithiol ai peidio - roedd rhai yn meddwl bod hyn wedi gweithio'n dda ond roedd ardaloedd eraill yn meddwl bod hyn wedi achosi heriau, megis creu dryswch ynglŷn â rôl y Timau Ymgysylltu ymhlith rhanddeiliaid a gweithrediadau.

[17] Tyfu Canolbarth Cymru

5.5 Mae dau o'r Timau Ymgysylltu wedi wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff. Mae Tîm gogledd Cymru wedi gweithredu ag ychydig iawn o gapasiti staffio dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda thri o'r pedwar aelod o staff yn gadael ar ganol 2018, yn bennaf oherwydd ansicrwydd ar y pryd ynghylch cyllid ar gyfer y Timau Ymgysylltu y tu hwnt i 2019. Nid oedd yr awdurdod lletyol wedi gallu ymestyn contractau cyflogaeth staff y Tîm Ymgysylltu na recriwtio staff yn eu lle nes ei fod wedi cael cadarnhad ynglŷn â chyllid parhaus. Yn yr achos hwn, mae'r Tîm wedi gweithredu am dros flwyddyn gyda dim ond un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn ei le, er bod camau'n cael eu cymryd nawr i benodi staff penodedig. Mewn achos arall, mae Tîm Ymgysylltu Bae Abertawe wedi gweithredu heb dîm llawn ac yntau wedi penderfynu peidio â phenodi un swyddog llawn-amser ychwanegol at ei dîm o un swyddog llawn-amser a thri swyddog rhan-amser fel y bwriadwyd. Adeg y gwaith maes, rhagwelwyd y byddai'r rôl hon yn cael ei llenwi cyn bo hir.

5.6 Roedd rhanddeiliaid a gweithrediadau a ariennir y cyfwelwyd â hwy'n meddwl bod y capasiti llai yn Nhîm Ymgysylltu gogledd Cymru wedi effeithio ar ei allu i gyflawni'r ystod lawn o swyddogaethau sy'n ofynnol; fodd bynnag, er gwaethaf hyn roedd ymdrechion i gynnal y mwyafrif o swyddogaethau'r Tîm o ran cyfathrebu, cyfarfodydd rhwydwaith a phrawf-fesur o safbwynt rhanbarthol yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

5.7 Mewn Timau Ymgysylltu eraill, roedd rhanddeiliaid a gweithrediadau a ariennir yn credu bod lefel yr adnoddau staffio a oedd wedi'u rhoi ar waith wedi bod yn briodol ac roedd y farn hon yn seiliedig ar y ffaith bod Timau Ymgysylltu yn ymateb i unrhyw geisiadau neu gysylltiadau mewn modd amserol.

*Ymgysylltu â gweithrediadau a ariennir*

5.8 Dywedodd y rhan fwyaf o weithrediadau a ariennir y cyfwelwyd â hwy eu bod mewn cysylltiad rheolaidd ag o leiaf un Tîm Ymgysylltu, er bod tri wedi dweud na fu unrhyw gyfathrebu rhyngddynt a Thimau Ymgysylltu o gwbl. Y rheswm dros hyn oedd naill ai bod ganddynt rôl gyfyngedig o ran cyflawni eu gweithrediadau neu mai dim ond am gyfnod cymharol fyr yr oeddent wedi bod yn eu swydd. Mae dyrnaid o weithrediadau'n cwrdd yn chwarterol ag un neu ddau o Dimau Ymgyssylltu Rhanbarthol ac mae ganddynt berthynas sefydledig â swyddogion.

5.9 O'r 49 o ymatebwyr i'r arolwg, dim ond ag un Tîm Ymgysylltu yr oedd gan y mwyafrif (30 o ymatebwyr) gysylltiad. Roedd wyth ymatebydd arall wedi bod mewn

cysylltiad ag o leiaf ddau Dîm, roedd tri wedi bod mewn cysylltiad â thri Tîm ac roedd yr wyth sy'n weddill wedi bod mewn cysylltiad â phob un o'r pedwar Tîm. Er y gellir deall mai dim ond ag un Tîm Ymgysylltu y byddai angen i weithrediadau â ffocws rhanbarthol fod mewn cysylltiad, roedd yn syndod efallai fod ychydig o weithrediadau cenedlaethol a ariennir y cyfwelwyd â hwy wedi dweud iddynt fod mewn cysylltiad ag un neu ddau o Dimau yn unig, er ei bod yn ddigon posibl mewn rhai o'r achosion hyn bod timau cyflawni lleol wedi bod yn rhyngweithio â'u priod Dîm Ymgysylltu.

5.10 Dywedodd y Timau Ymgysylltu fod gweithrediadau rhanbarthol yn ymgysylltu'n dda â hwy'n rheolaidd tra bo cyswllt â gweithrediadau Cymru gyfan yn amrywio o un rhanbarth i'r llall. At ei gilydd, dywedodd y ddau Dîm yn ne Cymru bod ganddynt berthnasoedd agosach â gweithrediadau Cymru gyfan a hynny am eu bod yn agosach yn ddaearyddol at reolwyr gweithrediadau.

*Deall rôl y Timau Ymgysylltu*

5.11 Er bod gan randdeiliaid ddealltwriaeth weddol gywir o rôl y Timau Ymgysylltu a sut yr oedd hon yn wahanol i rôl WEFO, roedd gweithrediadau a ariennir yn llai clir. Roedd rhai yn disgrifio swyddogaethau'r Timau yn gywir tra bo eraill yn drysu rhwng rôl y Timau Ymgysylltu a rôl WEFO. Er enghraifft, roedd un gweithrediad o'r fath o'r farn bod y Timau Ymgysylltu yn rhoi cymorth i 'bobl sy'n bwriadu rhedeg prosiectau Ewropeaidd neu sydd eisoes yn gwneud hynny ac y mae angen rhywfaint o help arnynt...gyda sut i gadw cofnodion...sut i sicrhau eu bod yn gwneud pethau'n iawn fel eu bod yn barod ar gyfer archwiliadau...mae yno fel rhyw fath o ffrind ar ben arall y ffôn'. Roedd un arall yn disgwyl i'r Timau Ymgysylltu ymweld â phrosiectau i wirio 'eu bod yn gwneud yr hyn y maent yn cael eu cefnogi i'w wneud'.

5.12 Roedd gan rai cyfranwyr berthnasoedd hirsefydlog â staff Timau Ymgysylltu, yn aml yn rhinwedd eu swyddi fel swyddogion blaenorol mewn Timau Ewropeaidd Arbenigol, a chan hynny roeddent yn troi at yr unigolion hyn fel eu 'pwynt cyswllt cyntaf' i drafod materion sy'n ymwneud â chyllid EIS. Dywedodd nifer fach o gyfranwyr hefyd eu bod yn ymdrin ag aelodau unigol o staff ond a hwythau i raddau helaeth heb fod yn ymwybodol mai 'swyddogion Tîm Ymgysylltu' oeddent. Er gwaethaf hyn, roedd cyfranwyr yn dweud yn aml bod eu dealltwriaeth o'r Timau Ymgysylltu wedi gwella dros amser, wrth i'w hymwneud â'r Timau gynyddu.

5.13 At ei gilydd, roedd gweithrediadau a ariennir a oedd yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru a SAU yn llai tebygol o droi at Dimau Ymgysylltu i drafod materion a oedd yn ymwneud â'u gweithrediadau, gan ddweud eu bod yn fwy tebygol o dynnu ar arbenigedd ac adnoddau mewnol, gan gynnwys staff WEFO yn achos cyfranwyr o Lywodraeth Cymru.

*Deall blaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol*

5.14 Roedd disgwyl i'r Timau Ymgysylltu ddatblygu dealltwriaeth am flaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol er mwyn llywio eu swyddogaethau prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol a'i lledaenu i eraill. Roedd y cyfranwyr yn meddwl bod sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol wedi bod yn elfen waith hollbwysig yn ystod cam cynnar cyfnod y rhaglenni, o ystyried pwysigrwydd bwydo cudd-wybodaeth o'r fath i benderfyniadau cyllido WEFO.

5.15 Nododd y Timau Ymgysylltu eu bod yn tynnu ar wybodaeth staff a chysylltiadau sefydledig ledled y rhanbarth i gyflawni hyn. Roedd y cyfranwyr yn cydnabod yn gyffredinol y bu'n fanteisiol bod Timau Ymgysylltu wedi cael eu staffio gan swyddogion profiadol â chysylltiadau da. Roedd hyn wedi'u galluogi i fanteisio ar eu gwybodaeth a'u rhwydweithiau o'r dechrau'n deg.

5.16 Nodwyd hefyd bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu manteisio ar gudd-wybodaeth ar lefel ranbarthol, megis yr hyn a gynhyrchir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a blaenoriaethau a nodwyd mewn strategaethau rhanbarthol er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon. Roedd y Fframwaith Blaenoriaethau Ewropeaidd yn cael ei ystyried yn offeryn pwysig er mwyn i'r Timau Ymgysylltu sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau rhanbarthol yn ystod camau cyntaf rhaglenni 2014-2020 hefyd.

5.17 Dengys tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad fod y Timau Ymgysylltu wedi rhoi ystyriaeth effeithiol i flaenoriaethau rhanbarthol a nodwyd mewn amryw ddogfennau polisi a strategol rhanbarthol. Mae adborth gan randdeiliaid a gweithrediadau a ariennir yn awgrymu bod gan y Timau Ymgysylltu ddealltwriaeth dda o'u blaenoriaethau rhanbarthol a bod hwn yn un o gryfderau allweddol eu gwaith. Dadleuodd un gweithrediad a ariennir fod ei 'fys ar y pwls' o ran deall yr agenda ranbarthol.

5.18 Holwyd yr ymatebwyr i'r arolwg ynghylch effeithiolrwydd gwaith y Timau Ymgysylltu o ran eu hysbysu'n gyson am flaenoriaethau a gweithgareddau rhanbarthol. Roedd

dros dri chwarter yn meddwl bod Timau Ymgysylltu yn cyflawni'r rôl hon naill ai'n effeithiol iawn (16 o ymatebwyr) neu'n weddol effeithiol (23 o ymatebwyr). Roedd y rhai a oedd wedi ymwneud â Thîm Ymgysylltu y de-ddwyrain yn fwy tebygol o ystyried bod y Tîm hwn wedi cyflawni'r rôl hon yn effeithiol. Roedd rhyw dri chwarter yr ymatebwyr i'r arolwg (35 o ymatebwyr) yn meddwl bod y Tîm yn rhannu gwybodaeth am weithrediadau eraill a ariennir o'r cronfeydd EIS yn eu rhanbarth gyda hwy tra nad oedd lleiafrif (pedwar ymatebydd) yn meddwl hynny. Roedd y deg ymatebydd arall yn ansicr. Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi ymwneud â Thîm Ymgysylltu gogledd Cymru yn fwy tebygol o ystyried bod y Tîm hwn wedi cyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

*Casglu data a chudd-wybodaeth*

5.19 Roedd llunwyr polisïau'n disgwyl y byddai gan y Timau Ymgysylltu rôl o ran casglu cudd-wybodaeth a data caled, gyda'r amcan o graffu ar berfformiad rhanbarthol y cronfeydd EIS, gan gynnwys ar lefel Blaenoriaethau. Mae adborth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn awgrymu nad yw'r rôl hon wedi'i gwireddu i unrhyw raddau sylweddol eto.

5.20 Ychydig o ddata y mae Timau Ymgysylltu yn eu casglu'n uniongyrchol gan weithrediadau'r cronfeydd EIS am eu perfformiad ac maent yn ddibynnol ar WEFO i rannu data ar berfformiad gyda hwy. Efallai mai'r eithriad i hyn fyddai gweithrediadau a arweinir yn rhanbarthol megis y rhai lle mae swyddogion Timau Ymgysylltu yn aelodau o'u grwpiau llywio neu eu byrddau. Nid yw'n ofynnol i weithrediadau a ariennir rannu data ar berfformiad gyda Thimau Ymgysylltu fel un o amodau cael cyllid er bod rhanddeiliaid o'r farn, o edrych yn ôl, y gallai hyn fod wedi bod o gymorth.

5.21 Roedd gweithrediadau a ariennir yn atgyfnerthu'r ffaith mai ychydig iawn o ddata ar berfformiad sy'n cael eu rhannu â Thimau Ymgysylltu (er bod nifer yn darparu diweddariadau ar gynnydd ar gyfer Timau Ymgysylltu naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig). Er enghraifft, meddai un: 'dydyn ni ddim yn anfon unrhyw wybodaeth fanwl atynt am ein perfformiad a'n dangosyddion, a dydyn nhw ddim i'w gweld fel pe baent yn darparu unrhyw drosolwg o'r wybodaeth hon yn eu cylchlythyrau'.

5.22 Dim ond dyrnaid o weithrediadau a ariennir ddywedodd eu bod yn darparu data ar berfformiad i'r Timau Ymgysylltu o bryd i'w gilydd, gyda Thîm Ymgysylltu y de-ddwyrain yn cael ei amlygu fel un a oedd yn gofyn am ddata o'r fath ac yn eu

rhannu drwy gylchlythyrau a digwyddiadau. Yn wir, roedd gweithrediadau'n aml yn tybio y byddai WEFO yn rhannu data ar berfformiad ar lefel gweithrediadau gyda'r timau. Meddai un gweithrediad a ariennir: 'rydym yn darparu diweddariadau ar ein dangosyddion ar lefel ranbarthol. Mae'r Timau Ymgysylltu yn gwerthfawrogi'r dull hwn gan ei fod yn eu galluogi i ddeall ein cynnydd a'n heffaith yn eu hardal yn well'. Dywedodd un arall ei fod wedi darparu data rheoli perfformiad manwl gan ddefnyddio fformat penodedig ar gyfer un Tîm Ymgysylltu, ond eto mai dim ond diweddariadau naratif chwarterol yr oedd yn ofynnol iddo'u darparu ar gyfer un arall, sy'n awgrymu nad yw Timau Ymgysylltu yn gofyn yn gyson am yr un wybodaeth gan weithrediadau a ariennir.

5.23 Dywedodd sawl gweithrediad a ariennir ei bod yn cael cyfarfodydd unigol gyda swyddogion Timau Ymgysylltu i drafod y cynnydd sy'n cael ei wneud gan eu prosiect tra bo eraill yn darparu diweddariadau ar gynnydd yn ystod sesiynau 'pawb yn ei dro' mewn digwyddiadau rhwydweithio a drefnir gan Dimau Ymgysylltu. Un ffocws allweddol i drafodaethau un i un fu adnabod sut y mae gweithrediadau wedi ennyn ymgysylltiad cyfranogwyr a busnesau yn y rhanbarth ac wedi gweithio gyda phartneriaid allweddol eraill. Roedd un gweithrediad a arweiniwyd gan SAU, er enghraifft, wedi trafod gweithgareddau ymgysylltu a chymorth busnes gyda'r Tîm Ymgysylltu a chytunwyd y byddai'r Tîm yn defnyddio'r dulliau a fabwysiadwyd fel sail i astudiaethau achos enghreifftiol.

5.24 Gan nad yw data WEFO ar berfformiad rhaglenni a blaenoriaethau wedi cael eu rhannu'n gyhoeddus tan yn ddiweddar iawn, roedd swyddogion Timau Ymgysylltu yn meddwl mai cipolwg bach iawn yr oeddent wedi ei gael ar berfformiad cyffredinol eu rhanbarth hyd yma. Adeg y gwaith maes, dywedodd swyddogion y Timau Ymgysylltu eu bod yn dechrau cael mynediad i ystadegau defnyddiol gan WEFO ac yn ystyried sut orau i'w defnyddio. Roedd yn dod yn glir i'r Timau Ymgysylltu, fodd bynnag, bod ynysu'r canlyniadau a gyflawnir gan weithrediadau Cymru gyfan ar gyfer eu rhanbarth yn anodd, os nad yn amhosibl. Roedd rhai gweithrediadau ERDF dros Gymru gyfan yn adleisio hyn, gan ychwanegu y byddent yn ei chael yn anodd gwahanu cyflawniadau yn ôl ffiniau rhanbarthol y Timau Ymgysylltu, yn anad dim gan nad oeddent yn gyson â'u ffiniau cyllido ar gyfer GCaC/DC.

5.25 Roedd rhanddeiliaid a gweithrediadau a ariennir fel ei gilydd yn awyddus i weld y Timau Ymgysylltu yn lledaenu cudd-wybodaeth am gynnydd a pherfformiad

rhanbarthol. Cafodd hyn ei awgrymu fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen. Byddai rhai gweithrediadau yn cael yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn i feincnodi eu perfformiad hwy eu hunain yn erbyn ymyriadau tebyg. Nodwyd hefyd y byddai'r Timau Ymgysylltu o bosibl yn gallu cymharu data ar berfformiad ar draws blaenoriaethau cyllido yn ôl rhanbarth i ddeall yn well beth sy'n gyfrifol am unrhyw berfformiad sy'n well neu'n waeth na'r disgwyl.

**Gweithgareddau**

**Prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol**

*Cynghori WEFO ynghylch cydweddiad strategol ceisiadau*

5.26 Roedd disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gyflawni rôl cydlynu strategol a helpu i gyfrannu tuag at amcan WEFO i gyllido llai o weithrediadau yng nghyfnod rhaglenni 2014-2020. Canfu'r gwerthusiad dystiolaeth fod y Timau Ymgysylltu yn gwneud hyn drwy ddod â buddiolwyr arweiniol ynghyd i ddatblygu llai o brosiectau rhanbarthol gan felly leihau'r risg o ddyblygu a fyddai'n deillio o fod â chasgliad o weithrediadau tebyg, llai o faint.

5.27 Roedd llunwyr polisïau'n disgwyl i rôl y Timau Ymgysylltu i brawf-fesur o safbwynt rhanbarthol ystyried i ba raddau yr oedd ceisiadau am brosiectau'n gyson â strategaethau economaidd rhanbarthol, p'un a oeddent yn ategu ynteu'n dyblygu darpariaethau eraill sydd ar gael yn y rhanbarthau yn ogystal â darparu barn ynglŷn â'u strategaethau ymadael arfaethedig. Roedd disgwyl i'r Timau Ymgysylltu ddarparu sylwadau ac adborth ar geisiadau ond ni ofynnwyd iddynt gymeradwyo neu wrthwynebu unrhyw gais yn benodol.

5.28 Mae'r Timau Ymgysylltu yn cyflawni eu dyletswyddau prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol yn wahanol. Mae un Tîm wedi sefydlu Grŵp Cynghori a Llywio tra bod un arall yn defnyddio Panel Prawf-fesur i ystyried ac adolygu ceisiadau am gyllid. Mae un arall yn rhannu ceisiadau ymhlith rhanddeiliaid allweddol drwy e-bost ac yn gofyn am sylwadau.

5.29 Mewn rhai achosion, mae ymgeiswyr wedi cael eu gwahodd i gyflwyno'u cynigion ar gyfer prosiectau i baneli. Mae adborth gan y Timau Ymgysylltu a gweithrediadau a ariennir fel ei gilydd yn awgrymu bod hyn wedi gweithio'n dda o ran cael dealltwriaeth well am rai o'r syniadau mwy cymhleth a thechnegol am brosiectau, yn enwedig y rhai sy'n ymgeisio am arian o gronfeydd Blaenoriaeth 1 ERDF Ymchwil a

Datblygu. Dadleuwyd fod y Timau Ymgysylltu, yn yr achosion hyn, wedi gallu trafod gydag ymgeiswyr sut y gallai eu prosiectau fod o fudd i'r economi ehangach drwy ymgysylltu â busnesau ac ysgolion er enghraifft.

5.30 Daeth darlun cymysg i'r amlwg am allu'r Timau Ymgysylltu i gyflawni eu swyddogaethau prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol yn effeithiol. Dadleuodd nifer o gyfranwyr fod cyfyngiad wedi bod ar allu'r Timau Ymgysylltu i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol am eu bod wedi'u sefydlu'n rhy hwyr. Efallai nad yw'n syndod, felly, bod nifer o gyfranwyr wedi cwestiynu'r gwerth a'r cyfraniad y gellid disgwyl i'r Timau Ymgysylltu eu gwneud o ran prawf-fesur ceisiadau o safbwynt rhanbarthol.

5.31 Roedd yn destun pryder penodol i'r Timau Ymgysylltu bod prosiectau asgwrn cefn Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o wariant cronfeydd ESI, wedi cael eu cymeradwyo heb gael eu prawf-fesur yn flaenorol o safbwynt rhanbarthol gan y Timau Ymgysylltu. Bu hyn yn angenrheidiol am fod y gweithrediadau asgwrn cefn strategol allweddol yn barod i gael eu cymeradwyo cyn i'r Timau Ymgysylltu fod yn weithredol ac roedd yn rhaid i unrhyw waith i brawf-fesur y gweithrediadau hyn o safbwynt rhanbarthol gael ei wneud yn ôl-weithredol.

5.32 O ganlyniad, mae swyddogaethau'r Timau Ymgysylltu ar gyfer prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol wedi bod yn gyfyngedig i weithrediadau a arweinir yn rhanbarthol neu'r rhai a ddatblygwyd gan noddwyr eraill ar lefel Cymru gyfan neu GCaC/DC. Roedd rhai o'r rhain eisoes yn mynd rhagddynt erbyn bod y Timau Ymgysylltu yn weithredol: 'cafodd [y gweithrediad] ei ddatblygu cyn bod y seilwaith y Timau Ymgysylltu yn ei le, felly roedd y lefelau ymgysylltu yn ystod y broses cynllunio busnes yn isel iawn'. Roedd gweithrediad arall a ariennir yn cydnabod bod 'amseriad y gweithrediadau asgwrn cefn o bosibl yn golygu eu bod wedi cael profiad gwahanol' i brosiectau diweddarach. Mewn rhai achosion, dywedodd gweithrediadau a ariennir eu bod wedi ymgysylltu â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a phartneriaeth y Fargen Ddinesig i brawf-fesur eu cais o safbwynt rhanbarthol yn ystod dyddiau cynnar y rhaglen.

5.33 Er gwaethaf y broses gymeradwyo a sefydlwyd gan WEFO a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl geisiadau ddangos eu bod wedi cael eu prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol fel rhan o gam cyntaf asesu prosiectau, roedd staff y Timau Ymgysylltu yn meddwl bod eu rôl wedi bod yn 'dipyn o ôl-ystyriaeth' o gofio nad oedd ymgeiswyr yn ceisio'u mewnbwn nes bod cynlluniau busnes yn weddol gyflawn.

Roedd adborth gan weithrediadau a ariennir yn cefnogi'r honiad hwn at ei gilydd er bod un gweithrediad a arweinir gan SAB wedi dweud iddynt gael cyfarwyddiadau eglur gan WEFO bod rhaid iddynt ddangos eu bod yn ymgysylltu â Thimau Ymgysylltu er mwyn iddynt barhau i gael mynediad at gyllid yr UE.

5.34 Nid oedd cyfranwyr yn meddwl bod rôl y Timau Ymgysylltu o ran cydgysylltu'r broses o flaenoriaethu ceisiadau ar draws un amcan penodol o fewn Blaenoriaeth 4 y rhaglen ERDF yn cael ei hadlewyrchu ym model y Ddamcaniaeth Newid. Er enghraifft, yn achos y gweithrediad Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, roedd wedi bod yn ofynnol i'r Timau Ymgysylltu gydgysylltu barn rhanddeiliaid rhanbarthol er mwyn blaenoriaethu prosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn safleoedd ac adeiladau gyda golwg ar gyflwyno rhestr wedi'i blaenoriaethu i WEFO ei hystyried. Er bod rhai o'r farn bod y broses hon wedi gweithio'n dda yn yr ystyr bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu hwyluso dylanwad 'sylweddol' gan randdeiliaid rhanbarthol ar ddethol gweithrediadau, roedd eraill yn hynod feirniadol o'r dull a ddefnyddiwyd gan ychwanegu y 'byddai wedi bod yn haws ac o bosibl yn fwy effeithiol pe bai Llywodraeth Cymru wedi dethol y prosiectau blaenoriaeth'.

5.35 Wrth brawf-fesur ceisiadau o safbwynt rhanbarthol, awgrymwyd bod y Timau Ymgysylltu yn fwy cyfforddus yn adolygu ceisiadau a gyflwynwyd ar draws blaenoriaethau yr oeddent fwyaf cyfarwydd â hwy a lle'r oedd gan aelodau'r panel hanes cryfach o gyflawni. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn ddarpariaethau a oedd wedi'u cwmpasu gan gylchoedd gwaith awdurdodau lleol gan gynnwys cynhwysiant cymdeithasol a hyfforddiant yn ogystal â datblygu canol trefi a safleoedd diwydiannol. Cwestiynodd rhai a oedd gan y Timau Ymgysylltu yr arbenigedd priodol i adolygu cydweddiad rhanbarthol ceisiadau a wnaed ar draws un maes blaenoriaeth, y rhai a oedd yn ymwneud â Blaenoriaeth 1 ERDF Ymchwil a Datblygu.

5.36 Er gwaethaf y materion hyn, mae adborth gan ymgeiswyr yn cyfeirio at roi mwy o amlygrwydd i flaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol yn ystod cyfnod y rhaglenni hyn. Er enghraifft: 'o dan y Rhaglen ddiwethaf ni fyddem o anghenraid wedi bod yn ymwybodol o bopeth arall a oedd yn digwydd yn y rhanbarth – felly roedd y Rhaglen hon yn nodi newid mawr yn ein ffordd o weithio. Roedd yn llawer mwy cydgysylltiedig. Roedd rhaid i ni ddangos nad oeddem yn dyblygu a bod ein dull yn ategu Gweithrediadau eraill yr UE.

5.37 Mae'n ymddangos bod adborth y Timau Ymgysylltu ar geisiadau'n aml yn golygu adnabod gweithrediadau neu sefydliadau y gallai ymgeiswyr gysylltu neu gydweithio â hwy. Roedd hyn yn arbennig o wir am geisiadau ESF.

> Roedd un Tîm Ymgysylltu wedi adnabod cais a gyflwynwyd gan brifysgol i gyflawni ymyriad dros Gymru gyfan a oedd, ym marn y Tîm hwn, yn dyblygu darpariaeth a oedd yn cael ei chynnig drwy gais arall gan brifysgol arall. Ceisiodd y Tîm Ymgysylltu hwyluso ymgysylltiad rhwng ymgeiswyr y ddau brosiect, gan weithredu fel hwylusydd diduedd, gan gyflwyno'r sefydliadau i'w gilydd a chychwyn sgwrs rhyngddynt. Credwyd bod hyn wedi arwain at ryngweithio cadarnhaol iawn, gan gynnwys cynnig diwygiedig i WEFO ac, er nad oedd y cynnig am gyllid yn llwyddiannus yn y pen draw, roedd y cysylltiadau a'r berthynas yn gadarnhaol iawn ynddynt eu hunain.

5.38 Adeg y gwaith maes, roedd barn ddiduedd bod llwyth gwaith y Timau Ymgysylltu i brawf-fesur ceisiadau o safbwynt rhanbarthol wedi lleihau o gofio mai ychydig iawn o gynigion newydd oedd yn cael eu cyflwyno i WEFO bellach.

5.39 Mae adborth gan ychydig o weithrediadau a ariennir y cyfwelwyd â hwy, yr oedd eu ceisiadau wedi cael eu prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol gan y Timau Ymgysylltu, yn awgrymu eu bod wedi cael profiadau gwahanol o un Tîm i'r llall. Mewn un achos er enghraifft, roedd gweithrediad a ariennir mewn penbleth ynghylch y lefel wahanol o graffu a fabwysiadwyd gan y Timau Ymgysylltu:

> Dywedodd un gweithrediad fod Tîm Ymgysylltu wedi codi cyfres o gwestiynau i brofi cydweddiad rhanbarthol y gweithrediad ac i warchod rhag unrhyw ddyblygu. Gofynnwyd i'r gweithrediad gyflwyno i un Tîm Ymgysylltu a darparodd wybodaeth i ddau Dîm arall mewn ymateb i'w hymholiadau. Roedd y cwestiynau a godwyd gan y pedwerydd Tîm yn cael eu hystyried yn fwy manwl o lawer o ran eu natur ac, yn eu tyb hwy, roeddent yn mynd y tu hwnt i gylch gwaith y Tîm Ymgysylltu i brawf-fesur o safbwynt rhanbarthol: 'roeddent yn gwneud ymholiadau manwl ynghylch cynllunio busnes yr oedd WEFO eisoes wedi ein holi amdano'.

5.40 Dywedodd gweithrediad arall a ariennir fod eu profiad o gael eu prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol wedi bod yn brofiad defnyddiol ac wedi bod o gymorth:

Yn ystod y cam cynllunio busnes, cwblhaodd un gweithrediad dempledi ar gyfer pob un o'r Timau Ymgysylltu a oedd yn nodi sut y byddai'r gweithrediad yn gweithio a sut y byddai'n cyflawni blaenoriaethau rhanbarthol. Roedd y templedi i gyd ychydig yn wahanol ond yn cynnwys yr un cwestiynau fwy neu lai. Roedd yr adborth a'r ddeialog gyda phob un o'r pedwar Tîm Ymgysylltu yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol 'gan eu bod yn amlygu rhai materion lleol/rhanbarthol nad oeddem yn ymwybodol ohonynt ... [ac fe gynigion nhw] ein cyflwyno i sefydliadau masnachol yn eu hardal'.

5.41 Er y bu gan y Timau Ymgysylltu lai o fewnbwn na'r disgwyl i brawf-fesur ceisiadau o safbwynt rhanbarthol, datgelodd y gwaith maes fod ymdrechion sylweddol wedi cael eu gwneud i brawf-fesur gweithrediadau o safbwynt rhanbarthol mewn modd ôl-weithredol er mwyn cysoni ymyriadau a ariennir yn well, yn enwedig prosiectau asgwrn cefn cenedlaethol. Aethpwyd ar drywydd hyn drwy gyfarfodydd un i un gyda gweithrediadau yn ogystal â thrwy gyflwyniadau a thrafodaethau mewn amryw baneli a rhwydweithiau rhanbarthol. Dadleuodd y Timau Ymgysylltu yn gryf nad 'ymarfer untro' yw prawf-fesur o safbwynt rhanbarthol a bod meddu ar fecanweithiau a strwythurau parhaus i wneud hynny'n bwysig.

*Gweithredu ar ran partneriaethau rhanbarthol*

5.42 Cydnabuwyd yn eang bod y Timau Ymgysylltu wedi cael eu sefydlu ac wedi bod yn gweithredu o fewn tirwedd ranbarthol esblygol, ddynamig iawn yn enwedig gyda Bargeinion Dinesig a Thwf yn cael eu cyflwyno, partneriaethau newydd megis Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a phartneriaeth Dinas-ranbarth Caerdydd yn cael eu sefydlu, a Phrif Swyddogion Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn cael eu penodi. Mae datblygiadau partneriaeth wedi esblygu ledled rhanbarthau ar wahanol adegau ac mae wedi bod yn ofynnol i'r Timau Ymgysylltu adlewyrchu siâp a natur y strwythurau rhanbarthol ehangach y cawsant eu sefydlu oddi mewn iddynt. Yn fras, roedd barn cyfranwyr fel a ganlyn: 'po fwyaf aeddfed yw strwythur y bartneriaeth ranbarthol, po fwyaf y mae'r Tîm Ymgysylltlu Rhanbarthol wedi gallu manteisio arno'.

5.43 Yng nghanolbarth Cymru, mae staff y Tîm Ymgysylltu yn cefnogi'r bartneriaeth ranbarthol newydd, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru drwy ddarparu gwasanaethau rheoli ac ysgrifenyddol ar ei chyfer. Yng ngogledd Cymru mae'r Tîm

Ymgysylltu wedi'i integreiddio'n agos â strwythur Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru tra bod Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain yn gysylltiedig yn rhannol â Phrifddinas-ranbarth Caerdydd drwy ei Bartneriaeth Sgiliau. Yn y de-orllewin mae aelod o staff yn gyfrifol am y Tîm Ymgysylltu a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol ac yn darparu diweddariadau ar gyfer Grŵp Ymgynghorol y Tîm sydd wedyn yn cael eu bwydo i grŵp y Cyfarwyddwyr Adfywio Rhanbarthol ac ymlaen i bartneriaeth Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

5.44 Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod y dirwedd ranbarthol wedi bod, ac yn parhau i fod, yn gymhleth, yn ddryslyd ac yn esblygol. Ar y naill law mae'r cymhlethdod hwn wedi atgyfnerthu'r angen am rôl y Timau Ymgysylltu fel mecanwaith i gyfleu datblygiadau rhanbarthol i eraill ond ar y llaw arall, mae wedi bod yn her gynyddol i'r Timau Ymgysylltu ddod o hyd i'w 'cydweddiad' o fewn y strwythur. Meddai un rhanddeiliad: 'ychydig o hierarchaeth sydd o ran pwy sy'n gwneud beth a ble. Mae strwythurau'r UE yn tueddu i fod yn dipyn o ychwanegiad at flaenoriaethau rhanbarthol ehangach, felly mae wedi bod yn anodd i'r Timau Ymgysylltu gyflawni cylch gwaith eglur mewn maes mor brysur'. Roedd rhai o'r farn bod cymhlethdod strwythurau partneriaethau rhanbarthol wedi cyfyngu ar allu'r Timau Ymgysylltu i gydgysylltu gweithgarwch mor effeithiol ag y byddent wedi'i wneud fel arall o bosibl. Roedd eraill o'r farn bod y Timau wedi cynnal swyddogaeth bwysig fel 'adnodd sefydlog' o fewn hinsawdd ranbarthol a oedd yn newid yn gyflym.

5.45 Roedd cyfranwyr o'r farn bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu integreiddio â phartneriaethau a strwythurau rhanbarthol ehangach i wahanol raddau ac, oherwydd hyn, y farn oedd y gallent gael eu hintegreiddio'n well mewn rhai rhanbarthau.

5.46 Roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn, wrth i Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf ymsefydlu a bwrw gwreiddiau cadarnach, y dylai'r Timau Ymgysylltu addasu i'r strwythurau a roddwyd ar waith, gan ychwanegu bod Blaenoriaeth 5 newydd ESF ar gyfer Meithrin Capasiti Sefydliadol a Gweithio Rhanbarthol yn cynnig mecanwaith cyllido ar gyfer archwilio cyfleoedd o'r fath: 'mae'r Timau Ymgysylltu yn cefnogi'r partneriaethau rhanbarthol ehangach, ond bydd angen iddynt newid wrth i'r strwythurau hynny esblygu'. Roedd un rhanddeiliad o'r farn bod cyfle i gynnig rôl y Tîm Ymgysylltu o fewn partneriaethau Bargeinion Dinesig neu bartneriaethau yn y

dyfodol ac y byddai cyllid Blaenoriaeth 5 ESF yn rhoi'r adnoddau i alluogi rhanbarthau i ail-gysoni eu strwythurau, prosesau a swyddogaethau gweinyddol.

5.47 Mynegodd gweithrediadau a ariennir lefelau gwahanol iawn o ddealltwriaeth am rolau'r Timau Ymgysylltu a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Roedd rhai yn ystyried bod bodolaeth, a pherthnasoedd rhwng, Timau Ymgysylltu a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn briodol ac yn ddi-dor tra bod eraill yn eu cael yn ddryslyd ac yn bell i ffwrdd. Er enghraifft, roedd un cyfrannwr yn ystyried mai'r Tîm Ymgysylltu oedd y 'glud rhwng y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'r Ddinas-ranbarth' tra bo un arall yn meddwl bod y 'swyddogaethau'n niwlog' ar adegau.

5.48 Roedd nifer o gyfranwyr yn meddwl bod cyfle i'r Timau Ymgysylltu gydweithio'n agosach â'u Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol lle nad oedd hyn yn digwydd ar hyn o bryd, gan dynnu ar arfer da o ranbarthau eraill. Fodd bynnag, roedd eraill, yn enwedig gweithrediadau a ariennir, wedi cael eu drysu gan y perthnasoedd clòs a oedd yn bodoli rhwng y Timau Ymgysylltu a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, yn anad dim yn achos Tîm Ymgysylltu Bae Abertawe. Efallai fod y dryswch hwn wedi cael ei sbarduno'n rhannol gan y ffaith bod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn cyflawni rhai o'r sgiliau y rhagwelwyd y byddai'r Timau Ymgysylltu yn eu cyflawni cyn i'r Timau gael eu sefydlu, e.e. roedd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn prawf-fesur ceisiadau o safbwynt rhanbarthol.

5.49 Roedd cyfranwyr yn ymwybodol bod pedwar Tîm Ymgysylltu a thair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn weithredol, gydag un Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn cwmpasu ôl troed dau Dîm Ymgysylltu (canolbarth Cymru a Bae Abertawe). Roedd rhai cyfranwyr, yn bennaf y rhai a oedd yn gysylltiedig â gweithrediadau ESF, yn cwestiynu'r rhesymeg dros y ffaith bod cylchoedd gwaith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Thimau Ymgysylltu yn wahanol yn ddaearyddol. Gwnaed y sylw bod perthynas fwy clos rhwng un Tîm Ymgysylltu a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol hon yn syml oherwydd eu bod yn cael eu lletya gan yr un awdurdod lleol ac roedd cyfranwyr o'r rhanbarth arall yn teimlo dan anfantais o ganlyniad.

5.50 Trafododd cyfranwyr o'r trydydd sector hefyd gydweddiad y Timau Ymgysylltu â thîm Ewropeaidd y trydydd sector (3-SET) a ariennir drwy gronfeydd ESI ac a letyir gan CGGC, gan ychwanegu bod y prosiect Cymorth Technegol yn ychwanegu haen arall o gymhlethdod at y dirwedd gymorth a allai greu rhagor o ddryswch.

5.51 Roedd gweithrediadau a ariennir y cyfwelwyd â hwy yn sôn yn aml bod y Timau Ymgysylltu wedi rhoi gwybodaeth a chysylltiadau iddynt ar gyfer partneriaethau rhanbarthol sy'n esblygu, yn enwedig ar gyfer staff gweithredol: 'Fe allwn i ddod i wybod am y pethau hyn fy hun am wn i, ond byddai'n golygu cryn dipyn o waith ac mae'n llawer gwell i ni gael diweddariadau a dealltwriaeth gan dîm rhanbarthol pwrpasol'. Mae'r Timau Ymgysylltu wedi helpu i gynorthwyo prosiectau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ar lefel ranbarthol ac i feithrin dealltwriaeth well o'r strwythurau rhanbarthol sy'n esblygu ledled Cymru, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

5.52 Mae cyfarfodydd a rhwydweithiau a hwylusir gan y Timau Ymgysylltu yn aml wedi golygu rhoi mynediad i weithrediadau a ariennir at gynrychiolwyr o amryw strwythurau partneriaeth. Roedd gweithrediadau'n meddwl bod y rhain yn cynnig cyfle iddynt agor sianeli cyfathrebu'n uniongyrchol. Hefyd, mae'r Timau Ymgysylltu wedi darparu diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau o ran partneriaethau rhanbarthol. Roedd y cyfranwyr yn meddwl bod hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol o ystyried natur esblygol strwythurau a phartneriaethau rhanbarthol yn ddiweddar.

*Cynghori ymgeiswyr arweiniol a buddiolwyr prosiectau*

5.53 Roedd cydnabyddiaeth gyffredin ymhlith y cyfranwyr nad oedd y Timau Ymgysylltu, yn wahanol i'w rhagflaenwyr, yn gyfrifol am helpu i ddatblygu a chynghori'r rhai a oedd yn ymgeisio am gyllid o gronfeydd ESI ynghylch cynlluniau busnes eu prosiectau. Ategwyd hyn gan dystiolaeth yr arolwg gan mai dim ond dau o blith y naw sefydliad yn y trydydd sector ddywedodd eu bod wedi cael cyngor neu gymorth gan Dîm Ymgysylltu gyda'u cais am gyllid o gronfeydd ESI. Fodd bynnag, canfu'r gwaith maes fod rhai Timau Ymgysylltu wedi chwarae rhan fwy weithredol o ran cynghori ymgeiswyr na'i gilydd. Dywedodd cwpl o randdeiliaid fod y Timau Ymgysylltu wedi chwarae mwy o ran yn y broses o gefnogi a rhoi arweiniad i fudiadau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector a oedd â llai o brofiad o wneud ceisiadau am gyllid o gronfeydd ESI a diffyg arbenigedd mewnol.

5.54 Yn y cyfweliadau, fe wnaeth gweithrediadau a ariennir a oedd wedi cael cymorth a chyngor gan Dimau Ymgysylltu ynghylch materion rhanbarthol yn ystod y broses ymgeisio siarad yn gadarnhaol am eu hymgysylltiad â'r timau, gan ychwanegu bod y Timau Ymgysylltu wedi bod yn ymatebol ac yn gefnogol yn y mwyafrif llethol o

achosion. Dywedodd un gweithrediad a ariennir ei fod wedi cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r holl Dimau Ymgysylltu yn ystod cam datblygu'r cynllun busnes. Roedd gweithrediadau a ariennir yn dweud yn rheolaidd bod mewnbwn y Timau Ymgysylltu wedi helpu i sicrhau bod eu cynlluniau busnes yn adlewyrchu blaenoriaethau rhanbarthol ac yn rhoi iddynt 'hyder bod ein cynllun wedi mapio'r hyn a oedd yn digwydd yn eu rhanbarthau'. Dywedodd gweithrediadau hefyd eu bod yn meddu ar wybodaeth well am yr hyn a oedd yn digwydd yn y rhanbarth, gan gynnwys bod yn fwy ymwybodol o strwythurau rhanbarthol esblygol, o ganlyniad i ymgysylltu â'r Tîm Ymgysylltu.

5.55 Yn ystod y cyfnod cyflawni, roedd gweithrediadau a ariennir yn meddwl bod y prif werth ychwanegol a oedd yn cael ei gynnig gan y Timau Ymgysylltu yn ymwneud â hybu eu dealltwriaeth am flaenoriaethau rhanbarthol, sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo i gael y wybodaeth ddiweddaraf am strwythurau rhanbarthol esblygol a hwyluso cyfleoedd iddynt ymgysylltu â gweithrediadau eraill yn y rhanbarth. Crybwyllwyd un enghraifft lle roedd gweithrediad wedi canfod bod cymorth y Tîm Ymgysylltu yn ddefnyddiol i helpu i fynd i'r afael â niferoedd isel a oedd yn manteisio ar eu gweithrediad yn y rhanbarth gan ychwanegu eu bod 'yn adnabod eu hardal ac yn gallu ein rhoi mewn cysylltiad â'r bobl iawn ... mae hyn yn weddol gynnil, ond gall fod yn bwysig iawn'.

5.56 Roedd adborth gan yr ymatebwyr i'r arolwg wrth drafod a oeddent wedi cael cyngor yn ystod proses i ymgeisio am gyllid prosiect o gronfeydd ESI yn adleisio barn y rhai y cyfwelwyd â hwy. At ei gilydd, roedd 14 (29 y cant) wedi cael cyngor gan o leiaf un Tîm Ymgysylltu, ac roedd saith o'r rhain wedi cael cyngor gan un a chwech wedi cael cyngor gan bob un o'r pedwar Tîm. Roedd rhyw bedwar o bob pump o'r farn bod y cyngor yn ddefnyddiol iawn (naw ymatebydd) neu'n weddol ddefnyddiol (dau ymatebydd) ac un rhan o bump (tri ymatebydd) o'r farn nad oedd yn arbennig o ddefnyddiol.

5.57 Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg yn meddwl bod cyngor y Tîm Ymgysylltu wedi bod yn ddefnyddiol o ran eu helpu i lunio gweithrediad a oedd yn cyd-fynd â'r polisi, deall pa ddarpariaeth a oedd eisoes ar gael yn y rhanbarth, ategu prosiectau eraill a oedd yn rhan o'r un flaenoriaeth, amlygu meysydd lle roedd dyblygu posibl, adolygu ceisiadau drafft, rhoi cymorth i gael gafael ar ddata, ac egluro mesurau blaenoriaeth.

5.58 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn meddwl bod cyngor y Tîm Ymgysylltu wedi cryfhau eu ceisiadau am gyllid o gronfeydd ESI ar gyfer prosiectau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys dangos cysylltiadau â darpariaeth berthnasol arall, cynyddu nifer y partneriaid yr oedd yr ymgeisydd yn cysylltu â hwy, ac mewn un achos, ysgogi ymgeisydd i ddatblygu cynnig ar y cyd ag eraill.

5.59 Y prif fater a godwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent o'r farn bod y cyngor yn ddefnyddiol oedd amseriad: 'roedd ein prosiect ni eisoes wedi datblygu gryn dipyn erbyn i'r Timau Ymgysylltu gael eu sefydlu, felly nid oeddem yn gallu ymgysylltu â hwy tan yn gymharol hwyr yn y broses ymgeisio/datblygu'.

5.60 Yn ystod y cam cyflawni, roedd 13 (27 y cant) o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi cael cyngor gan o leiaf un Tîm Ymgysylltu, ac roedd naw o'r rhain wedi cael cyngor gan un Tîm a thri wedi cael cyngor gan bob un o'r pedwar Tîm. O'r rhain, roedd pob un heblaw un o'r farn bod y cyngor wedi bod yn ddefnyddiol iawn (saith) neu'n weddol ddefnyddiol (pump). Mewn dau achos roedd swyddogion y Timau Ymgysylltu wedi cyflawni rôl allweddol fel aelodau o fyrddau prosiect. Roedd y cyngor yn cael ei ystyried yn ddefnyddiol yn yr ystyr ei fod yn helpu gweithrediadau i sicrhau bod yr holl ranbarthau'n cael budd o ddarpariaeth, i'w helpu i ganfod ffyrdd o ymgysylltu â gweithrediadau eraill a diwydiant, ac i osgoi neu oresgyn dyblygu.

**Hwyluso rhwydweithio ac arfer da**

5.61 Roedd llunwyr polisïau'n disgwyl i'r Timau Ymgysylltu hwyluso cyfleoedd rhwydweithio er mwyn creu cysylltiadau, adnabod a rhannu arfer da yn ogystal â datrys problemau a materion. Roedd cyfranwyr yn meddwl bod cryn dipyn o adnoddau'r Timau Ymgysylltu wedi cael eu dyrannu i'r gweithgareddau hyn mewn perthynas â hwyluso rhwydweithiau, codi ymwybyddiaeth a hwyluso cysylltiadau rhwng sefydliadau allweddol ar lefel ranbarthol.

5.62 Mae tri o'r Timau Ymgysylltu wedi sefydlu rhwydweithiau parhaus ar lefel blaenoriaethau gyda'r amcan o ddwyn ynghyd weithrediadau ar lefel ranbarthol neu Gymru gyfan sy'n gweithredu o fewn yr un flaenoriaeth neu flaenoriaethau. Mae'r rhwydweithiau sy'n bodoli'n cynnwys:

- rhwydwaith Blaenoriaethau 1 a 3 ESF Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain[18]
- rhwydwaith Blaenoriaeth 2 ERDF Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain

[18] Er bod y rhain yn cael eu cadw ar wahân ar gyfer pob Blaenoriaeth tan fis Medi 2009.

- rhwydwaith Blaenoriaeth 2 ESF Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain
- rhwydwaith Blaenoriaeth 2 ERDF Bae Abertawe
- rhwydwaith Cyflogadwyedd ESF Bae Abertawe sy’n cwmpasu pob blaenoriaeth
- rhwydwaith Blaenoriaeth 1 ERDF ar y cyd rhwng y de ddwyrain a Bae Abertawe
- rhwydwaith Blaenoriaethau 1 a 3 ESF Tîm Ymgysylltu gogledd Cymru
- rhwydwaith Blaenoriaeth 2 ESF gogledd Cymru.

5.63 Hefyd, mae’r Timau Ymgysylltu wedi hwyluso digwyddiadau rhwydweithio unigol megis un a oedd yn canolbwyntio ar ddwyn prosiectau Cynhwysiant Egnïol CGGC a ariennir a phrosiectau ESF ynghyd. Maent hefyd wedi bod yn bresennol yn rheolaidd mewn rhwydweithiau a hwylusir gan eraill, megis rhwydwaith ERDF Blaenoriaeth 2 Cymru gyfan a gynullir gan WEFO.

5.64 Nid yw Tîm Ymgysylltu canolbarth Cymru yn hwyluso unrhyw rwydweithiau parhaus ar y sail nad oes ganddo’r mas critigol o gynrychiolwyr o weithrediadau a ariennir i gyfiawnhau gwneud hynny. Dadleuodd un cyfrannwr mai ychydig iawn o weithrediadau Cymru gyfan a oedd wedi’u lleoli yn y rhanbarth ac fe wnaeth y sylw: ‘yn syml mae diffyg pobl ar lawr gwlad i gyfiawnhau creu rhwydwaith’ yn y rhanbarth hwn.

5.65 Lle maent yn bodoli, mae rhwydweithiau a hwylusir gan y Timau Ymgysylltu, yn ogystal â digwyddiadau rhannu gwybodaeth eraill, yn uchel eu parch ar y cyfan. Ystyrir bod rhwydweithiau’n ffyrdd defnyddiol o gasglu gwybodaeth a datblygu cysylltiadau. Credir eu bod yn werthfawr hefyd fel ffyrdd o feithrin cysylltiadau rhwng gweithrediadau cenedlaethol a rhanbarthol. Fodd bynnag, mae eu defnyddioldeb yn dibynnu ar lefelau presenoldeb da o blith cynrychiolwyr priodol.

5.66 Roedd gweithrediadau a ariennir a rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy fel ei gilydd yn meddwl bod rhannu arfer da yn ystod digwyddiadau rhwydweithio a gwybodaeth wedi bod yn un o gryfderau mawr y rôl a gyflawnwyd gan y Timau Ymgysylltu hyd yma. Er enghraifft, dywedodd un gweithrediad a ariennir fod ‘y cyfarfodydd yn darparu ecosystem cymorth ar gyfer prosiectau, sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i ni’.

5.67 Mae gwerth rhai rhwydweithiau i weithrediadau wedi cynyddu dros amser o ystyried y newid amlwg sydd wedi digwydd o fod yn ddigwyddiadau sy’n canolbwyntio ar ddiweddariadau ‘pawb yn ei dro’ gan weithrediadau i fod yn ddigwyddiadau sy’n canolbwyntio ar themâu a datblygiadau ehangach. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn

croesawu’r natur ‘thematig’ a gyflwynwyd yn ddiweddar i rai rhwydweithiau, e.e. roedd un yn canolbwyntio ar dlodi. Roedd cynnwys rhai siaradwyr allanol allweddol i ddarparu trosolwg ar ddatblygiadau’n cael ei groesawu’n eang hefyd, gyda gweithrediadau diweddar Cymru’n Gweithio a Twf Swyddi Cymru yn cael eu henwi’n aml.

5.68 Cafodd rhai o’r rhwydweithiau a arweinir gan Dîm Ymgysylltu y de-ddwyrain eu henwi fel rhai a oedd yn arbennig o aeddfed ac yn gweithio’n effeithiol. Roedd cyfranwyr o’r farn bod y rhwydweithiau hyn yn arbennig o ddefnyddiol am fod sgyrsiau’n ‘fwy agored a gonest’ ac yn canolbwyntio ar themâu penodol yn hytrach na rhai generig. Dywedwyd bod un rhwydwaith yn y de-ddwyrain yn darparu amgylchedd ‘cartrefol’ iawn a oedd yn rhoi i fynychwyr y ‘cyfle i siarad gyda phobl eraill’ mewn ffordd ‘fwy hamddenol ... lai ffurfiol’. Mewn cyferbyniad, roedd cyfranwyr o’r farn nad oedd cyfarfodydd mwy wedi darparu’r un cyfleoedd i fynychwyr ‘feithrin perthnasoedd’ yn yr un modd.

5.69 Roedd cyfranwyr yn rhoi gwerth ar y cysylltiadau yr oeddent wedi llwyddo i’w sefydlu drwy’r rhwydweithiau gydag un yn ychwanegu ‘mae gennym fwy na thebyg berthnasoedd gweithio cryfach â phrosiectau eraill na phe na bai rhwydwaith y Tîm Ymgysylltu wedi bodoli’. Cyfeiriwyd at sawl enghraifft lle roedd mynychwyr wedi gallu sefydlu cysylltiadau newydd defnyddiol.

5.70 Er y barnwyd bod rhai rhwydweithiau wedi bod yn araf yn cael eu sefydlu, roedd yr adborth am eu defnyddioldeb yn gadarnhaol. Er enghraifft, roedd y rhai a oedd yn bresennol yng nghyfarfod rhwydwaith Blaenoriaeth 1 ERDF a gynhaliwyd ar y cyd yn ddiweddar gan dimau’r de-ddwyrain a Bae Abertawe o’r farn bod y digwyddiad yn ddefnyddiol o ran dod â mentrau a arweinir gan SAU at y bwrdd i gwrdd â phartneriaid eraill.

5.71 Fodd bynnag, nid oedd yr holl weithrediadau a ariennir y cyfwelwyd â hwy wedi cael eu gwahodd i fynychu rhwydweithiau’r Timau Ymgysylltu gydag un cyfrannwr o’r fath yn ychwanegu ‘Byddai diddordeb mawr gen i mewn mynychu digwyddiadau yn y rhanbarthau a oedd yn dod â gwahanol weithrediadau at ei gilydd, ond dydyn ni ddim wedi cael gwahoddiad’. Eglurodd y rhai a ddewisodd beidio â mynychu’r cyfarfodydd neu nad oeddent yn rhoi rhyw lawer o werth ar y rhwydweithiau eu bod yn tueddu i ddibynnu ar eu rhwydweithiau eu hunain (megis rhwydweithiau 3-SET

CGGC a chyfarfodydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) ac nad oeddent yn gweld bod llawer o angen bod yn rhan o ddigwyddiadau'r Timau Ymgysylltu.

5.72 Gan droi i ystyried canfyddiadau'r arolwg ar y we, roedd bron pob un o'r ymatebwyr i'r arolwg (44 o blith 49 o ymatebwyr) wedi mynychu digwyddiadau neu rwydweithiau a drefnwyd gan o leiaf un Tîm Ymgysylltu, gyda'r gyfran a oedd wedi mynychu rhwydweithiau Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain yn llawer uwch (sef 63 y cant neu 31 o ymatebwyr) na'r tri rhanbarth arall. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a oedd wedi mynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd rhwydweithiau eu bod wedi bod yn addysgiadol iawn (25 o ymatebwyr) neu'n weddol addysgiadol (14 o ymatebwyr). Yn yr un modd, roedd y mwyafrif o'r farn bod yr elfennau canlynol o ddigwyddiadau neu rwydweithiau'n ddefnyddiol:

- creu cysylltiadau newydd a chyfleoedd rhwydweithio rheolaidd
- cwrdd a thrafod gyda darparwyr gweithrediadau eraill a ariennir o gronfeydd ESI, gan gynnwys y rhai a ariennir o fewn yr un flaenoriaeth
- cwrdd a thrafod gyda sefydliadau nad oeddent yn rhan o weithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI
- cyflwyniadau addysgiadol, gan gynnwys gan gyfranwyr sy'n uwch swyddogion
- rhannu arfer da
- adnabod cyfleoedd i gydweithio
- cael gwybodaeth gyson am ddatblygiadau mewn polisïau, darpariaeth a datblygiadau rhanbarthol
- cael gwybodaeth gyson am gynnydd a wneir gan weithrediadau eraill
- mewnbwn gan WEFO.

5.73 Yn ogystal â'r digwyddiadau a'r rhwydweithiau a drefnir gan y Timau Ymgysylltu, roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg (41 o ymatebwyr) wedi mynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd rhwydweithiau lle roedd swyddogion y Tîm Ymgysylltu wedi bod yn bresennol hefyd. Eto, roedd y gyfran a ddywedodd fod hyn yn wir ar gyfer Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain (28 o ymatebwyr) yn uwch na'r niferoedd a ddywedodd fod hyn yn wir am y Timau Ymgysylltu eraill.

5.74 Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi cwrdd â swyddogion o leiaf un Tîm Ymgysylltu yn unigol (34 o ymatebwyr) neu wedi cael cyswllt â swyddogion Timau Ymgysylltu drwy'r e-bost neu dros y ffôn (37 o ymatebwyr). Dim ond wyth ymatebydd a oedd wedi cwrdd â swyddogion o fwy nag un Tîm Ymgysylltu yn

unigol, tra bod 13 o ymatebwyr wedi cysylltu â swyddogion o fwy nag un Tîm drwy'r e-bost neu dros y ffôn.

**Cyfathrebu**

*Cyfathrebu ynghylch cyfleoedd*

5.75 Roedd llunwyr polisïau'n disgwyl i'r Timau Ymgysylltu roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd i sefydliadau fod yn rhan o'r rhaglenni gweithredol drwy rannu gwybodaeth am gyfleoedd cyllido a rhoi anogaeth i ymgeisio am gyllid o gronfeydd ESI o fewn eu rhanbarth.

5.76 Mae'r holl Dimau Ymgysylltu wedi cynhyrchu a lledaenu e-gylchlythyrau sy'n nodweddiadol yn cynnwys gwybodaeth am alwadau cyllido sydd ar fin cael eu cyhoeddi yn ogystal ag agweddau eraill megis diweddariadau ar weithrediadau a ariennir, enghreifftiau o arfer da a fabwysiadwyd gan weithrediadau penodol, hysbysiadau ynghylch digwyddiadau sydd ar fin cael eu cynnal, datblygiadau sy'n gysylltiedig â Brexit a storïau newyddion da. Mae'r holl Dimau Ymgysylltu yn rheoli cronfeydd data mawr o gysylltiadau (e.e. tua 500 o gysylltiadau yn achos un Tîm Ymgysylltu) at ddibenion dosbarthu'r e-gylchlythyrau hyn.

5.77 Roedd gan weithrediadau a ariennir a rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy atgof da o gael cylchlythyrau gan o leiaf un Tîm Ymgysylltu ac at ei gilydd byddai'n ymddangos eu bod yn cael eu darllen. Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr yn cael y cylchlythyrau hyn yn ddefnyddiol yn yr ystyr eu bod yn 'rhoi blas i chi ar yr hyn sy'n digwydd' neu ddiweddariad ar ffurf 'ciplun' megis gweithrediadau y rhoddir estyniad iddynt. Dim ond dyrnaid wnaeth gwestiynu defnyddioldeb y cyfathrebu a gafwyd, gan briodoli hyn yn rhannol i'r ffaith eu bod 'wedi bod yn rhan o brosiectau Ewropeaidd ers cyn cof' ac nad oeddent yn teimlo bod ganddynt lawer i'w ddysgu. Soniodd rhai, sy'n cael cylchlythyrau gan fwy nag un Tîm Ymgysylltu, am y gwahaniaeth yn eu hamlder gan awgrymu bod rhai un fwy rhagweithiol na'i gilydd o ran lledaenu gwybodaeth.

5.78 Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr i'r arolwg (41 o 49) wedi cael gwybodaeth megis e-fwletinau neu gylchlythyrau gan o leiaf un Tîm Ymgysylltu er ei bod yn syndod efallai o gofio bod pob Tîm Ymgysylltu yn cyhoeddi adnoddau o'r fath, mai dim ond 13 o ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael rhai gan fwy nag un Tîm Ymgysylltu. Roedd y mwyafrif o'r farn bod yr e-fwletinau neu'r cylchlythyrau naill ai'n addysgiadol iawn (chwe ymatebydd) neu'n weddol addysgiadol (27 o ymatebwyr).

Roedd cyfrannau tebyg o’r farn bod yr e-fwletinau neu’r cylchlythyrau naill ai’n ddefnyddiol iawn (saith ymatebydd) neu’n weddol ddefnyddiol (26 o ymatebwyr). Ystyriwyd bod yr adnoddau’n ddefnyddiol am eu bod yn darparu:

- gwybodaeth am gyfleoedd cyllido sydd ar fin cael eu cyhoeddi
- diweddariadau ar ddatblygiadau sy’n gysylltiedig â WEFO gan gynnwys diweddariadau ar lefel rhaglenni
- gwybodaeth sy’n berthnasol yn rhanbarthol, gan gynnwys data megis ystadegau’r farchnad lafur
- diweddariadau ar ddatblygiadau polisi a datblygiadau partneriaethau rhanbarthol
- gwybodaeth am weithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI, gan gynnwys astudiaethau achos
- cyfle i weithrediadau rannu gwybodaeth amdanynt hwy eu hunain gydag eraill.

5.79 Gofynnwyd i’r ymatebwyr i’r arolwg hefyd am effeithiolrwydd gwaith y Timau Ymgysylltu o ran rhannu enghreifftiau o arfer da o fewn eu rhanbarth gyda hwy. Roedd rhyw ddwy ran o dair yn meddwl bod y Timau yn cyflawni’r rôl hon naill ai’n effeithiol iawn (13 o ymatebwyr) neu’n weddol effeithiol (17 o ymatebwyr). Tra bo chwech ddim yn gwybod, dywedodd y chwarter sy’n weddill (13 o ymatebwyr) nad oedd y rôl yn cael ei chyflawni’n effeithiol neu fod y sefyllfa’n amrywio o un Tîm Ymgysylltu i’r llall.

5.80 Adeg drafftio’r adroddiad hwn, roedd dau Dîm Ymgysylltu yn darparu gwybodaeth am eu gweithgareddau ar-lein. Roedd un o’r rhain (Bae Abertawe) wedi gwneud hynny’n ddiweddar iawn, gan gynhyrchu tudalen we ar wefan ei awdurdod lletyol yn ystod haf 2019. Mae’r llall (y de-ddwyrain), sy’n gweithredu fel gwefan benodedig, yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr am y Tîm Ymgysylltu ac yn cynnwys gwybodaeth megis ei fwletinau.

*Cyhoeddusrwydd*

5.81 Roedd llunwyr polisïau’n disgwyl i’r Timau Ymgysylltu godi proffil cyllid o gronfeydd ESI ar lefel ranbarthol drwy hyrwyddo llwyddiannau a chyflawniadau prosiectau, gan gynnwys drwy ddatganiadau i’r wasg. Roedd targedau allbwn ar gyfer cynhyrchu datganiadau i’r wasg yn cael eu dyrannu i’r Timau Ymgysylltu hefyd. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i’r Timau Ymgysylltu fod WEFO yn ateb y gofyniad hwn yn uniongyrchol ac, o ganlyniad, daeth rôl y Timau Ymgysylltu o ran paratoi a dosbarthu datganiadau i’r wasg i roi cyhoeddusrwydd i ddyfarniadau cyllid i

weithrediadau newydd yn arbennig yn afraid. O ganlyniad, cafodd eu targed i gyhoeddi datganiadau i'r wasg ei leihau.

5.82 Er bod y cyfranwyr yn cydnabod yn gyffredinol bod y penderfyniad hwn wedi bod yn briodol yng ngoleuni'r materion a wynebwyd, nid oedd yr holl gyfranwyr wedi bod yn hapus gydag ef ac aethant ati i lunio dadl gref pam y dylai WEFO lacio'i pholisïau ar gyfathrebu er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r Timau Ymgysylltu roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau ar lefel ranbarthol. Dadleuodd un fel a ganlyn: 'Byddai'n dda gen i pe bai WEFO yn llacio'i gafael ychydig lle mae cyhoeddusrwydd yn y cwestiwn...ac yn mabwysiadu model mwy organig. Mae pobl yn dewis a dethol pa newyddion y mae arnynt eisiau gwrando arnynt... mae'r cysyniad datganiadau i'r wasg yn ofnadwy o hen ffasiwn'.

5.83 Er gwaethaf hyn, mae rôl y Timau Ymgysylltu i roi cyhoeddusrwydd i elfennau eraill sy'n ymwneud â chyllid o gronfeydd ESI wedi parhau ac mae adborth gan randdeiliaid a gweithrediadau a ariennir yn dangos bod hyn yn gyson wedi cynnwys gofyn am wybodaeth gan weithrediadau i gael ei chyflwyno fel astudiaethau achos at ddibenion lledaenu. Mae hefyd wedi golygu lledaenu gwybodaeth ar ran WEFO gan gynnwys galwadau ar gyfer cyllid o gronfeydd ESI, gan gynnwys mewn perthynas â rhaglenni heblaw ESF ac ERDF megis Horizon 2020 a'r rhaglenni trawsffiniol Tiriogaethol, yn ogystal ag astudiaethau achos o weithrediadau sydd â gogwydd rhanbarthol neu sydd wedi gweithio gyda busnesau o'r rhanbarth hwnnw. Gwnaeth un o gynrychiolwyr WEFO y sylw 'rydym yn cynhyrchu'r pethau ar y lefel uchaf ond mae angen cysylltu hyn â sefydliadau lleol – felly mae'r Timau Ymgysylltu yn bwysig i wasanaethu eu hallfeydd gwybodaeth lleol. Gallant hefyd ychwanegu eu gwybodaeth a newyddion lleol a rhanbarthol hwy eu hunain.

5.84 Roedd cyfranwyr yn meddwl bod presenoldeb y Timau Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol heb ddatblygu digon ar y cyfan er bod ffrwd Twitter Tîm Ymgysylltu y de-ddwyrain wedi'i hamlygu fel arfer da. Roedd cyfranwyr yn cydnabod bod y Timau Ymgysylltu yn wynebu talcen caled o ran bwrw'r maen i'r wal ar y cyfryngau cymdeithasol gydag un cyfrannwr o'r fath yn ychwanegu y 'bydd wastad yn anodd i Dimau Ymgysylltu fod ag ôl troed arwyddocaol ar y cyfryngau cymdeithasol'.

**Y berthynas rhwng y Timau Ymgysylltu a WEFO**

5.85 Mae'r Timau Ymgysylltu yn ymgysylltu â WEFO mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys drwy grŵp llywio trosfwaol, cyfarfodydd unigol gydag un o swyddogion WEFO a

phresenoldeb staff WEFO yn nigwyddiadau rhwydweithio a gwybodaeth y Timau Ymgysylltu. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiadau chwarterol i WEFO sy'n nodi cynnydd a gwybodaeth am gyflawni allbynnau.

5.86 Canfu'r gwerthusiad fod perthnasoedd gwaith adeiladol rhwng y Timau Ymgysylltu a WEFO. Amlygwyd grŵp llywio'r Timau Ymgysylltu fel fforwm arbennig o effeithiol gan y Timau eu hunain a swyddogion WEFO fel ei gilydd i rannu datblygiadau, darparu adborth a thrafod materion cyffredin. Mae swyddogion Timau Ymgysylltu yn arbennig yn gwerthfawrogi cyfarfodydd y grŵp llywio fel cyfle i gwrdd â'r Timau Ymgysylltu eraill a thrafod materion cyffredin gyda hwy. Ar ben hynny, roedd rhai cyfranwyr yn meddwl bod y grŵp llywio wedi bod o gymorth o ran nodi sut y gallai WEFO ddefnyddio capasiti a rhwydweithiau'r Timau Ymgysylltu yn effeithiol i ledaenu gwybodaeth ar eu rhan.

*Deall rolau WEFO a'r Timau Ymgysylltu*

5.87 Roedd gweithrediadau a ariennir yn llai ymwybodol o'r berthynas rhwng y Timau Ymgysylltu a WEFO, yn bennaf am nad oedd wedi bod yn ofynnol iddynt geisio cymorth gan y Timau Ymgysylltu i ymgysylltu â WEFO ar eu rhan. Awgrymodd nifer eu bod yn cael cyswllt uniongyrchol â WEFO mewn perthynas â chyflawni eu gweithrediad ac nad oedd y Timau Ymgysylltu wedi cael eu codi gan WEFO yn y sgyrsiau hyn. Er enghraifft, fe wnaeth un cyfrannwr o'r fath y sylw canlynol: 'Ni chrybwyllodd WEFO y Timau Ymgysylltu wrthym erioed [yn ystod cyfarfodydd diweddaru]'. O ganlyniad, nid oedd yn beth anghyffredin i weithrediadau a ariennir awgrymu nad oedd Timau Ymgysylltu yn amlwg yn null rheoli contractau WEFO ar gyfer gweithrediadau a ariennir ar ôl i'r gweithrediadau gael eu cymeradwyo. Nid oedd un er enghraifft wedi'i argyhoeddi bod 'WEFO i gyd yn gwybod beth allai'r Timau Ymgysylltu ei wneud drostynt'.

5.88 Fodd bynnag, dywedodd nifer o weithrediadau a ariennir fod swyddogion WEFO yn fynychwyr rheolaidd yn nigwyddiadau rhwydweithio a gwybodaeth Timau Ymgysylltu a bod y strwythur hwn wedi helpu i fynd i'r afael â materion a gododd mewn perthynas â chyngor WEFO i weithrediadau. Yn amlwg, roedd rhai gweithrediadau a ariennir o'r farn bod y Timau Ymgysylltu yn llais ar ran gweithrediadau unigol ac yn fecanwaith i godi materion cyffredin ar eu rhan gyda WEFO.

5.89 Roedd gweithrediadau a ariennir yn cyfeirio'n gyson at y ffaith bod rôl WEFO yn canolbwyntio ar fonitro eu gweithrediad tra bod y Timau Ymgysylltu yn canolbwyntio ar faterion rhanbarthol. Dywedwyd yn aml fod gweithrediadau a ariennir yn trafod materion sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid gyda WEFO ond bod trafodaethau gyda'r Timau Ymgysylltu yn canolbwyntio ar berthnasedd eu darpariaethau i'r rhanbarth: 'maent yn awyddus i wneud yr hyn allant i gynyddu ein heffaith ar y rhanbarth i'r eithaf'.

# 6. Allbynnau a chanlyniadau

6.1 Mae'r bennod hon yn ystyried perfformiad y Timau Ymgysylltu hyd yma o ran dangosyddion targed a chyllid y gweithrediad. Mae wedyn yn trafod y tebygolrwydd y bydd y gweithrediad yn cyflawni ei ganlyniadau bwriadedig. Mae'r bennod hon yn defnyddio barn y rhai a gyfwelwyd wrth ystyried i ba raddau y mae'r Timau Ymgysylltu yn cyflawni'r chwe chanlyniad canolradd a nodir ym model y Ddamcaniaeth Newid.

### Allbynnau

6.2 Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gyflawni pum dangosydd Allbwn Rhaglen ar gyfer Blaenoriaeth 4, y caiff pedwar ohonynt eu nodi yn Nhabl 6.1, er bod eu targed i gyhoeddi datganiadau i'r wasg wedi cael ei ostwng yn ddiweddarach (fel y trafodwyd ym Mhennod 5). Roedd y pumed targed yn ymwneud â nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn y mae eu cyflogau'n cael eu cydgyllido gan Gymorth Technegol. Mae'n werth ailddatgan bod dangosyddion allbwn wedi'u cyflwyno ar gyfer darpariaeth Cymorth Technegol am y tro cyntaf yn ystod y rhaglen weithredol hon.

**Tabl 6.1: Dangosyddion targed y Timau Ymgysylltu a'r cyflawniadau hyd yma**

| | Digwyddiadau Hyfforddi | Digwyddiadau Lledaenu | Datganiadau i'r Wasg | e-Gylchlythyrau |
|---|---|---|---|---|
| *Targedau gwreiddiol* | | | | |
| De-ddwyrain | 4 | 4 | 50 | 20 |
| Bae Abertawe | 4 | 4 | 28 | 16 |
| Canolbarth | 0 | 5 | 10 | 10 |
| Gogledd | 3 | 8 | 8 | 48 |
| *Targedau diwygiedig* | | | | |
| De-ddwyrain | 22 | 4 | 4 | 40 |
| Bae Abertawe | 6 | 12 | 4 | 26 |
| Canolbarth | 0 | 5 | 10 | 2 |
| Gogledd | 4 | 14 | 8 | 60 |
| *Wedi'u cyrraedd hyd yma* | | | | |
| De-ddwyrain | 13 | 0 | 0 | 20 |
| Bae Abertawe | 3 | 6 | 4 | 11 |
| Canolbarth | 0 | 4 | 2.95 | 2 |
| Gogledd | 2 | 12 | 0 | 41 |

Ffynhonnell: WEFO. Data ym mis Hydref 2019

6.3 Gan ddiystyru'r targed sy'n ymwneud â datganiadau i'r wasg, roedd cyfranwyr o'r farn bod dangosyddion allbwn eraill yn briodol yn yr ystyr mai 'allbynnau' oeddent yr oedd y Timau Ymgysylltu yn eu cynhyrchu beth bynnag fel rhan o'u rôl. Awgrymodd swyddogion y Timau Ymgysylltu nad oedd eu targedau'n arbennig o heriol yn yr ystyr nad oeddent yn ganlyniadau a oedd yn adlewyrchu'r gwahaniaeth y gallent ei wneud i'w rhanbarthau.

6.4 O ran cyrraedd eu targedau, roedd tri Thîm Ymgysylltu yn tangyflawni yn erbyn y targedau a broffiliwyd ar eu cyfer a chytunodd WEFO y gellid eu hailbroffilio. Yn yr achosion hyn, cafodd targedau eu gostwng ond eu cynyddu ar gyfer Tîm Ymgysylltu gogledd Cymru. Mae dadansoddiad o berfformiad hyd yma'n awgrymu bod y Timau Ymgysylltu yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau diwygiedig, a hwythau wedi cyrraedd dros hanner eu targedau cyfunol ar gyfer digwyddiadau hyfforddi, digwyddiadau lledaenu ac e-gylchlythyrau. Mae adborth gan y Timau Ymgysylltu yn

ystod y gwaith maes yn awgrymu eu bod yn hyderus y byddant yn cyrraedd eu targedau diwygiedig cyn diwedd y rhaglen.

**Cyllid**

6.5 Dyrannwyd cronfa ESI gwerth £2.55 miliwn i weithrediadau'r Timau Ymgysylltu. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd yr holl Dimau Ymgysylltu yn adrodd ar danwariant yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd ar eu cyfer, yn bennaf oherwydd oedi cychwynnol cyn rhoi gweithrediadau ar waith ond hefyd oherwydd tanwariant ar farchnata ac, mewn un achos, ar staffio. Cytunodd WEFO i ailbroffilio tanwariant y Timau Ymgysylltu yn unol â chyfnod estyniad y gweithrediad, tan fis Mehefin 2023.

6.6 Roedd y mater allweddol a godwyd gan y cyfranwyr a oedd yn gyfarwydd â chyllidebu ar gyfer Timau Ymgysylltu yn ymwneud â'r lefelau cyllidebau amrywiol a bennwyd ar gyfer pob Tîm, gan fod hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â'r gwerth am arian y gallai pob Tîm Ymgysylltu unigol ei gynnig. Er ei bod yn ddealladwy y dylai un Tîm Ymgysylltu, a oedd yn gwasanaethu ardaloedd dau awdurdod lleol yn unig, gael cyfran lai o'r gyllideb ar y cyfan roedd yn amheus a ddylai un Tîm gael bron i draean o'r gyllideb. Dadleuwyd y dylid mabwysiadu model cyllido tecach ar gyfer unrhyw ymyriad tebyg yn y dyfodol.

**Themâu Trawsbynciol**

6.7 Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan y Timau Ymgysylltu yn dangos eu bod yn cofleidio nifer o'u hamcanion sy'n ymwneud â themâu trawsbynciol. Yn arbennig, mae'r holl adnoddau megis astudiaethau achos, cylchlythyrau a deunydd cyfathrebu'n cael eu paratoi'n ddwyieithog a'u dosbarthu drwy ddulliau electronig. Cadarnhaodd swyddogion y Timau Ymgysylltu eu bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y disgwylir i awdurdodau lleol eu cyrraedd. Mae digwyddiadau megis digwyddiadau rhwydweithio'n cael eu cynllunio ar gyfer amseroedd a lleoliadau sy'n addas i bawb allu bod yn bresennol. Mae swyddogion y Timau Ymgysylltu yn mynd i'r afael â'u gwaith yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl e.e. rhannu ceir wrth deithio i gyfarfodydd a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle y bo'n bosibl.

6.8 Fodd bynnag, mae rhai o'r camau gweithredu arfaethedig a nodir yng nghynlluniau busnes y Timau Ymgysylltu heb gael eu gwireddu eto. Mae llai o dystiolaeth ar gael i ddangos sut y mae'r Timau Ymgysylltu wedi mynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol wrth brawf-fesur gweithrediadau o safbwynt rhanbarthol. Mae cyfle hefyd i'r Timau ddatblygu astudiaethau achos arfer da sy'n hyrwyddo ac yn dangos sut y mae

gweithrediadau wedi mynd ar drywydd themâu trawsbynciol, gan gynnwys astudiaethau achos sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Ni chafodd amcan un Tîm Ymgysylltu i benodi hyrwyddwr themâu trawsbynciol o fewn y tîm ei gwireddu, ond y deallir bod y tîm yn rhannu arfer gorau o ran themâu trawsbynciol yn ystod cyfarfodydd rhwydwaith y Tîm Ymgysylltu.

**Canlyniadau**

6.9 Cydnabuwyd yn gyffredinol ei bod yn anodd canfod y gwahaniaeth a wnaed o ganlyniad i waith y Timau Ymgysylltu, gan fod eu cylch gwaith yn canolbwyntio ar waith hwyluso, cydgysylltu ac ymgysylltu. Pwysleisiodd swyddogion y Timau Ymgysylltu yn arbennig, er bod eu gwybodaeth, eu cysylltiadau a'u harbenigedd yn ychwanegu gwerth at yr economi ranbarthol, na fyddai'n bosibl ei fesur mewn ffordd bendant.

6.10 Cydnabuwyd yn gyffredinol hefyd mai dim ond i ryw raddau y gellid byth disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gyfrannu at y dirwedd ranbarthol ehangach o ystyried eu bod, i bob pwrpas, yn rhan fach iawn o'r darlun mawr. Yn hyn o beth, dadleuodd rhai fod cwtogi ar eu rôl yn golygu bod 'eu rôl wedi cael ei lleihau i'r fath raddau fel ei bod yn anodd iawn iddynt gynnig gwasanaeth cynhwysfawr'.

6.11 O ran cyflawni eu briff, roedd rhyw bedwar o bob pump o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod y Timau Ymgysylltu yn cyflawni eu rôl naill ai'n dda iawn (20 o ymatebwyr) neu'n weddol dda (20 o ymatebwyr). Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn meddwl bod y Timau Ymgysylltu:

- yn rhagweithiol, yn hawdd mynd atynt ac yn barod i helpu
- yn wybodus, yn meddu ar wybodaeth dda, yn ddiplomataidd ac yn 'ddymunol fel pobl i gydweithio gyda hwy'
- yn ddolen gyswllt a chyfrwng allweddol i rwydwaith rhanbarthol mawr o gysylltiadau.

6.12 Fodd bynnag, nid oedd un o bob deg (pum ymatebydd) yn meddwl bod y Timau Ymgysylltu yn cyflawni eu rôl[19] oherwydd:

- materion yn ymwneud â chapasiti staff, a oedd yn arwain at ddull adweithiol yn hytrach na rhagweithiol
- bod pobl wedi'u penodi i rolau ar lefel rhy isel i fod ag awdurdod

[19] Nid oedd y pedwar ymatebydd arall yn gwybod.

- dryswch rhwng rôl y Timau Ymgysylltu a rolau strwythurau rhanbarthol eraill, a bod cyflwyno'r Timau Ymgysylltu wedi ychwanegu haen arall at strwythurau presennol ac esblygol.

6.13 Credwyd bod eu prif gyflawniadau hyd yma'n ymwneud ag ymgysylltu, cyfathrebu a rhwydweithio o fewn rhanbarthau. Roedd y presenoldeb da parhaus yn y rhan fwyaf o rwydweithiau'n tystio i'r angen am y digwyddiadau hyn a'u defnyddioldeb. Dadleuodd yr ymatebwyr i'r arolwg yn arbennig fod y Timau Ymgysylltu yn gweithredu fel 'gwasanaeth rhannu gwybodaeth da' ac yn 'bwysig iawn i ddod â'r rhanbarth ynghyd a mynd i'r afael â phryderon gyda'r bobl iawn ar y lefel iawn yn WEFO a Llywodraeth Cymru. Maent wedi gwneud gwahaniaeth i'r berthynas weithio ranbarthol'.

6.14 Roedd hefyd yn wir bod cyfweleion yn meddwl bod y Timau Ymgysylltu yn darparu llais rhanbarthol cryfach, er enghraifft mewn trafodaethau gyda WEFO a Llywodraeth Cymru. Mae'r Timau Ymgysylltu wedi gweithredu fel cyfryngwyr gyda WEFO wrth ymdrin â materion, sydd weithiau'n gyffredin i lawer, a wynebir gan weithrediadau. I roi enghraifft, roedd yn ofynnol i un gweithrediad a arweinir gan Sefydliad Addysg Bellach ddod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer darpariaeth i uwchsgilio staff: 'Roedd WEFO wedi mynnu ein bod yn codi tâl am ein harlwy, ac yna cafodd nifer o Raglenni ESF eu cymeradwyo ar ôl hynny sydd wedi bod yn rhad ac am ddim. Mae hyn yn tanseilio'r newid diwylliannol i ofyn i gwmnïau dalu rhywbeth am eu hyfforddiant. Mae'r Tîm Ymgysylltu wedi ein helpu i amlygu hyn fel pryder'.

6.15 Yn ôl y disgwyl, o ystyried nad oedd yn rhan o gylch gwaith y Timau Ymgysylltu, roedd gweithrediadau a ariennir yn meddwl bod y gwahaniaeth a wnaed gan y Timau Ymgysylltu i'w gweithrediadau eu hunain yn weddol fach ac yn tueddu i ymwneud â meithrin perthynas â chyfranwyr eraill. Fodd bynnag, roedd barn bod y Timau wedi gallu dylanwadu ar rai prosiectau cenedlaethol drwy sicrhau eu bod yn mabwysiadu safbwynt rhanbarthol: 'Mae'r Timau Ymgysylltu yno i ddarparu lefel o graffu'.

*Nifer ddigonol o weithrediadau rhanbarthol neu weithrediadau ar lefel Cymru gyfan â chwmpas da ar draws y rhanbarth*

6.16 At ei gilydd, roedd y cyfranwyr yn meddwl bod niferoedd digonol o weithrediadau rhanbarthol neu weithrediadau ar lefel Cymru gyfan yn eu lle, ac nid amlygwyd

unrhyw fylchau penodol yn ystod y gwerthusiad. Lle roedd bylchau o'r fath wedi cael eu nodi, e.e. cymorth i ddechrau mentrau cymdeithasol newydd, nodwyd bod gweithrediadau newydd wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael â hwy.

6.17 Bu cryn drafodaeth ynghylch a oedd y Timau Ymgysylltu mewn sefyllfa i allu dangos y gwahaniaeth yr oeddent yn ei wneud i'r canlyniad hwn o ystyried nad oedd ganddynt unrhyw swyddogaethau dyfarnu cyllid. Er gwaethaf hyn, dyfynnwyd nifer o enghreifftiau lle roedd y Timau Ymgysylltu wedi gallu hyrwyddo galwadau cyllido mewn meysydd blaenoriaeth penodol a oedd yn tanwario o fewn eu rhanbarth er mwyn ennyn diddordeb ymhlith darpar ymgeiswyr. Roedd hefyd yn wir bod nifer o enghreifftiau wedi cael eu henwi lle roedd y Timau Ymgysylltu wedi bod yn rhan o brawf-fesur prosiectau asgwrn cefn cenedlaethol yn ôl-weithredol gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn y rhanbarth yn unol â'r angen. Credwyd bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu bwrw'r maen i'r wal yn fwy gyda phrosiectau asgwrn cefn ESF nag oeddent wedi'i wneud gyda gweithrediadau buddsoddi cyfalaf ERDF yn hyn o beth. Ar ben hynny, credwyd mai llwyddiant arall oedd gwaith a wnaed gan y Timau Ymgysylltu i roi anogaeth ar gyfer llai o weithrediadau, a'r rheiny'n weithrediadau mwy o faint, a oedd wedi arwain nid yn unig at lai o ddyblygu, ond hefyd at fwy o effeithlonrwydd yn eu tyb hwy.

*Gweithrediadau yn y rhanbarthau sy'n gyson â strategaethau rhanbarthol*

6.18 Neges gref a gyflëwyd gan weithrediadau a rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy fel ei gilydd oedd bod y Timau Ymgysylltu yn cyfrannu at ddimensiwn rhanbarthol cynyddol i'r rhaglenni gweithredol cyfredol a'u bod yn sicrhau bod rhaglenni wedi'u cysoni'n well ag agenda ranbarthol esblygol. Er enghraifft, gwnaeth un cyfrannydd y sylw canlynol: 'mae gennym ddimensiwn rhanbarthol cryfach i Raglenni Gweithredol nag a fyddai wedi bod gennym fel arall'. Roedd hefyd yn cael ei nodi'n aml bod rhwydweithiau rhanbarthol yn gryfach o lawer o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau'r Timau Ymgysylltu nag y byddent wedi bod fel arall.

6.19 Roedd gweithrediadau cenedlaethol y cyfwelwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn meddwl bod eu darpariaethau, a oedd yn gyson fwy neu lai o ran eu harlwy ledled Cymru, wedi gallu rhoi ystyriaeth i wybodaeth a strwythurau rhanbarthol. Dadleuwyd bod y dimensiwn rhanbarthol wedi cael ei hybu gan nifer o ffactorau gan gynnwys amcanion strategol rhanbarthol mwy eglur a nodwyd gan bartneriaethau rhanbarthol a gallu Timau Ymgysylltu i gyfleu'r rhain yn effeithiol i ddarparwyr sy'n

cyflawni'r gweithrediadau. Yn achos gweithrediadau a arweinir gan Sefydliadau Addysg Uwch roedd disgwyliad hefyd y byddai gwaith craffu gan y Timau Ymgysylltu i ganfod faint o ymyriadau a oedd yn digwydd yn rhanbarthol yn arwain yn y pen draw at fwy o fanteision economaidd rhanbarthol.

6.20 Credwyd bod y Timau Ymgysylltu wedi cyflawni rôl bwysig o ran sicrhau bod gweithrediadau a ariennir drwy rai o flaenoriaethau'r rhaglenni'n gyson â strategaethau rhanbarthol. Roedd y Timau Ymgysylltu wedi cael yr orchwyl i flaenoriaethu ceisiadau a fyddai'n cael eu gwneud ar gyfer Blaenoriaeth 4 ERDF Amcan Strategol 4 (Safleoedd ac Adeiladau Strategol), ond cymysg iawn oedd yr adborth ar lwyddiant y broses hon: ar y naill law roedd rhai yn dadlau bod Timau Ymgysylltu wedi gweithredu fel 'brocer gonest' o ran blaenoriaethu prosiectau ar draws awdurdodau lleol tra bod eraill o'r farn eu bod wedi llesteirio, yn hytrach na chynorthwyo, y broses flaenoriaethu.

*Gweithrediadau yn y rhanbarthau sy'n ategu gweithrediadau eraill ac ymyriadau nas ariennir gan yr UE sy'n cael eu cyflawni yn y rhanbarth*

6.21 Mae'r Timau Ymgysylltu wedi cyflawni ystod o weithgareddau, yn arbennig cyfleoedd rhwydweithio, a oedd wedi darparu cyfleoedd i weithrediadau ac ymyriadau nas ariennir gan yr UE i gydweithio. O ganlyniad uniongyrchol i'r rhain, credwyd bod staff rheng-flaen yn dod yn fwy gwybodus am ddarpariaethau eraill ac mewn sefyllfa well i atgyfeirio cyfranogwyr at weithrediadau eraill a allai fod o fudd iddynt.

6.22 Roedd y cyfranwyr yn meddwl bod hwn yn un canlyniad lle roedd Timau Ymgysylltu yn gwneud gwahaniaeth go iawn: 'Mae Timau Ymgysylltu wedi cymryd yr hyn a gymeradwywyd er mwyn gweithio gyda'i gilydd...maent wedi codi pontydd, maent wedi gwella gwybodaeth am ei gilydd'. Yn arbennig, cafodd y Timau Ymgysylltu eu canmol yn benodol am eu hymdrechion i gynyddu'r cyfathrebu rhwng gweithrediadau cenedlaethol mwy a gweithrediadau lleol, er bod hyn yn digwydd i raddau amrywiol rhwng pob un o'r pedwar Tîm Ymgysylltu. Roedd barn bod y Timau wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran ennyn ymgysylltiad gweithrediadau a arweinir gan SAU ar y lefel ranbarthol.

*Gweithrediadau yn y rhanbarth sy'n osgoi dyblygu ei gilydd ac ymyriadau eraill yn y rhanbarth*

6.23 Ar y cyfan, er bod y rhai a gyfwelwyd yn meddwl bod problemau parhaus o ran gorgyffwrdd rhwng darpariaethau sydd ar gael yn y cyfnod rhaglenni hwn, eu canfyddiad oedd bod y gorgyffwrdd yn llai nag mewn rhaglenni blaenorol. Roedd sawl ffactor yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys canllawiau rhaglenni'n nodi'r angen am weithrediadau mwy strategol sy'n fwy o faint. Credwyd bod dyblygu'n digwydd yn bennaf ar draws y rhaglen ESF: i roi enghraifft, dadleuwyd fod llwyth o ddarpariaethau yn un rhanbarth a oedd yn targedu'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ond bod y cyflenwad yn fwy na'r galw.

6.24 Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr yn meddwl mai dim ond cyfraniad bach y gellid disgwyl i'r Timau Ymgysylltu ei wneud at y canlyniad hwn yng ngoleuni ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar hyn. Er bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu amlygu meysydd posibl lle ceir dyblygu mewn ceisiadau am gyllid, nid oeddent erioed wedi'u bwriadu i fod ag unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau ynghylch cyllid. O ran arfer da, rhoddodd y Timau Ymgysylltu gymorth i grŵp o Golegau Addysg Bellach i gydweithio i ddatblygu cais ar y cyd, a thybiwyd fod hyn wedi mynd ran o'r ffordd tuag at ymdrin â dyblygu posibl.

6.25 Credwyd bod mewnbwn y Timau Ymgysylltu wedi bod yn allweddol i helpu'r gweithrediadau hynny a allai ddyblygu darpariaeth ei gilydd i osgoi hyn yn ystod y broses weithredu, drwy greu cysylltiadau a rhoi anogaeth i gydweithio. Credwyd mai un o'r llwyddiannau penodol fu'r ffordd yr oedd y Timau Ymgysylltu wedi gallu hwyluso cysylltiadau rhwng ymyriadau cenedlaethol a rhanbarthol.

6.26 O ganlyniad, roedd barn y byddai mwy o ddyblygu wedi digwydd wrth gyflawni'r ddarpariaeth pe na bai'r Timau Ymgysylltu yn bodoli. Daeth nifer o'r rhai a gyfwelwyd i'r casgliad fod y Timau Ymgysylltu wedi lleihau dyblygu, ond nid ei ddileu.

*Sefydliadau rhanbarthol perthnasol yn ymwneud â gweithrediadau a gyflawnir yn y rhanbarth*

6.27 Roedd y cyfranwyr o'r farn bod y sefydliadau cywir yn ymwneud â chyflawni gweithrediadau yn eu priod ranbarthau ac roeddent yn meddwl eu bod yn cynnwys yr 'un hen rai' gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, SAU, SAB, y trydydd sector a hefyd (ond i raddau llai) y sector preifat. Er na chanfuwyd unrhyw

fylchau sefydliadol penodol, roedd y cyfranwyr yn ei chael hi'n anodd priodoli hyn i rôl y Timau Ymgysylltu. Roedd y mwyafrif llethol o'r gweithrediadau a ariennir yn meddwl y byddent wedi dod yn rhan o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd hyd yn oed heb ymyriad y Tîm Ymgysylltu, gan ychwanegu bod y Tîm Ymgysylltu wedi gallu ychwanegu mwy o werth at eu trefniadau cydweithio gyda gweithrediadau eraill ar lefel ranbarthol neu ar lefel Cymru gyfan.

*Niferoedd da o bobl a busnesau yn y rhanbarth yn manteisio ar weithrediadau*

6.28 O ran y niferoedd sydd wedi manteisio ar weithrediadau, roedd y rhan fwyaf o weithrediadau a ariennir y cyfwelwyd â hwy yn meddwl eu bod naill ai ar y trywydd cywir neu'n debygol o ragori ar eu targedau, er bod rhai'n gweithio tuag at dargedau diwygiedig: 'rydym yn carlamu tuag at ein targedau a byddwn fwy na thebyg yn chwilota am arian ychwanegol ar ddiwedd y rhaglen'. Dywedodd lleiafrif eu bod yn tanberfformio ar hyn o bryd gan ychwanegu y bu 'peth llithriant' ac y gallent fod yn 'perfformio'n well'. Fe wnaeth y Timau Ymgysylltu ailddatgan y farn hon, gan ychwanegu bod adborth gan weithrediadau'n awgrymu bod y mwyafrif yn perfformio'n dda. Ar y cyfan, dywedodd y gweithrediadau fod y niferoedd a oedd yn manteisio ar eu gweithrediadau yn y cyfnod rhaglenni hwn yn well nag mewn rhaglenni blaenorol.

6.29 Dywedodd rhai hefyd fod dull mwy hyblyg WEFO yn ystod y cyfnod rhaglenni hwn wedi eu galluogi i addasu eu dulliau gweithredu, gan felly fynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw faterion o ran niferoedd isel yn manteisio arnynt. Cafodd ffactorau allanol, yn enwedig yr ansicrwydd a grëwyd gan Brexit a'r amodau economaidd anodd a oedd yn deillio o hyn, eu henwi fel ffactorau a oedd yn effeithio ar danberfformiad.

6.30 Credwyd nad oedd y Timau Ymgysylltu ynddynt eu hunain wedi cael rhyw lawer o effaith uniongyrchol ar y niferoedd a oedd yn manteisio ar weithrediadau. Yn yr un modd, nid oedd gweithrediadau a oedd yn profi anawsterau gyda'r niferoedd a oedd yn manteisio arnynt yn gallu gweld sut y gallai'r Timau Ymgysylltu eu helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

# 7. Gweithrediadau'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol yn y dyfodol

7.1 Mae'r bennod hon yn nodi barn rhanddeiliaid a gweithrediadau a ariennir, a gymerodd ran yn yr arolwg ac y cyfwelwyd â hwy, ynglŷn â rôl a blaenoriaethau'r Timau Ymgysylltu rhwng nawr a diwedd y cyfnod rhaglenni. Mae hefyd yn ystyried trefniadau i gefnogi buddsoddi rhanbarthol ar ôl i gyfnod rhaglenni 2014-2020 ddod i ben.

**Rôl y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol am weddill y cyfnod rhaglenni**

7.2 Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr yn meddwl bod y model presennol sydd ar waith ar gyfer y Timau Ymgysylltu yn gweithio'n dda ac roeddent yn dymuno gweld eu rôl a'u gweithgareddau'n parhau mewn modd tebyg tan ddiwedd eu cyfnod cyllido yn 2023. Er enghraifft, gwnaeth un y sylw canlynol: 'maen nhw'n gwneud yr hyn y maen nhw i fod i'w wneud ar y funud. Mae'n ymddangos bod pawb yn meddwl eu bod o gymorth ac ni allaf weld unrhyw reswm pam mae angen newid mawr ar y cam hwn'.

7.3 Er gwaethaf hyn, cydnabuwyd y byddai angen i rôl y Timau Ymgysylltu esblygu dros y blynyddoedd nesaf. Roeddent yn rhagweld y byddai lleihad parhaus yn y ffocws ar brawf-fesur ceisiadau newydd o safbwynt rhanbarthol a ffocws parhaus ar ddatblygu gweithrediadau Blaenoriaeth 5 ESF.

7.4 Dadleuwyd y dylai'r Timau Ymgysylltu ganolbwyntio ar sicrhau bod rhaglenni a ariennir gan yr UE yn cael eu cyflawni mor effeithiol â phosibl rhwng nawr a diwedd cyfnod y rhaglenni.

7.5 Ochr yn ochr â hyn, roedd cyfranwyr yn meddwl y bydd gan y Timau Ymgysylltu rôl fwyfwy pwysig o ran helpu i ganfod pa effaith y mae cyllid o gronfeydd ESI yn ei chael ar eu rhanbarthau. Bydd hyn yn allweddol bwysig i lunio'r agenda ranbarthol ac unrhyw fuddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd rhai'n cwestiynu a ddylai'r Timau Ymgysylltu fod â rôl fwy amlwg dros weddill cyfnod y rhaglenni mewn perthynas â gwerthuso gweithrediadau, yn enwedig o ran lledaenu canfyddiadau gwerthusiadau o brosiectau a data rhanbarthol megis yr Arolwg o Gyfranogwyr ESF. Awgrymodd swyddogion y Timau Ymgysylltu y gallai fod ganddynt rôl gydweithredol i ledaenu gwersi o werthusiadau o weithrediadau ar lefel Cymru gyfan a'r rhai sy'n gweithredu ar draws rhanbarthau eraill.

7.6 O ran ymdrechion cyfathrebu, credwyd y bydd angen i'r Timau Ymgysylltu ganolbwyntio ar y modd y mae arian yn cael ei ddefnyddio a'r hyn sy'n cael ei

gyflawni, yn hytrach na hyrwyddo cyfleoedd cyllido newydd. Awgrymwyd nifer o syniadau gan y Timau Ymgysylltu eu hunain o ran sut y gellid cyflawni hyn, gan gynnwys trefnu digwyddiadau arddangos i ddangos effaith cyllid o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi ar y rhanbarth a rhannu arfer da rhwng gweithrediadau. Galwyd hefyd am wneud i ddigwyddiadau rhwydweithio ddod yn fwy thematig o ran eu natur (os nad oeddent eisoes) yn hytrach na bod yn seiliedig ar flaenoriaethau.

7.7 Roedd gweithrediadau a ariennir yn meddwl y gallai'r Timau Ymgysylltu fod â rôl o ran helpu gweithrediadau i gau yn ogystal ag adnabod a chyfleu bylchau pwysig a allai ddod i'r amlwg o ganlyniad i'r ffaith bod gweithrediadau'n dod i ben.

7.8 Ar ben hynny, credwyd hefyd y dylai'r Timau Ymgysylltu barhau i gyflawni rôl bwysig o ran hysbysu a chynghori ynghylch ffurf buddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit. Dadleuwyd fod y Timau Ymgysylltu mewn sefyllfa dda i ystyried ffyrdd newydd o weithio ar ôl i gyllid o gronfeydd ESI ddod i ben ac i archwilio sut y gallai anghenion rhanbarthol gael eu diwallu gan weithrediadau nad oedd rhaid iddynt gydymffurfio â rheolau cymhwystra a chyfyngiadau rhaglenni'r UE.

7.9 Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg pa gyngor neu gymorth ychwanegol y byddent yn hoffi ei weld yn cael ei gynnig gan y Timau Ymgysylltu rhwng nawr a diwedd cyfnod y rhaglenni. Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- parhau â'r rôl bresennol, h.y. 'mwy o'r un peth'
- dull mwy cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws pob un o'r pedwar Tîm Ymgysylltu
- herio gweithrediadau i sicrhau eu bod yn cyflawni er budd rhanbarthau
- gwybodaeth am gyfleoedd cyllido yn y dyfodol gan gynnwys Cronfa Rhannu Ffyniant Llywodraeth y DU ac unrhyw gyfleoedd sy'n deillio o orwariant y cronfeydd ESI.

7.10 Gofynnwyd i ymatebwyr a arolygwyd hefyd ym mha ffordd yr hoffent weld rôl y Timau Ymgysylltu yn newid rhwng nawr a diwedd cyfnod y rhaglenni. Awgrymwyd nifer fach o newidiadau, ond gan ddim mwy nag un neu ddau ymatebydd ym mhob achos. Roedd y pwynt allweddol a wnaed yn ymwneud â'r angen i'r ddarpariaeth sydd ar gael drwy'r Timau Ymgysylltu barhau ar ôl i'r cyllid o gronfeydd ESI ddod i ben. Yn hyn o beth dadleuwyd bod angen i'w swyddogaethau esblygu a dod yn ehangach na chanolbwyntio dim ond ar raglenni cronfeydd ESI a bod ganddynt

hefyd rôl i'w chyflawni o ran llunio agenda'r dyfodol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.

**Rôl y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol ar ôl cyfnod y rhaglenni**

7.11 Pan wnaed y gwaith maes roedd llawer o ansicrwydd ynghylch a fyddai'r Du yn gadael yr UE, ac os felly sut, pryd ac o dan ba amgylchiadau. Nodwyd y byddai'r materion hyn yn cael dylanwad arwyddocaol ar yr angen am unrhyw swyddogaeth ymgysylltu rhanbarthol olynol, a'i rôl a'i strwythur.

7.12 Er gwaethaf hyn, roedd cyfranwyr yn ymwybodol o'r ymrwymiad polisi parhaus i'r agenda ranbartholi fel y dangosir drwy Gynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru a chamau dilynol i greu tri Phrif Swyddog Rhanbarthol; cefnogaeth barhaus Llywodraeth y DU i Fargeinion Dinesig rhanbarthol; a'r camau parhaus i gryfhau partneriaethau rhanbarthol ledled Cymru.

7.13 O ganlyniad, dadleuodd y rhai a gyfrannodd at y gwerthusiad yn gryf y byddai angen rôl ymgysylltu rhanbarthol yn y dyfodol, ni waeth sut y byddai buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru ar ôl cyfnod y rhaglenni'n cael ei reoli, a honno'n cael gorchwyl i gyflawni swyddogaethau ymgysylltu, hwyluso partneriaethau a chydgysylltu. Dylai'r rôl ganolbwyntio hefyd ar sicrhau cydweddiad rhanbarthol unrhyw fuddsoddi a gweithrediadau yn y dyfodol. Mynegwyd y farn y dylai'r rôl ymgysylltu rhanbarthol gael ei chyflawni'n ddiduedd a, lle y bo'n bosibl, y dylai'r set bresennol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sy'n bodoli ar draws y Timau Ymgysylltu gael ei chynnal.

7.14 Pwysleisiodd sawl cyfrannwr yr angen i symleiddio strwythurau a phartneriaethau rhanbarthol, ac i integreiddio swyddogaethau ymgysylltu rhanbarthol o fewn y strwythurau hyn, yn y dyfodol. Er enghraifft, dadleuodd un fod 'angen i ni resymoli ein strwythurau partneriaeth' ac ymgorffori'r Timau Ymgysylltu (neu'r endidau a fydd yn eu holynu) yn rhan o'r partneriaethau economaidd rhanbarthol hynny.

7.15 Nodwyd bod llawer o'r trafodaethau presennol ynghylch defnyddio gweithrediadau meithrin capasiti Blaenoriaeth 5 ESF yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion hyn. O'r herwydd, roedd yn anodd i gyfranwyr gynnig syniadau pendant am strwythurau priodol ar gyfer swyddogaethau ymgysylltu rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd awgrymiadau a wnaed yn cynnwys trosglwyddo'r dyletswyddau sy'n cael eu cyflawni gan y Timau Ymgysylltu i un endid rhanbarthol. Mae hyn eisoes yn cael ei ystyried yn rhanbarth gogledd Cymru lle mae'r syniad o integreiddio rôl a

swyddogaethau'r Tîm Ymgysylltu fel rhan o dîm gweithredol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn y tymor hwy yn cael ei archwilio.

7.16 Awgrymodd y cyfranwyr nifer o wersi y dylid eu hystyried yn eu tyb hwy wrth ddatblygu dulliau ymgysylltu rhanbarthol yn y dyfodol. Un wers oedd sicrhau bod gwybodaeth, arbenigedd a chysylltiadau presennol yn cael eu cadw ac yn peidio â chael eu colli oherwydd 'bwlch' mewn adnoddau cyllido. Mae un arall yn ymwneud â'r angen i gapasiti rhanbarthol fod yn ei le o'r cychwyn cyntaf. Credwyd mai gwers derfynol oedd yr angen am fwy o gysondeb o ran sut y mae swyddogaethau ymgysylltu'n cael eu rhoi ar waith o un rhanbarth i'r llall.

7.17 Awgrymodd yr ymatebwyr i'r arolwg y gallai'r swyddogaethau yn y dyfodol ar ôl y rhaglen bresennol gynnwys:

- cefnogi gweithrediadau i ddangos eu heffaith a chost-effeithiolrwydd i'w galluogi i gael eu cynnal ar ôl i gyllid yr UE ddod i ben
- cefnogi prosiectau i newid o gyllid cronfeydd ESI i ofynion cyllido Trysorlys y DU.

# 8. Adolygiad o ddulliau ymgysylltu rhanbarthol ledled y DU

**Cyflwyniad**

8.1 Mae'r bennod hon yn archwilio gweithgareddau ymgysylltu a fabwysiadwyd gan ddetholiad o raglenni cronfeydd ESI ledled gwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae'n ymdrin ag ERDF yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ac ESF yn yr Alban. Er bod y dulliau ar draws yr holl wledydd yn cael eu hystyried, rhoddir mwy o ffocws ar y rhaglen yn Lloegr gan ein bod wedi canfod mai hon sydd debycaf i'r rhaglenni yng Nghymru o ran y model a fabwysiadwyd. Yn achos pob gwlad, mae'r adolygiad yn ystyried tair elfen:

- y model ymgysylltu cymunedol: trosolwg o ddull y wlad neu'r rhaglen lle mae ymgysylltu rhanbarthol yn y cwestiwn, gan gynnwys strwythur llywodraethu, cyllid, gwasgariad daearyddol a'r gweithgareddau a gyflawnir
- perthnasedd: deall pa mor berthnasol yw agweddau ar y model i'r cyd-destun yng Nghymru
- gwersi i'w dysgu: canfod gwersi y gellir eu dysgu ar gyfer y rhaglen yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni eraill yn y dyfodol, o ran arfer gorau ac agweddau nad ydynt wedi gweithio'n dda mewn gwledydd eraill.

8.2 Mae'r adolygiad wedi ystyried y ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- ymgynghori: ag arweinwyr polisi rhaglenni ym mhob gwlad
- adolygu dogfennau: adolygu dogfennau rhaglenni, yn bennaf y rhaglenni gweithredol
- tystiolaeth werthuso: adolygu'r dystiolaeth werthuso sydd ar gael.

**Rhaglen ERDF 2014-20 Lloegr**

8.3 Mae'r adolygiad o'r model yn Lloegr yn tynnu ar nifer o ffynonellau gan gynnwys tystiolaeth werthuso sy'n dod i'r amlwg ac adolygiad o ddogfennau. Y brif ffynhonnell tystiolaeth oedd adolygiad o'r broses ddrafft (a gwblhawyd gan Hatch Regeneris) a oedd yn rhoi sylw i lywodraethu, rheoli, systemau ac ymgysylltu rhanbarthol. Roedd hwn yn adolygiad helaeth fel rhan o'r gwerthusiad cenedlaethol o'r rhaglen ERDF 2014-20 yn Lloegr. Nid oedd yr adolygiad yn cynnwys rhaglenni cyllido ESF na rhai eraill sy'n ymwneud â chronfeydd ESI; fodd bynnag, mae nifer o'r prosesau a strwythurau megis pwyllgorau a strategaethau cyllido lleol ar gyfer

cronfeydd ESI yn cael eu rhannu ar draws rhaglenni a chan hynny mae'r model yn debyg mewn sawl ffordd.

*Y Model*

8.4 Mae Rhaglen ERDF Lloegr yn cwmpasu'r cyfnod o 2014-20 gyda chyfanswm cyllideb ERDF o €3.6 biliwn. Y Weinyddiaeth ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yw'r awdurdod rheoli, gyda'r gyllideb yn cael ei dyrannu'n ddangosol ar draws ardaloedd 38 o Bartneriaethau Menter Lleol. Yn hyn o beth byddai'r 'ardaloedd' a wasanaethir gan Bartneriaethau Menter Lleol yn debyg i'r ardaloedd rhanbarthol a wasanaethir gan y Timau Ymgysylltu yng Nghymru.

8.5 Mae rhaniad y cyllid ar draws echelau blaenoriaeth yn cael ei arwain gan y cyfuniad o reoliadau rhaglenni'r Comisiwn Ewropeaidd (CE), yr anghenion a adnabuwyd yn y Rhaglen Weithredol a strategaethau'r Partneriaethau Menter Lleol ar gyfer cronfeydd ESI.

8.6 Mae strategaethau'r Partneriaethau Menter Lleol ar gyfer cronfeydd ESI yn rhan allweddol o'r dull i leoleiddio cyllid ERDF, gan nodi sut y byddai Partneriaethau Menter Lleol yn hoffi buddsoddi cyllid ERDF a'r blaenoriaethau y maent yn disgwyl i brosiectau cyd-fynd â hwy. Mae'r strategaethau'n darparu safbwynt sy'n seiliedig ar bartneriaeth ar gyfer sut orau i ddefnyddio'r adnoddau a ddyrennir yn dybiannol i fynd i'r afael ag anghenion a chyfleoedd lleol. Er bod y rhain wedi ychwanegu gwerth, roedd yr adolygiad drafft o brosesau'n nodi y dylid cynnwys mwy o amser paratoi ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol i ddarparu ar gyfer datblygu strategaethau lleol o ansawdd gwell, sy'n fwy unigryw. Dylai fod mwy o hyblygrwydd i ymateb i newidiadau i'r cyd-destun lleol, megis siociau economaidd-gymdeithasol, i sicrhau bod cyfleoedd lleol ar gyfer twf yn cael eu cynyddu i'r eithaf.

8.7 O ystyried y nifer sylweddol o Bartneriaethau Menter Lleol, mae nifer o gyfrifoldebau'r awdurdod rheoli'n cael eu cyflawni gan dimau rhanbarthol (Timau Cyflawni Twf) sydd wedi'u rhannu ar draws pum rhanbarth daearyddol Lloegr a thîm o Awdurdod Llundain Fwyaf sy'n gyfrifol am nifer o swyddogaethau ar gyfer ardal Llundain fwyaf drwy ei statws corff cyfryngol.[20] Ymhlith pethau eraill, mae'r Timau

[20] Mae statws Corff Cyfryngol yn Llundain yn galluogi Awdurdod Llundain Fwyaf i gyflawni ystod eang o swyddogaethau gan gynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi, cyhoeddi galwadau a chontractio ei hun; mae statws Corff Cyfryngol mwy cyfyngedig yng Nghernyw, Dyffryn Tees, Manceinion a Lerpwl, lle y sefydlwyd Cyrff Cyfryngol fel rhan o Fargeinion Datganoli, yn rhoi cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau

Cyflawni Twf yn gyfrifol am gyhoeddi galwadau am brosiectau, arfarnu a chontractio, rheoli contractau, a monitro cynnydd yn erbyn targedau fframwaith perfformiad yn y rhanbarth.

8.8 Mae strwythur y rhaglen yn golygu ei bod yn gallu cael ei rheoli'n genedlaethol ond ei bod yn dal i fod â mewnbwn lleol a chysylltiad uniongyrchol ag ardaloedd lleol drwy'r Partneriaethau Menter Lleol. Mae hwn yn fodel newydd gan fod rhaglenni cronfeydd ESI yn cael eu rhedeg a'u dyrannu ar lefel genedlaethol neu ranbarthol fel arfer gyda mewnbwn cyfyngedig gan bartneriaid lleol. O safbwynt llywodraeth genedlaethol, mae'n gweithio'n dda gan ei fod yn ei gwneud yn bosibl cael rheolaeth ganolog ond ymgysylltu'n lleol. O safbwynt Partneriaethau Menter Lleol, mae ymgysylltu drwy Bartneriaethau Menter Lleol yn golygu bod galwadau am brosiectau'n gallu cael eu teilwra i anghenion yr ardal leol. Un o gyfyngiadau'r model hwn yw ei fod yn gallu gwneud gweithgareddau a phrosiectau ar draws Partneriaethau Menter Lleol yn anos eu cyflawni. Canfu'r adolygiad o'r broses ddrafft fod ardaloedd Partneriaethau Menter Lleol wedi ei chael hi'n anodd datblygu rhai mathau o brosiectau a mentrau ar draws Partneriaethau Menter Lleol sydd wedi arwain at ddull llawer mwy datganoledig o gyflawni gweithgareddau megis cymorth busnes a rhywfaint o ddyblygu ymdrechion (er y dylanwadwyd ar hyn hefyd gan newidiadau mewn polisi cenedlaethol ar gyfer cymorth busnes yn Lloegr).

8.9 Mae prosiectau Datblygu Trefol Cynaliadwy (SUD) yn rhoi cyfrif am 5 y cant o'r dyraniad ERDF ac roeddent ar gael i ardaloedd trefol drwy gymorth ar ffurf cyllid Cymorth Technegol. Roedd y rhain yn galluogi Partneriaethau Menter Lleol i ddatblygu pecyn o brosiectau i gyflawni amcanion yr ardal drefol. Er mai'r awdurdod rheoli oedd yn dal i roi cymeradwyaeth derfynol, roedd hyn yn gweithio'n dda gan fod Partneriaethau Menter Lleol yn cael mwy o gyfrifoldeb a dylanwad dros y prosiectau a oedd wedi'u pecynnu gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid oedd hyn ar gael i bob ardal a dim ond cyfran sylweddol ond bach o gyfanswm y cyllid ydoedd.

*Pwyllgorau Lleol Cronfeydd ESI*

8.10 Er bod gan y Partneriaethau Menter Lleol a phartneriaid lleol eraill fwy o gyfrifoldebau mewn rhai achosion arbennig megis y Cyrff Cyfryngol a'r Datblygiadau

---

ynghylch cydweddiad strategol lleol ceisiadau; rhoddwyd statws Corff Cyfryngol ar wahân i wyth ardal drefol (â phoblogaeth o fwy na 600,000) sy'n gysylltiedig â dyraniadau Datblygu Trefol Cynaliadwy (SUD), gan eto roi cyfrifoldeb am benderfyniadau ynghylch cydweddiad strategol lleol a rhoi cyngor ynghylch gwerth am arian a'r gallu i gyflawni.

Trefol Cynaliadwy, mae eu prif weithgareddau'n canolbwyntio ar y strategaeth ar gyfer cronfeydd ESI a phwyllgorau lleol cronfeydd ESI. Mae pwyllgorau lleol cronfeydd ESI yn darparu'r persbectif lleol ar gyfer y rhaglen. Maent yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol sy'n cynghori Timau Cyflawni Twf ynghylch defnyddio cyllid ERDF, ynghylch strategaethau lleol ar gyfer cronfeydd ESI a chydweddiad strategol prosiectau arfaethedig. Mae pwyllgorau lleol cronfeydd ESI hefyd yn rhoi adborth i'r Awdurdod Rheoli ar briodoldeb galwadau a mewnbynnau ysgafn ar gynnydd cyffredinol o ran cyflawni.

8.11 Canfu'r adolygiad o'r broses fod rhanddeiliaid cenedlaethol yn cydnabod y gwerth y mae'r mewnbwn lleol hwn yn ei roi, yn enwedig ar y cam cyflwyno cais amlinellol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gydweddiad strategol. Er bod pwyllgorau cronfeydd ESI wedi bod yn ased defnyddiol i'r Timau Cyflawni Twf o ran penderfynu ynghylch ceisiadau a phennu galwadau, canfu'r adolygiad o'r broses fod rhai aelodau, yn enwedig rhanddeiliaid lleol, yn meddwl y dylai fod ganddynt fwy o bwerau i wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau.

*Cymorth Technegol*

8.12 Ochr yn ochr â hyn, ceir darpariaeth hefyd i Bartneriaethau Menter Lleol a'u partneriaid (yn enwedig sectorau awdurdodau lleol ac AU) ddefnyddio cyllid Cymorth Technegol i sefydlu timau Cymorth Technegol (mae gan ardal pob Partneriaeth Fenter Leol ddyraniad fel rhan o'i dyraniad cyllid tybiannol cyffredinol). Mae gan y timau hyn orchwyl i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyllido, darparu gwybodaeth am y broses gynnig a chynorthwyo ymgeiswyr am grantiau i ddatblygu ceisiadau. Mae gweithgareddau timau Cymorth Technegol yn amrywio o drefnu digwyddiadau i ledaenu gwybodaeth i gynorthwyo gyda datblygu ceisiadau ar lefel prosiectau.

8.13 Yn ymarferol, ni wnaeth ardaloedd nifer o Bartneriaethau Menter Lleol hawlio cyllid ar gyfer timau Cymorth Technegol ac felly mae'r niferoedd sydd wedi manteisio yn llai na'r disgwyl. Roedd hyn yn rhannol oherwydd diffyg capasiti ac arian cyfatebol mewn rhai o'r ardaloedd hyn, ond hefyd materion gydag effeithiolrwydd y cymorth ei hun. Nododd yr adolygiad o'r broses mai un o'r heriau cyffredin a wynebwyd gan Bartneriaethau Menter Lleol oedd y diffyg capasiti'n lleol i ddarparu arbenigedd thematig mewn timau Cymorth Technegol bach. Canlyniad posibl y ffaith bod

niferoedd bach wedi manteisio ar y cymorth yw cyfyngu ar hyrwyddo'r rhaglen i gynigwyr posibl yn yr ardaloedd hyn, yr ymdrech i ehangu'r niferoedd sy'n manteisio ymhlith gwahanol fathau o sefydliadau a chystadleuaeth rhwng cynigwyr sy'n gallu ysgogi arloesedd mewn prosiectau.

*Perthnasedd i gyd-destun Cymru*

8.14 Ceir nifer o elfennau tebyg rhwng modelau Lloegr a Chymru, yn arbennig y ffaith bod y model yn genedlaethol ond yn ceisio ymgysylltu, llywio blaenoriaethau a chyflawni ar y lefel leol (rhanbarthol yng nghyd-destun Cymru). Mae'r hyn sy'n wahanol rhwng y modelau'n ymwneud â chymhlethdod model Lloegr. Caiff hyn ei ysgogi'n bennaf gan faint rhaglen Lloegr a'r ffaith bod model Lloegr yn ymgysylltu ar draws 38 o ardaloedd Partneriaethau Menter Lleol, tra bod model Cymru yn cwmpasu pedwar rhanbarth Timau Ymgysylltu yn unig. Mae model Lloegr hefyd yn datganoli mwy o gyfrifoldeb (er yn gyfyngedig) i bartneriaid lleol.

8.15 Gan fod yr Awdurdod Rheoli yng Nghymru yn rhoi arweiniad a chymorth gyda'r gwaith datblygu prosiectau ei hun, yn hytrach na thrwy'r Timau Ymgysylltu neu dimau Cymorth Technegol ar wahân, nid yw'r model ar gyfer Cymorth Technegol yn berthnasol i raglenni cyfredol Cymru. Fodd bynnag, gallai'r gwersi o'i roi ar waith yn Lloegr fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhaglenni cyllido yn y dyfodol.

*Gwersi a ddysgwyd*

8.16 Y gwersi allweddol y gellir eu dysgu ar gyfer y rhaglen gyfredol a rhaglenni cyllido yn y dyfodol yw:

- **ymgysylltu rhanbarthol:** mae pennu dyraniadau ar lefel ranbarthol a datganoli rhai cyfrifoldebau yn ei gwneud yn bosibl creu cysylltiad uniongyrchol ag ardaloedd lleol fel bod ymgysylltiad lleol wedi'i ymgorffori'n ffurfiol yn y rhaglen ei hun. Mae symud i ffwrdd oddi wrth un dyraniad cenedlaethol neu ranbarthol yn hybu mynediad rhwyddach at y rhaglen a chefnogaeth iddi yn lleol. Fodd bynnag, mae hyn yn achosi rhai heriau ac mae angen i adnoddau a chapasiti gael eu cynnwys ar adeg dylunio'r rhaglen i gynyddu manteision y dull gweithredu i'r eithaf
- **dylanwad rhanbarthol**: mae angen taro cydbwysedd gofalus rhwng datganoli cyfrifoldebau a chadw rheolaeth ar y rhaglen. Mae rhanddeiliaid cenedlaethol yn gwerthfawrogi mewnbwn partneriaid lleol; fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig

iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â buddsoddi eu hunain. I’r gwrthwyneb, mae rhanddeiliaid lleol yn teimlo y dylai fod ganddynt fwy o bwerau i lywio’u hagendâu twf lleol

- **cymorth i ddatblygu prosiectau**: Yn ogystal â galluogi ymgysylltiad rhanbarthol drwy ymwybyddiaeth, mae cymorth i ddatblygu prosiectau’n agwedd bwysig i alluogi mwy o ymgeiswyr i ddod ymlaen a dylid cynnwys adnoddau a chapasiti priodol yn y rhaglen i gefnogi hyn. Mae rhoi anogaeth i rannu arfer gorau yn allweddol yma, yn enwedig lle ceir nifer fawr o randdeiliaid ac arbenigeddau thematig.

**Rhaglen ERDF Gogledd Iwerddon**

8.17 Mae’r adolygiad o fodel Gogledd Iwerddon yn canolbwyntio’n bennaf ar ddogfennau rhaglenni ac ymgynghori â’r Awdurdod Rheoli (Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon). Pennodd y Rhaglen Weithredol werth ERDF o €205m ar gyfer Rhaglen ERDF Gogledd Iwerddon. Mae un rhaglen ERDF yn cael ei chyflawni’n genedlaethol.

*Y model*

8.18 Mae model Gogledd Iwerddon yn wahanol i’r rhai mewn rhannau eraill o’r DU, yn bennaf yn yr ystyr bod yr Awdurdod Rheoli (Adran yr Economi) yn datganoli’r holl gyfrifoldeb, ar wahân i gyllid seilwaith, i Invest Northern Ireland (Invest NI), asiantaeth datblygu economaidd. Mae hyn yn golygu mai hi sy’n gyfrifol am yr echelau blaenoriaeth sy’n rhoi cyfrif am dros 80 y cant o gyfanswm gwerth y rhaglen. Gan hynny, mae rhaglen ERDF Gogledd Iwerddon yn gallu tynnu ar adnoddau a gweithgarwch ymgysylltu rhanbarthol Invest NI. Gan fod Invest NI yn gyfrwng cymorth busnes hirsefydlog ar gyfer Gogledd Iwerddon, y tu allan i ERDF, mae ganddi eisoes gysylltiadau cryf iawn â rhanddeiliaid y gall fanteisio arnynt. Yn ôl gwaith ymgynghori â’r Awdurdod Rheoli a’r Adroddiad Monitro Rhaglen diweddaraf, mae’r trefniant hwn yn gweithio’n dda gan ei fod yn galluogi’r rhaglen ERDF i fanteisio ar adnoddau ehangach Invest NI. Mae gan Invest NI hefyd brofiad o ERDF o ganlyniad i gyflawni rhaglenni blaenorol a phrofiad ehangach o gymorth busnes.

8.19 Mae gan Invest NI bresenoldeb yn Belfast yn ogystal â phum swyddfa ranbarthol y tu allan i Belfast. Mae’r swyddfeydd rhanbarthol wedi’u cysylltu’n dda â chynghorau a rhanddeiliaid lleol ledled Gogledd Iwerddon. Mae gan yr asiantaeth

weithgareddau marchnata helaeth ac mae'n cynnal digwyddiadau amrywiol ledled y wlad.

8.20 Mae cyllid Cymorth Technegol yn cefnogi tîm o 21 aelod o staff ac fe'i defnyddir yn bennaf ar gyfer gwaith gweinyddol a rhai mân weithgareddau cefnogol ar gyfer y rhaglen yn hytrach nag ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu rhanbarthol helaeth.

8.21 Mae prosiectau Datblygu Economaidd Lleol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar greu swyddi lleol, wedi cael eu datblygu gan Invest NI i sicrhau bod ERDF yn hygyrch i gynghorau lleol er mwyn diwallu anghenion lleol penodol. Hyd yma, mae pob un o'r 11 cyngor wedi datblygu o leiaf un prosiect Datblygu Economaidd Lleol, gan ddangos ymgysylltiad lleol da ledled Gogledd Iwerddon.

8.22 Caiff dau brosiect seilwaith mawr, a ariennir dan Flaenoriaeth 4 Carbon Isel, eu goruchwylio'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Rheoli. Gan fod y rhain yn brosiectau seilwaith mawr, nid oes angen lefel uchel o weithgarwch ymgysylltu lleol na rhanbarthol.

*Perthnasedd i gyd-destun Cymru*

8.23 Mae rhaglen Gogledd Iwerddon yn llai o ran maint na rhaglenni Lloegr a'r Alban ac o ganlyniad, mae'r buddsoddiadau'n canolbwyntio ar nifer lai o flaenoriaethau. Mae hyn yn golygu ei bod yn adlewyrchu rhaglen Dwyrain Cymru yn well; fodd bynnag, o ran datblygu prosiectau, ychydig o angen sydd am weithgareddau ymgysylltu lleol gan yr awdurdod rheoli.

8.24 Mae model Gogledd Iwerddon yn dibynnu'n helaeth ar rwydweithiau cymorth busnes presennol yr asiantaeth datblygu economaidd (Invest NI). Er bod hyn, o safbwynt yr Awdurdod Rheoli, wedi bod yn un o'r prif lwyddiannau ar gyfer Gogledd Iwerddon, nid yw'n fodel y gellid ei ailadrodd heb y rhwydwaith presennol hwnnw ac adnoddau ehangach i dynnu arnynt.

8.25 Er nad oes gan Gymru asiantaeth bresennol o'r maint a'r cyrhaeddiad hwn o bosibl, gallai llwyddiant model Gogledd Iwerddon awgrymu y gallai tynnu'n fwy ar rwydweithiau llai, lle maent yn bodoli, ddarparu hwb sylweddol i gyrhaeddiad y timau ymgysylltu rhanbarthol. Fodd bynnag, dylid nodi bod maint Invest NI yn gwneud gweithio gydag ERDF yn opsiwn mwy dichonadwy ac y gall rhwydweithiau neu asiantaethau llai brofi anawsterau gyda chymhlethdodau Cyllid Cronfeydd ESI.

*Gwersi a ddysgwyd*

8.26 Y gwersi y gellir eu dysgu ar gyfer y rhaglen gyfredol a rhaglenni cyllido yn y dyfodol yw:

- **defnyddio rhwydweithiau presennol:** lle y bo'n briodol, gallai defnyddio rhwydweithiau presennol gan ddenu cronfa ehangach o adnoddau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu gynyddu cyrhaeddiad timau ymgysylltu rhanbarthol.

**Rhaglenni ERDF ac ESF yr Alban**

8.27 Mae'r adolygiad o raglenni ERDF ac ESF yr Alban yn canolbwyntio ar ddogfennau'r rhaglenni a gwaith ymgynghori â'r awdurdod rheoli (Llywodraeth yr Alban). Cyflawnir rhaglenni'r Alban yn genedlaethol ac mae'r Rhaglenni Gweithredol yn dyfynnu cyfanswm buddsoddiad gan yr UE o €475m ar gyfer ERDF ac €447m ar gyfer ESF.

*Y Model*

8.28 Llywodraeth yr Alban yw'r Awdurdod Rheoli ar gyfer y rhaglenni ERDF ac ESF. Caiff gwaith ymgysylltu rhanbarthol ar gyfer Rhaglenni'r Alban ei wneud yn bennaf drwy aelodau o'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol. Ceir Pwyllgor Tiriogaethol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd hefyd sy'n eistedd o fewn y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ac sy'n gyfrifol am gefnogi anghenion Tiriogaethau'r Ucheldiroedd a'r Ynysoedd gan mai dyma'r unig ranbarth Pontio yn yr Alban. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a Phwyllgor Tiriogaethol yr Ucheldir a'r Ynysoedd yn cydweithio i sicrhau bod y rhaglen yn diwallu anghenion lleol.

8.29 Fel gyda rhaglen ERDF Lloegr, caiff dyraniadau eu pennu'n dybiannol ar lefel ranbarthol gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Fodd bynnag, yn wahanol i raglenni eraill, nid yw rhaglenni'r Alban yn anfon galwadau agored allan. Mae nifer fach o bartneriaid arweiniol sy'n cynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau (menter ac arloesi) a chyrff sgiliau'n datblygu prosiectau eu hunain y maent wedyn yn eu cyflwyno i Lywodraeth yr Alban i'w cymeradwyo.

8.30 Mae gwaith ymgynghori â'r Awdurdod Rheoli'n datgelu, gan fod awdurdodau lleol yn arwain llawer o'r prosiectau eu hunain ac yn eistedd ar y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, nad oes angen mawr am weithgarwch ymgysylltu rhanbarthol mewn perthynas â'r rhaglenni.

8.31 Mantais y model hwn yw ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol yn uniongyrchol gan eu bod yn eistedd ar y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a phrosiectau arweiniol. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn rhoi iddynt y dylanwad a'r ysgogiad i ymgysylltu. Mae ymgynghoriadau â'r Awdurdod Rheoli'n awgrymu, ar gyfer prosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol, bod y Cynghorau wedi ei chael yn anodd cael arian cyfatebol ar gyfer prosiectau y maent hwy wedi bod yn eu harwain.

*Perthnasedd i gyd-destun Cymru*

8.32 Nid yw'r model ymgysylltu hwn yn bosibl ar gyfer y rhaglenni cyfredol yng Nghymru gan ei fod wedi'i gynnwys yn nyluniad rhaglenni'r Alban o'r dechrau. Mae'n bosibl y gallai fod yn berthnasol i raglenni yn y dyfodol; fodd bynnag, mae'n debygol y byddai awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei chael yn anodd cael arian cyfatebol yn yr un ffordd ag y mae awdurdodau yn yr Alban wedi'i chael yn anodd.

*Gwersi a ddysgwyd*

8.33 Y gwersi y gellir eu dysgu ar gyfer y rhaglen gyfredol a rhaglenni cyllido yn y dyfodol yw:

- **cynnwys ymgysylltu lleol yn y dyluniad:** gall ymgysylltu rhanbarthol gael ei gynnwys fel rhan o ddyluniad rhaglenni o'r dechrau fel bod gan randdeiliaid lleol y dylanwad a'r cyfrifoldeb i ymgysylltu â'r rhaglen. Fodd bynnag, rhaid gwneud darpariaethau i sicrhau bod rhanddeiliaid lleol yn meddu ar y capasiti i ddod o hyd i gyllid a datblygu prosiectau.

## 9. Casgliadau ac argymhellion

9.1 I gloi, rydym yn troi ein sylw i ystyried nod cyntaf y gwerthusiad cyn nodi ein hargymhellion mewn ymateb i ail nod y gwerthusiad.

**Y cynnydd a wnaed gan y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol tuag at eu hamcan cyffredinol, sef cynyddu i'r eithaf fanteision rhaglenni cronfeydd ESI ym mhob rhanbarth yng Nghymru**

9.2 Mae'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol wedi gallu gwneud cynnydd da hyd yma tuag at eu hamcan cyffredinol. sef sicrhau bod cyllid cronfeydd ESI o fudd i'w priod ranbarthau. Rydym o'r farn bod natur eu mewnbynnau a'u gweithgareddau'n briodol ar y cyfan i'w galluogi i barhau i gyflawni eu canlyniadau rhwng nawr a diwedd cyfnod y rhaglenni. Mae eu prif gyflawniadau hyd yma wedi ymwneud ag ymgysylltu, cyfathrebu a rhwydweithio.

9.3 Canfu'r gwerthusiad fod ffocws rhanbarthol cryfach yn y cyfnod rhaglenni hwn, a bod y Timau Ymgysylltu wedi gallu gwneud cyfraniad tuag at sicrhau bod gweithrediadau'n ystyried y safbwynt rhanbarthol hwn. Mae eu cyfraniad at gyfleu gwybodaeth am eu tirweddau rhanbarthol esblygol wedi bod yn arbennig o bwysig a gwerthfawr i weithrediadau a ariennir. Mae rhwydweithiau rhanbarthol yn gryfach o ganlyniad i weithgareddau'r Timau Ymgysylltu a cheir tystiolaeth bod rhai gweithrediadau cenedlaethol wedi gallu mabwysiadu mwy o ddimensiwn rhanbarthol i'w proses gyflawni o ganlyniad i ymgysylltiad y Timau. O ganlyniad, deuwn i'r casgliad fod gwaith y Timau Ymgysylltu wedi bod yn bwysig o ran sicrhau bod gweithrediadau ledled eu priod ranbarthau'n ystyried strategaethau ac agendâu rhanbarthol.

9.4 Mae'r Timau Ymgysylltu wedi gallu gwneud cyfraniad effeithiol tuag at eu hamcan i gysoni ymyriadau a gyflawnir ledled y rhanbarth â blaenoriaethau rhanbarthol drwy ymgysylltu â gweithrediadau a chyfranwyr eraill a hwyluso deialog rhyngddynt.

9.5 Mae'r Timau Ymgysylltu wedi cael eu rhwystro rhag cyflawni eu swyddogaeth i brawf-fesur ceisiadau am gyllid o gronfeydd ESI o safbwynt rhanbarthol mor effeithiol ag y gallent, oherwydd ffactorau megis eu sefydlu'n hwyr a diffyg ymwneud â gweithrediadau asgwrn cefn strategol. Fodd bynnag, rydym yn meddwl eu bod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn yn dda drwy sicrhau eu bod wedi prawf-fesur

gweithrediadau o safbwynt rhanbarthol yn ôl-weithredol ac yn barhaus yn eu hymdrechion i gysoni ymyriadau yn ystod y cam cyflawni.

9.6 Deuwn i'r casgliad fod y Timau Ymgysylltu ar y trywydd iawn i gyfrannu tuag at sicrhau bod gweithrediadau yn eu rhanbarth yn ategu gweithrediadau eraill ac ymyriadau nas ariennir gan yr UE. Deuwn hefyd i'r casgliad fod y Timau Ymgysylltu yn sicr wedi lleihau dyblygu, ond nid ei ddileu, a bod ffactorau eraill y tu hwnt i'w cylch gwaith wedi effeithio ar ddarpariaethau a ariennir yn eu rhanbarth.

9.7 Mae'r Timau Ymgysylltu yn annhebygol o gyfrannu tuag at ddau o'r canlyniadau canolradd a bennwyd gan lunwyr polisïau. Byddai'n afrealistig disgwyl i'r Timau Ymgysylltu gyflawni canlyniad sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod niferoedd da yn manteisio ar weithrediadau mewn rhanbarth. Yn hytrach, rydym yn awgrymu canlyniad amgen, sef 'bod gweithrediadau'n meddu ar wybodaeth dda am wasanaethau eraill fel eu bod yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr yn ôl eu hanghenion', fel un a fyddai'n fwy priodol. Yn yr un modd, nid ydym yn meddwl y gellir disgwyl i'r Timau Ymgysylltu effeithio ar nifer y gweithrediadau rhanbarthol na gweithrediadau ar lefel Cymru gyfan yn eu rhanbarth, o ystyried nad oes ganddynt unrhyw swyddogaeth dyfarnu cyllid i ddylanwadu ar hyn.

9.8 Un o ganlyniadau anfwriadol gwaith y Timau Ymgysylltu hyd yma yw'r manteision sydd wedi deillio o'u dull cydweithredol. Mae'r rhain wedi cynnwys rhannu arfer da, profiadau a gwybodaeth a bu trafodaethau drwy Grŵp Llywio'r Timau Ymgysylltu o gymorth yn hyn o beth. Mae cyfle i gryfhau'r cydweithio hwn ymhellach drwy archwilio cyfleoedd i gydweithio ar gyfathrebu (e.e. presenoldeb ar y cyd ar y we) ac ymdrechion ymgysylltu (e.e. dim ond ag un Tîm y mae nifer o weithrediadau'n ymgysylltu a byddai manteision i rannu'r gudd-wybodaeth hon).

9.9 Mae'n bosibl y gallai cyfraniad y Timau Ymgysylltu at y Rhaglenni Gweithredol fod wedi bod yn fwy pe baent wedi bod yn weithredol yn gynharach yng nghyfnod y rhaglenni.

9.10 Deuwn i'r casgliad fod y gweithgareddau a gyflawnir gan y Timau Ymgysylltu yn ychwanegu gwerth at waith gweithrediadau a ariennir a phartneriaethau rhanbarthol fel ei gilydd. Mae'r digwyddiadau rhwydweithio a'r gweithgareddau lledaenu a gyflawnir gan y Timau Ymgysylltu yn uchel eu parch ac yn ddefnyddiol. Yn arbennig, y rhwydweithiau sy'n effeithiol yw'r rhai lle ceir presenoldeb da mewn cyfarfodydd, sy'n canolbwyntio ar faterion thematig ac sy'n cynnig cyfle i aelodau

ddatblygu perthnasoedd cydweithredol cryf. Maent wedi galluogi pobl i rannu arfer gorau, casglu gwybodaeth a chudd-wybodaeth, a meithrin perthnasoedd sydd wedi cael dylanwad ar gyflawni gweithrediadau. Fodd bynnag, mae natur, amlder a defnyddioldeb gweithgareddau megis rhwydweithiau a chyfathrebu'n amrywio o un Tîm Ymgysylltu i'r llall a byddai o fudd manteisio ar yr arfer gorau a nodir yn yr adroddiad hwn. Rydym yn ymwybodol bod un Tîm Ymgysylltu yn arbennig wedi profi diffyg capasiti staffio'n ddiweddar ac mae hyn wedi cyfyngu ar ei allu i gyflawni'r ystod eang o ddyletswyddau y mae gofyn i Dîm Ymgysylltu eu cyflawni.

9.11 Mae'r Timau Ymgysylltu yn uchel eu parch ar draws eu rhwydweithiau yn y rhan fwyaf o achosion. Dylai'r profiad a'r cysylltiadau blaenorol yr oedd swyddogion y Timau Ymgysylltu yn gallu eu cynnig i'r gweithrediad gael ei gydnabod fel un o gryfderau'r dull. Mae'r adborth gan y gweithrediadau hynny a ariennir sydd wedi cydweithio'n agos gyda'r Timau Ymgysylltu yn gadarnhaol. Ceir dadl dros sicrhau bod Timau Ymgysylltu yn ehangu eu rhwydwaith o weithrediadau a ariennir hyd yn oed ymhellach dros weddill cyfnod y rhaglenni yng ngoleuni'r adborth mai dim ond gydag un neu ddau y mae rhai gweithrediadau'n gweithio ar hyn o bryd. Er bod y sefyllfa wedi gwella dros amser, mae peth dryswch o hyd ynglŷn â rôl y Timau Ymgysylltu ymhlith gweithrediadau a ariennir a dylid mynd i'r afael â hyn hefyd.

9.12 Mae Pennod 8 yn nodi'n fanwl y gwersi a ddysgwyd o ymgysylltu rhanbarthol mewn rhaglenni cronfeydd ESI ledled y DU. Mae un o wersi allweddol yr adolygiad hwn yn ymwneud â phennu dyraniadau cyllid ar lefel ranbarthol yng Nghymru a datganoli cyfrifoldebau am y rhain. Canfu'r adolygiad fod newid i ddull model cymysg (sy'n mabwysiadu dyraniadau cyllid cenedlaethol a rhanbarthol) yn hybu mynediad rhwyddach at y rhaglen ond bod angen cynnwys adnoddau a chapasiti ar gyfer hyn o'r cychwyn cyntaf.

9.13 Isod yn Ffigur 9.1 rydym yn nodi model rhesymeg diwygiedig ar gyfer y Ddamcaniaeth Newid sy'n ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad hwn. Mae'r model rhesymeg yn nodi'r mewnbynnau, y gweithgareddau a'r allbynnau gwirioneddol sy'n cael eu cyflawni gan y Timau Ymgysylltu ar hyn o bryd, ynghyd â'r canlyniadau y gellir disgwyl iddynt gael eu cyflawni o ganlyniad i'r rhain. Yn wahanol i'r model rhesymeg gwreiddiol, mae'r fersiwn ddiwygiedig yn nodi pedwar prif faes gweithgarwch y mae'r Timau Ymgysylltu yn eu cyflawni ac yn nodi'r ffactorau allanol allweddol sy'n dylanwadu ar waith y Timau. Mae'r model rhesymeg diwygiedig yn

cyflwyno pum canlyniad canolradd sy’n rhoi adlewyrchiad gwell o weithgareddau’r Timau Ymgysylltu, gan gynnwys canlyniadau nad oeddent wedi’u nodi yn y model gwreiddiol mewn perthynas â gweithrediadau’n ymgysylltu ac yn cydweithio â’i gilydd a gweithrediadau’n meddu ar wybodaeth dda am wasanaethau eraill fel eu bod yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr yn briodol.

## Ffigur 9.1: Model Rhesymeg Diwygiedig y Ddamcaniaeth Newid, sy'n adlewyrchu dull presennol Timau Ymgysylltu Rhanbarthol

| *Mewnbwn* | *Gweithgaredd* | *Allbynnau* | *Canlyniadau Canolradd* | *Canlyniad cyffredinol* |
|---|---|---|---|---|
| Timau wedi'u lleoli'n rhanbarthol sydd ag adnoddau a phrofiad digonol<br><br>Paneli prawf-fesur / grwpiau cynghori rhanbarthol<br><br>Ymgysylltu, cysyllteddau ac integreiddio â phartneriaethau rhanbarthol<br><br>Dealltwriaeth am flaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol<br><br>Casglu data a chudd-wybodaeth | Prawf-fesur ceisiadau am gyllid o'r Cronfeydd ESI:<br>• Cynghori WEFO ynghylch cydweddiad strategol ceisiadau<br>• Cynghori ymgeiswyr ar faterion rhanbarthol sy'n berthnasol i'r gweithrediad<br><br>Cysoni ymyriadau â'r strategaeth ac anghenion rhanbarthol:<br>• Gwaith parhaus i brawf-fesur gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI o safbwynt rhanbarthol<br>• Cynghori gweithrediadau a ariennir ynghylch materion rhanbarthol parhaus<br>• Craffu ar berfformiad gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI yn y rhanbarth<br>• Dadlau dros faterion a datblygiadau rhanbarthol gydag eraill, gan gynnwys WEFO<br><br>Cryfhau ymwybyddiaeth a chysylltiadau rhwng gweithrediadau:<br>• Ymgysylltu â gweithrediadau a ariennir<br>• Hwyluso cysylltiadau ac ymgysylltiad rhwng gweithrediadau<br>• Cynnal cyfleoedd rhwydweithio<br><br>Cyfleu a lledaenu gwybodaeth:<br>• Hyrwyddo cyfleoedd ariannu<br>• Adnabod a rhannu arfer da<br>• Hyrwyddo llwyddiant ac effaith cronfeydd ESI yn rhanbarthol | Nifer y gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI yr ymgysylltwyd â hwy<br><br>Nifer y rhwydweithiau a hwyluswyd<br><br>Nifer y digwyddiadau lledaenu<br><br>Nifer y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd<br><br>Nifer yr e-gylchlythyrau a gyhoeddwyd<br><br>Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a gydariannwyd a chyllid Cymorth Technegol | Gweithrediadau rhanbarthol a chenedlaethol a ariennir o gronfeydd ESI sy'n diwallu anghenion ac yn cyflawni strategaethau rhanbarthol<br><br>Gweithrediadau a ariennir o gronfeydd ESI yn ymgysylltu ac yn cydweithio â'i gilydd<br><br>Gweithrediadau yn y rhanbarth yn ategu ac yn cydweithio gyda gweithrediadau eraill ac ymyriadau nas ariennir gan yr UE a gyflawnir yn y rhanbarth<br><br>Gweithrediadau'n meddu ar wybodaeth dda am wasanaethau eraill fel eu bod yn gallu atgyfeirio cyfranogwyr yn unol â'u hanghenion<br><br>Gweithrediadau yn y rhanbarth yn peidio â dyblygu ei gilydd nac ymyriadau eraill yn y rhanbarth | Cynyddu i'r eithaf effaith cyllid cronfeydd ESI i'r rhanbarth |

***Ffactorau allanol***

- Brexit: ansicrwydd, llwyth gwaith mwy ac amseriad cymeradwyo cronfeydd ESI
- Strwythurau rhanbarthol esblygol – dylanwad ar gydweddiad a pherthnasedd
- Gwahaniaethau yn strwythur a chwmpas y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol
- Oedi cyn cymeradwyo cynlluniau busnes y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol a phenodi swyddogion

**Darparu argymhellion ar gyfer gweithgareddau'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol**

9.14 Wrth edrych tua'r dyfodol rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglenni:

- y dylai'r Timau Ymgysylltu barhau i gyflawni eu swyddogaethau fel y gwnânt ar hyn o bryd, ond gan sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw faterion yn ymwneud â chapasiti staffio fel blaenoriaeth
- bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithio i sicrhau nad yw'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol yn amharu ar allu'r Timau Ymgysylltu i gadw staff medrus a gwybodus. Byddai o gymorth pe bai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn archwilio hyn drwy grŵp llywio'r Timau Ymgysylltu ymhell ymlaen llaw cyn i'r cyllid ddod i ben
- y dylai'r Timau Ymgysylltu roi mwy o bwyslais ar adnabod a chyfleu effaith cyllid cronfeydd ESI ar lefel ranbarthol. Dylai hyn gynnwys bod yn rhan o lunio a chyfleu canfyddiadau ar lefel gweithrediadau a rhaglenni yn ogystal â data ar berfformiad ar lefel gweithrediadau a rhanbarthol a fyddai'n golygu ei bod yn ofynnol i weithrediadau neu WEFO ddarparu data perthnasol ar eu cyfer
- y dylai unrhyw rwydweithiau a hwylusir gan y Timau Ymgysylltu geisio adeiladu ar yr arfer da presennol y nododd cyfranwyr ei fod yn digwydd, yn enwedig ar draws y de-ddwyrain, gyda ffocws ar fynd i'r afael â themâu neu faterion penodol mewn digwyddiadau yn y dyfodol
- y dylai'r Timau Ymgysylltu archwilio sut y gallent fabwysiadu dull mwy cyson o weithio gyda gweithrediadau a ariennir o ran y templedi a ddefnyddir i gasglu gwybodaeth gan weithrediadau am gynnydd a chanlyniadau a sicrhau bod gweithrediadau perthnasol yn cael gohebiaeth a gwahoddiadau i ddigwyddiadau gan bob Tîm Ymgysylltu
- y dylai'r Timau Ymgysylltu, lle nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd, archwilio sut y gallant ledaenu gwybodaeth, megis data cysylltiadau ar eu cyfer hwy eu hunain a Thimau Ymgysylltu eraill, bwletinau a chylchlythyrau, ar-lein.

9.15 Rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol i WEFO a'r Timau Ymgysylltu eu hystyried ar ôl cyfnod y rhaglenni. Rydym yn argymell:

- bod Timau Ymgysylltu yn parhau i gyfrannu at y trafodaethau presennol i symleiddio a rhesymoli strwythurau partneriaethau, gan ddefnyddio cyfleoedd cyllido Blaenoriaeth 5 ESF fel mecanwaith i wneud hynny

- bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gall y dyletswyddau presennol a gyflawnir gan y Timau Ymgysylltu, yn enwedig o ran ymgysylltu rhanbarthol, hwyluso a chydgysylltu partneriaethau, gael eu cyflawni fel rôl sydd wedi'i hymgorffori a'i hintegreiddio o fewn unrhyw bartneriaethau rhanbarthol wedi'u symleiddio yn y dyfodol
- bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gynnal yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r cysylltiadau sydd ar gael ar hyn o bryd ar draws strwythur y Timau Ymgysylltu er budd gwaith ymgysylltu yn y dyfodol drwy archwilio sut y gall staff gael eu trosglwyddo i strwythurau partneriaethau rhanbarthol yn y dyfodol
- os yw gweithgarwch ymgysylltu rhanbarthol yn y dyfodol yn mynd i gael ei gyllido o gronfa ganolog, y dylid mabwysiadu dosbarthiad cyllid tecach rhwng pob rhanbarth gan sicrhau bod lefel y cyllid yn gymesur â ffactorau megis maint y rhanbarth a lefel y buddsoddiad sydd ar gael i'r rhanbarth.